**Rhif: WG42764**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mai 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Gorffennaf 2021

© Hawlfraint y Goron

# Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

## Trosolwg

Cyhoeddwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Cyn ei gyhoeddi, roedd y Fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn dangos pa ganllawiau penodol, ychwanegol y byddai eu hangen ar ysgolion a lleoliadau er mwyn cynllunio a gwireddu eu cwricwlwm eu hunain yn llwyddiannus. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi:

- canllawiau ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg
- canllawiau ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb
- canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith
- canllawiau i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ar ddechrau'r continwwm dysgu
- fframwaith cwricwlwm ac asesu i'w fabwysiadu gan leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir
- canllawiau ar ddatblygu cwricwlwm ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am addysg heblaw yn yr ysgol
- canllawiau ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r cam adborth hwn yn croesawu eich barn ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir.

Datblygwyd y cwricwlwm drafft gan ymarferwyr drwy broses o gyd-adeiladu sydd wedi'i gefnogi gan arbenigwyr eraill. Mae'r cyfnod adborth hwn yn rhan o'r broses gyd-adeiladu. Mae'n rhoi cyfle i'r holl ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill gyfrannu a chefnogi datblygiad y cwricwlwm ymhellach.

Bydd y cyfnod adborth yn dod i ben ar 16 Gorffennaf 2021, ac ar ôl hynny bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n annibynnol, yn ogystal â chan ymarferwyr ac eraill yn y gweithgorau.

Caiff y cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir eu mireinio yn dilyn dadansoddiad o'r adborth a byddant yn cyd-fynd â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

| | |
|---|---|
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **16 Gorffennaf 2021** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru<br><br>Mae fersiwn hawdd ei ddarllen ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-hawdd-ei-ddeall/<br><br>Mae canllaw ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-canllaw-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Uned Gwireddu'r Cwricwlwm<br>Is-adran Cwricwlwm ac Asesu<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru |

@ LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **7** |
| **2** | **Dechrau arni** | **8** |
| 2.1 | Sut y byddwn yn defnyddio'r cwricwlwm hwn | 8 |
| 2.2 | Gofynion y cwricwlwm | 8 |
| 2.3 | Cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac egwyddorion cynnydd | 9 |
| 2.4 | Cyflwyno elfennau gorfodol y cwricwlwm | 10 |
| 2.5 | Cyflwyno'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol | 11 |
| **3** | **Y cefndir ar gyfer dysgu** | **11** |
| **4** | **Anghenion y plentyn: y pum llwybr datblygu** | **11** |
| 4.1 | Deall y llwybrau datblygu | 13 |
| 4.2 | Y llwybrau datblygu | 14 |
| **5** | **Rôl yr ymarferydd** | **23** |
| **6** | **Profiadau sy'n ennyn diddordeb** | **23** |
| **7** | **Amgylcheddau effeithiol** | **25** |
| **8** | **Addysgeg** | **26** |
| 8.1 | Chwarae a dysgu drwy chwarae | 26 |
| 8.2 | Bod yn yr awyr agored | 27 |
| 8.3 | Dysgu dilys a phwrpasol | 27 |
| **9** | **Sgiliau trawsgwricwlaidd** | **28** |
| 9.1 | Llythrennedd | 28 |
| 9.2 | Rhifedd | 36 |

| | | |
|---|---|---|
| 9.3 | Cymhwysedd digidol | 42 |
| **10** | **Asesu** | **47** |
| 10.1 | Dod i adnabod y plentyn yn ein lleoliad | 47 |
| 10.2 | Arsylwi ar blant | 48 |
| 10.3 | Asesu plant | 48 |
| **11** | **Gwella ymarfer** | **50** |
| 11.1 | Arweinyddiaeth | 50 |
| 11.2 | Llythrennedd corfforol | 51 |
| 11.3 | Cynhwysiant | 53 |
| 11.4 | Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod | 54 |
| 11.5 | Sgemâu | 55 |
| 11.6 | Cyfnodau pontio | 58 |
| | **Rhestr termau** | **60** |
| | **Atodiad A** | **62** |

# Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

## Cynulleidfa

Mae'r cwricwlwm hwn, sydd wedi bod yn destun proses sicrhau ansawdd (‘y cwricwlwm hwn’), yn cynnwys trefniadau asesu, a bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan y canlynol yn bennaf:

- Arweinwyr, ymarferwyr a phwyllgorau rheoli **lleoliadau meithrin nas cynhelir** a ariennir i ddarparu addysg gynnar yng Nghymru
- Athrawon Ymgynghorol yn y Blynyddoedd Cynnar, neu'r rhai mewn rolau cyfatebol mewn awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol, sy'n helpu lleoliadau i gynllunio a darparu addysg gynnar
- Sefydliadau eraill sy'n rhoi cymorth proffesiynol i leoliadau nas cynhelir
- Ymarferwyr mewn lleoliadau nas ariennir i ddarparu addysg gynnar ond y mae'n ofynnol iddynt, o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir,  ymarfer yn unol ag egwyddorion cwricwlwm cyfredol y Cyfnod Sylfaen.

## 1. Cyflwyniad

Datblygwyd y cwricwlwm hwn o ganllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru drwy waith cyd-awduro gan ymarferwyr, ar gyfer ymarferwyr. Caiff ei fynegi o safbwynt yr ymarferydd, gan fanteisio ar arbenigedd o bob rhan o'n sector nas cynhelir ynghyd â safbwyntiau arbenigwyr ym maes datblygiad plant ac addysg gynnar. Ei nod yw meithrin ein hymdeimlad o falchder a pherthyn fel ymarferwyr a'i feithrin ymhlith ein plant hefyd, gan ddathlu diwylliant amrywiol Cymru fodern.  Fe'i datblygwyd i gefnogi ein gwaith gyda phlant ar gam cyntaf y continwwm dysgu 3 i 16 oed, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau posibl ar y daith honno.

Gwyddom fod addysg gynnar o safon uchel yn hanfodol i ddatblygiad plant. Mae'r *profiadau*, yr *wybodaeth* a'r *sgiliau* y bydd eu hangen ar gyfer dysgu gydol oes, dinasyddiaeth weithgar a chyflogaeth yn y dyfodol yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar. Uchelgais y cwricwlwm hwn yw ennyn ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ymhlith plant, a fydd, os cânt eu meithrin, yn para am oes ac yn rhoi'r sylfaen gadarn sydd ei hangen ar bob un o'n plant i'w helpu i wireddu **pedwar diben y cwricwlwm.** Rydym am eu galluogi i ddatblygu yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith

- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae'r cwricwlwm hwn yn cydnabod bod pob plentyn yn ein lleoliad yn unigryw ac y bydd yn datblygu'n gyflym iawn yn ystod pum mlynedd cyntaf ei fywyd. Mae'r cwricwlwm hwn yn cefnogi datblygiad cyfannol drwy sicrhau bod anghenion datblygiadol ein plant yn cael lle blaenllaw yn ein hymarfer addysgegol.

Dylem ddefnyddio'r cwricwlwm hwn, ynghyd â'n gwybodaeth a'n profiad, i adlewyrchu anghenion unigol y plant yn ein lleoliad ac ymateb iddynt. Bydd ein harweinwyr a'n hymarferwyr yn gweithio gyda'r **rhwydweithiau proffesiynol** perthnasol, ac yn manteisio ar Rwydwaith Cenedlaethol Cwricwlwm i Gymru, er mwyn cefnogi ein datblygiad a'n dysgu proffesiynol parhaus. Dylem chwilio am gyfleoedd i rannu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd â'n partneriaid yn y sector nas cynhelir a'r sector a gynhelir.

# 2. Dechrau arni

## 2.1 Sut y byddwn yn defnyddio'r cwricwlwm hwn

Dylem weithio gyda'n holl bartneriaid perthnasol i ddefnyddio'r cwricwlwm hwn mewn ffordd sy'n cefnogi gwaith cynllunio yn ein lleoliad. Mae cynllunio effeithiol yn ein galluogi i wneud y gorau o amgylchedd ein lleoliad a'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu amgylcheddau dysgu priodol sy'n ymateb i ddiddordebau ein plant ac yn ennyn eu diddordeb ymhellach yn eu dysgu a'u datblygiad.

Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'r cwricwlwm hwn yn ei gyfanrwydd i'n helpu i gynllunio, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno cwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol ac sy'n bodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru, i'n holl blant.

## 2.2 Gofynion y cwricwlwm

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn nodi'r gofynion a osodir ar ysgolion a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir mewn perthynas â chynllunio cwricwlwm a threfniadau asesu ar gyfer pob dysgwr 3-16 oed, a'u rhoi ar waith. Mae Adran 13 o’r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cwricwlwm i leoliadau a ariennir nas cynhelir ei fabwysiadu, petaem yn dymuno gwneud hynny.

Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r cwricwlwm hwn yn bodloni'r gofynion canlynol:

- mae'n galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffordd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- mae'n eang ac yn gytbwys
- mae'n addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau
- mae'n rhoi cyfle i bob plentyn wneud cynnydd priodol.

Mae'r cwricwlwm hefyd:

- yn cynnwys pob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad
- yn cwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- yn adlewyrchu egwyddorion cynnydd
- yn cynnwys elfennau gorfodol y cwricwlwm
- yn cwmpasu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol.

## 2.3 Cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac egwyddorion cynnydd

Caiff y chwe maes dysgu a phrofiad (Maes/Meysydd) canlynol eu hadlewyrchu yn y cwricwlwm hwn:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae pob Maes yn cynnwys yr elfennau allweddol canlynol:

- **Esboniad o'r ffordd y mae'n cefnogi'r pedwar diben**
  Mae hwn yn dangos sut mae'r Maes yn gwneud cyfraniad pendant a chadarn at y gwaith o ddatblygu'r pedwar diben.

- **Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig**
  Y datganiadau hyn sy'n rhoi'r sylfaen ar gyfer dysgu ym mhob Maes, a'r egwyddorion allweddol sy'n sail iddo. Gyda'i gilydd, maent yn cwmpasu'r Maes cyfan, gan gefnogi ac ategu ei gilydd, ac yn gwneud cysylltiadau clir â phob un o'r pedwar diben[1].

- **Egwyddorion cynnydd**
  Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o egwyddorion cyffredin sy'n sail i gynnydd ym mhob Maes, yn ogystal â'r rhai a ddisgrifir yng nghyd-destun pob Maes. Mae'r egwyddorion cynnydd fel a ganlyn:
  - Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol
  - Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r Maes
  - Mireinio sgiliau a datblygu soffistigeiddrwydd wrth eu defnyddio a'u cymhwyso
  - Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd
  - Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr

- **Disgrifiadau dysgu**
  Mae'r rhain yn rhoi canllawiau ar sut y dylai plant wneud cynnydd o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar eu taith ar hyd y continwwm dysgu. Mae'r rhain wedi'u trefnu'n bum cam cynnydd, sy'n bwyntiau cyfeirio ar gyfer cyflymder y cynnydd. Mae'r camau cynnydd wedi'u llunio o safbwynt y dysgwr, a chânt eu fframio'n eang fel bod modd iddynt gynnal y dysgu dros gyfnod o flynyddoedd. Nid yw'r disgrifiadau wedi'u dylunio i fod yn dasgau, yn weithgareddau nac yn feini prawf asesu annibynnol. Er bod y continwwm dysgu yr un fath i bob plentyn, gall cyflymder y cynnydd ar hyd y continwwm hwnnw amrywio, ac felly dim ond cyfeirio'n fras at yr hyn y disgwylir i blant allu ei wneud yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed y mae'r camau cynnydd yn ei wneud.

Er i'r cwricwlwm hwn gael ei gynllunio i sicrhau y caiff pob un o'r Meysydd a'u helfennau allweddol eu hadlewyrchu'n briodol, mae hefyd yn bwysig ein bod yn ymgyfarwyddo â manylion pob Maes yn llawn, yn ogystal â'r egwyddorion cynnydd. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad A.

## 2.4 Cyflwyno elfennau gorfodol y cwricwlwm

Bydd yr adran hon wedi'i chwblhau fel rhan o'r gwaith mireinio a fydd yn dilyn y cam adborth hwn.

[1] Nid yw datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn derm a ddefnyddir yn y Ddeddf ei hun. Fodd bynnag, mae'n derm a ddefnyddir yng nghanllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru i gyfeirio at gysyniadau allweddol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Mae rhain i'w gweld yn y Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (gweler adran 6 o'r Ddeddf).

### 2.5 Cyflwyno'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol

Mae **llythrennedd**, **rhifedd** a **chymhwysedd digidol** yn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol. Ystyriwyd datblygiad o fewn ac ar draws y sgiliau hyn wrth gyd-awduro'r cwricwlwm hwn, a cheir gwybodaeth fanylach yn adran 9.

## 3. Y cefndir ar gyfer dysgu

I rai plant, yr adeg pan fyddant yn dod i'n lleoliad i ddechrau ar eu taith addysg fydd eu profiad cyntaf o fod i ffwrdd o'u cartref. I eraill, byddant eisoes yn gyfarwydd â phob agwedd ar fywyd mewn lleoliad. Ein cyfrifoldeb ni yw cydnabod y profiadau sydd gan bob plentyn pan fydd yn dechrau ar ei daith addysg gynnar, a gweithio mewn partneriaeth gyda phlant a'u rhieni a'u gofalwyr i'w cefnogi wrth iddynt ddechrau'r bennod newydd a chyffrous hon o'u datblygiad. Drwy greu lle sy'n hyrwyddo'r arfer o wrando ar lais y plentyn, gallwn ddechrau cydnabod cefndir ac anghenion unigryw pob plentyn ac ymateb iddynt, a gall plant ddechrau deall eu hawliau.

Man cychwyn yr egwyddorion allweddol sy'n hanfodol ar gyfer dysgu cyfannol ac ystyrlon i bob plentyn yw **ymarferwyr** medrus, sylwgar a brwdfrydig, sy'n cynnig **profiadau** dilys a phwrpasol mewn **amgylcheddau** cyffrous sy'n ennyn diddordeb. Ein rôl yw defnyddio ein harsylwadau i gynllunio profiadau ac amgylcheddau sy'n ystyrlon ac yn berthnasol i ddiddordebau plant. Mae'r cwricwlwm hwn yn sicrhau y caiff elfennau gorfodol Cwricwlwm i Gymru eu hymgorffori mewn fframwaith addysgegol priodol sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn sy'n datblygu ar hyd pum llwybr datblygu.

## 4. Anghenion y plentyn: y pum llwybr datblygu

Mae'r cwricwlwm hwn yn cydnabod ac yn dathlu natur unigryw pob plentyn a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig i'r profiad dysgu. Dylai'r cyfnod dysgu cynnar hwn fod yn ddi-frys, gan ganiatáu amser, lle a rhyddid i'r plentyn sy'n datblygu atgyfnerthu'r hyn y mae'n ei ddysgu drwy gyfleoedd i ddychwelyd at ei wybodaeth a'i sgiliau newydd, eu hailystyried a'u mireinio. Mae'r dull cylchol hwn yn hanfodol er mwyn gwneud cynnydd ar hyd y daith ddysgu.

Mae'r cwricwlwm hwn yn cynnwys pum llwybr datblygu allweddol sy'n hanfodol er mwyn i bob plentyn ifanc ddysgu a datblygu. Mae'r llwybrau hyn yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn ddibynnol ar ei gilydd, ac maent yr un mor bwysig â'i gilydd o ran cefnogi datblygiad a chynnydd cyffredinol. Maent yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn ac mae cysylltiad agos rhyngddynt ac

egwyddorion allweddol datblygiad plant, yn ogystal â'r datganiadau cyffredin o'r hyn sy'n bwysig a geir yn y chwe maes dysgu a phrofiad.  Bwriedir iddynt sicrhau y gellir helpu plant i wneud cynnydd wrth eu pwysau eu hunain ac yn yr amgylchedd dysgu a ffefrir ganddynt.

Y pum llwybr datblygu yw:

- Perthyn
- Cyfathrebu
- Archwilio
- Datblygiad corfforol
- Lles

Mae datblygiad o fewn ac ar draws y pum llwybr yn dibynnu ar ansawdd ein rhyngweithio a'r profiadau a'r amgylcheddau dysgu y byddwn yn eu creu. Bydd dysgu ac addysgu mewn ffordd gyfannol yn sicrhau y caiff plant gyfleoedd i feithrin sgiliau o fewn ac ar draws pob un o'r llwybrau.  Dylem sicrhau ein bod yn rhoi digon o amser a chyfle i feistroli sgiliau, gyda chyfnodau hir o chwarae di-dor er mwyn i blant allu ymgolli yn yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae'n arferol i blant wneud cynnydd cyflymach neu arafach ar hyd rhai llwybrau, yn dibynnu ar ansawdd y rhyngweithio, y profiadau a'r teithiau datblygu unigol y maent wedi'u profi cyn dod i'n lleoliad. Felly, ein cyfrifoldeb ni yw cynnig ymarfer sy'n briodol yn ddatblygiadol,  o fewn cydberthnasau meithringar, sy'n diwallu anghenion pob plentyn. Drwy wneud hyn, gallwn osod sylfeini teimladau ac ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, drwy sicrhau bod profiadau dysgu yn berthnasol, yn ystyrlon ac yn ymateb i anghenion a diddordebau'r plant yn ein gofal.

Dylem ystyried bod pob plentyn ar daith tuag at ddod yn ddinesydd y dyfodol, ac yn rhywun a all gyfrannu at gymdeithas mewn ffyrdd unigryw ac unigol.

Dylai cyflwyno'r cwricwlwm hwn yn briodol sicrhau y bydd pob plentyn yn ein lleoliad yn gwneud cynnydd o'r llwybrau i'r disgrifiadau dysgu ar gam cynnydd 1. Dylid defnyddio'r pum llwybr mewn ffordd gyfannol wrth gynllunio profiadau dysgu er mwyn sicrhau bod plant yn dysgu mewn ffordd ddilys a phwrpasol.

## 4.1 Deall y llwybrau datblygu

Plant sydd wrth wraidd y cwricwlwm hwn ac, fel y cyfryw, caiff y pum llwybr datblygu eu mynegi o safbwynt y plentyn er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar anghenion, diddordebau a chwilfrydedd plant tair a phedair oed. Mae plant yn dysgu i fynegi eu hunain; maent yn dod yn fwy annibynnol ac yn fwy ymwybodol o'u gwerth i'r bobl o'u cwmpas. Mae'r llwybrau'n cynrychioli hawl plentyn i gael profiad o amgylchedd lle y caiff chwarae ei werthfawrogi yn ei rinwedd ei hun ac fel rhan o ddysgu.

Mae pob un o'r llwybrau'n cynnwys:

- Sail resymegol glir sy'n cyfleu hanfod yr hyn y mae angen i blant ei ddatblygu wrth eu pwysau eu hunain ac mewn ffordd sy'n briodol iddyn nhw
- Datganiadau sy'n disgrifio'r canlynol:
    - ‘Mae angen i mi…’
    - ‘Rwy'n dysgu sut i…’
    - ‘Mae fy natblygiad yn cael ei gyfoethogi gan…’

Mae'r datganiadau ‘*Mae angen i mi...*’ yn mynegi'r ffactorau biolegol a chymdeithasol na all, neu na ddylai plant, eu hanwybyddu. Mae'r datganiadau hyn yn cyfleu'r cyfleoedd sylfaenol sydd eu hangen ar blant i ffynnu. Ein cyfrifoldeb ni yw adnabod a deall y ffactorau biolegol hyn fel ein bod yn cynnig cyfleoedd chwarae pwrpasol i blant er mwyn iddynt ddiwallu'r anghenion hyn. Maent yn ddatganiadau cynhwysol sy'n berthnasol i blant o bob gallu. Dylid defnyddio'r datganiadau ‘*Mae angen i mi...’* er mwyn helpu i gynllunio darpariaeth ac nid at ddibenion asesu crynodol.

Mae'r datganiadau ‘*Rwy'n dysgu sut i...*’ yn dangos y sgiliau a'r ymagweddau y mae plant yn eu datblygu ar eu taith ddysgu. Drwy adnabod yr hyn y mae plant yn dysgu’i wneud, gallwn gynnig profiadau dysgu gwell iddynt a all ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach, neu gyfleoedd i gymhwyso sgiliau newydd mewn cyd-destunau cyfarwydd. Gwyddom fod cynnydd i blant unigol yn debygol o fod yn anwastad o fewn ac ar draws y llwybrau, felly mae'n bwysig ein bod yn defnyddio ein harsylwadau i roi arweiniad, cymorth a her pan fo angen.

Mae'r datganiadau ‘*Mae fy natblygiad yn cael ei gyfoethogi gan...’* yn disgrifio'r amodau delfrydol a all gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol y plentyn. Bydd llwyddiant yn dibynnu ar ba mor dda y byddwn yn ymateb i'r anghenion hyn sy'n datblygu, ac yn cynllunio ar eu cyfer.

Mae'r llwybrau'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn a'r hyn y gallwn ei wneud i'w helpu i ddatblygu a'i annog i fod yn chwilfrydig ac archwilio.

Caiff y rhyngweithio rhwng plant, oedolion, profiadau a'r amgylchedd ei fynegi ym mhob llwybr drwy'r datganiadau. Mae'r rhain wedi'u cydblethu'n annatod ac yn fwriadol â'i gilydd o fewn y pum llwybr fel bod cyfleoedd yn gyfannol ac yn galluogi plant i wireddu eu potensial llawn.

## 4.2 Y llwybrau datblygu

<table>
<tr><th colspan="3">Perthyn</th></tr>
<tr><td colspan="3">Mae perthyn yn hanfodol i'n hymdeimlad o hapusrwydd a lles. Pan fyddant yn ifanc, bydd plant yn dechrau meithrin ymdeimlad o'u lle a'u pwysigrwydd o fewn y grwpiau niferus y maent yn perthyn iddynt. Mae cydberthnasau cadarn a sicr yn hollbwysig i'r ymdeimlad hwn o berthyn.<br><br>Gall yr ymdeimlad hwn esgor ar deimladau cadarnhaol o gysylltiad â'r cartref a'r lleoliad, a gall ymestyn i'r gymuned, i Gymru ac i'r byd ehangach. Gall lleoliadau sy'n parchu ac yn dathlu profiadau plant o'u cartrefi a'u cymuned yn y gorffennol a'r presennol, ac yn adeiladu ar y profiadau hynny, atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad, a rhoi gofal a chymorth emosiynol gwirioneddol er mwyn helpu i feithrin ymdeimlad cadarn o berthyn.<br><br>Mae perthyn yn bwysig er mwyn llywio ymdeimlad plant o bwy ydynt a phwy y gallant fod ac, fel y cyfryw, dylai fod yn sail i ethos pob lleoliad yng Nghymru.</td></tr>
<tr><td>Mae angen i mi:<br>• deimlo fel aelod gwerthfawr o gymuned y lleoliad<br>• chwarae (ar fy mhen fy hun, ochr yn ochr ag eraill neu gydag eraill)<br>• wneud cysylltiadau â phobl, lleoedd a phethau<br>• gael fy nghlywed a fy neall</td><td>Rwy'n dysgu sut i:<br>• adnabod pwy ydw i<br>• sylweddoli fy mod yn bwysig i'r bobl o'm cwmpas<br>• gymryd rhan ym mywyd y lleoliad<br>• ofalu amdanaf fi fy hun<br>• ddilyn arferion cyfarwydd<br>• ddeall a dilyn rhai rheolau a ffiniau</td><td>Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sydd:<br><br>• yn rhoi gofal a pharch cyson i mi<br>• yn darparu adnoddau cyfarwydd sy'n adlewyrchu fy niwylliannau a fy nghymunedau<br>• yn fy ngweld i fel dysgwr galluog</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| • weld fy hun a phobl fel fi yn cael ein cynrychioli yn fy lleoliad | • adnabod fy anghenion fy hun ac anghenion pobl eraill<br>• sylweddoli bod rhai pethau yn anniogel<br>• ofalu am bethau yn fy amgylchedd – pethau byw a phethau nad ydynt yn fyw<br>• sylweddoli fy mod yn perthyn i gymuned ehangach<br>• adnabod yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol | • yn modelu agwedd lawen a chwilfrydig at ddysgu<br>• yn ymateb i fy niddordebau, yr hyn rwy'n ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi<br>• yn cynllunio profiadau ar ôl arsylwi ar fy newisiadau a'r hyn sydd orau gennyf wrth chwarae<br>• yn blaenoriaethu fy anghenion wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnaf<br>• yn fy ngalluogi i chwarae ar fy mhen fy hun a/neu gydag eraill<br>• yn hyrwyddo ethos cynhwysol sy'n gwerthfawrogi diwylliant amrywiol Cymru<br>• yn cynnig cyfleoedd priodol i brofi agweddau ar ddiwylliannau gwahanol mewn cyd-destunau dilys<br>• â chysylltiadau cryf â fy nghartref a fy nghymuned leol<br>• yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr i gefnogi cysylltiadau a chyfoethogi diddordebau |

| **Cyfathrebu** |
|---|
| Mae cyfathrebu yn rhan sylfaenol o ddatblygiad plant; mae'n hollbwysig ar gyfer ffurfio cydberthnasau ac yn hanfodol ar gyfer dysgu, chwarae a rhyngweithio cymdeithasol. Mae angen i blant ddeall pobl eraill a gallu gwneud i bobl eraill eu deall nhw er mwyn iddynt ddysgu'n effeithiol. Mae cyfathrebu'n ymwneud â meithrin sgiliau gwrando a thalu sylw ochr yn ochr â geirfa a sgiliau siarad. |

| Gall faint a’r math o siarad y bydd plant yn ei glywed ac yn rhyngweithio ag ef gael effaith sylweddol ar ddatblygiad eu sgiliau cyfathrebu. Bydd plant yn caffael ac yn meithrin sgiliau ar gyfraddau gwahanol, a gallwn gefnogi eu datblygiad iaith drwy fodelu sgiliau gwrando gweithredol a siarad at ddibenion gwahanol. Dylai amgylchedd sy'n llawn cyfathrebu gynnig cyfleoedd i blant fynegi a chyfleu eu hanghenion, eu meddyliau a'u teimladau. Wrth ddysgu sgiliau newydd, dylai plant gael cyfleoedd i'w defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau gyda'i gilydd, neu gydag oedolion, mewn grwpiau bach neu un i un. Mae cyfleoedd rheolaidd a chyson i gymryd rhan mewn straeon, caneuon a rhigymau yn helpu i ddatblygu geirfa a gramadeg. Mae datblygu sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd cynnar yn bwysig ar gyfer hunanfynegiant, meithrin cydberthnasau cymdeithasol cadarn a'r ffordd y bydd plentyn yn dysgu yn fwy cyffredinol. Mae gallu priodoli ystyr i farciau yn ymdrech greadigol sy'n galluogi plant i ddechrau ar y daith i gyfathrebu'n ysgrifenedig, boed hynny drwy dynnu lluniau, ysgrifennu neu wneud marciau mathemategol. | | |
|---|---|---|
| **Mae angen i mi:**<br>• gyfathrebu<br>• sylwi ar bethau yn fy amgylchedd<br>• ddatblygu cydberthnasau cymdeithasol<br>• gael fy nghlywed a chael fy neall<br>• gael amser i feddwl a phrosesu | **Rwy'n dysgu sut i:**<br>• ddatblygu fy sgiliau talu sylw a gwrando wrth chwarae a rhyngweithio<br>• adnabod ciwiau geiriol a dieiriau ac ymateb iddynt<br>• fynegi fy anghenion, fy meddyliau, fy nheimladau, fy syniadau a fy marn<br>• dalu sylw i bobl eraill<br>• esgus cyflawni arferion cyfarwydd ac ymgymryd â rolau wrth chwarae<br>• rannu fy straeon fy hun<br>• ailadrodd straeon a dwyn digwyddiadau i gof<br>• ymuno mewn straeon a rhigymau cyfarwydd<br>• sylwi ar symbolau yn fy amgylchedd a dechrau sylweddoli bod ystyr iddynt<br>• ddefnyddio adnoddau gwneud marciau â mwy a mwy o reolaeth<br>• roi fy ystyr fy hun i fy marciau | **Mae fy sgiliau cyfathrebu'n cael eu cyfoethogi gan oedolion sydd:**<br>• yn modelu sgiliau cyfathrebu da, gan gynnwys cymryd rhan mewn cyd-feddwl parhaus a defnyddio cwestiynau penagored i'm helpu i feddwl<br>• yn defnyddio iaith gywir i'm helpu i ddatblygu cysyniadau a geirfa<br>• yn ennyn fy niddordeb mewn straeon, caneuon a rhigymau o fy niwylliant fy hun ac o ddiwylliannau eraill<br>• yn datblygu fy hyder wrth gyfathrebu ag eraill<br>• yn cefnogi fy sgiliau cyfathrebu geiriol a dieiriau ac yn ymateb yn sensitif iddynt<br>• yn fy ngalluogi i ddarllen llyfrau lluniau er mwyn i mi ddatblygu fy ngeirfa a chysyniadau mathemategol fel rhif, siâp a phatrwm yn well |

| | | |
|---|---|---|
| | • ddefnyddio iaith mewn ffordd chwareus a llawn hwyl<br>• ddefnyddio iaith i bwrpas | • yn archwilio adnoddau digidol gyda fi er mwyn gwella fy sgiliau cyfathrebu<br>• yn cynnig ac yn cynllunio cyfleoedd dilys i wneud marciau<br>• yn creu amgylcheddau sy'n cynnig profiadau eang ac amrywiol i mi fynegi fy hun yn gorfforol, yn greadigol ac yn ddychmygus<br>• yn rhoi amser i mi siarad am brofiadau a digwyddiadau sy'n bwysig i mi, a myfyrio arnynt<br>• yn rhoi amser i mi brosesu ac ymateb<br>• yn defnyddio llyfrau, pypedau, propiau a chyfryngau digidol mewn ffordd fedrus i ennyn fy niddordeb yn fy nysgu<br>• yn cynnig cyfleoedd ar gyfer chwarae rôl dilys a chyfarwydd<br>• yn cynnig cyfleoedd i mi gael hwyl gyda seiniau a gwahaniaethu rhwng seiniau<br>• yn darparu ar gyfer cyfleoedd un i un, grŵp bach a grŵp cyfan<br>• yn cynnig cyfleoedd i gymryd tro. |

| **Archwilio** |
|---|
| Mae chwilfrydedd naturiol plant ynglŷn â'r byd o'u cwmpas yn gymhelliant cryf i archwilio. Mae plant yn ddatryswyr problemau parhaus sy'n aml yn cael pleser mewn digwyddiadau pob dydd ac yn cael eu rhyfeddu ganddynt. Maent yn mwynhau archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain ac ar y cyd ag eraill. Maent yn aml yn awyddus i rannu eu pleser mewn gwybodaeth neu sgiliau newydd a dysgu oddi wrth ei gilydd. Bydd plant bach yn chwilio am wybodaeth a sgiliau sydd o fewn eu galluoedd presennol a'r |

tu hwnt iddynt hefyd. Pan gânt eu cefnogi a'u galluogi, gallant ganolbwyntio am gyfnodau estynedig ar bethau sydd o ddiddordeb iddynt. Byddant yn ailadrodd ac yn ymarfer sgiliau a damcaniaethau newydd ar eu pen eu hunain ac ar y cyd ag eraill wrth i'w sgiliau archwilio ddatblygu.

Mae dysgu'n golygu meithrin sgiliau, gwybodaeth a galluoedd yn raddol ac mewn ffyrdd cynyddol gymhleth. Mae amgylcheddau cynhwysol, dan do ac yn yr awyr agored, yn rhoi amser a chyfle i chwarae, archwilio ac ymchwilio, gydag oedolion sy'n deall beth yw diddordebau'r plant, a gall yr amgylcheddau hyn gefnogi ymagweddau cadarnhaol at ddysgu yn ogystal â meithrin gwybodaeth a sgiliau.

| **Mae angen i mi:** | **Rwy'n dysgu sut i:** | **Mae fy sgiliau archwilio'n cael eu cyfoethogi gan oedolion sydd:** |
|---|---|---|
| • archwilio ac ymchwilio a darganfod<br>• rannu fy chwilfrydedd ag eraill<br>• wneud cysylltiadau<br>• ddatblygu fy nychymyg mewn amrywiaeth o ffyrdd<br>• gymharu, didoli a dosbarthu<br>• greu, cyfathrebu a mynegi fy hun<br>• archwilio symudiad a chyfeiriad a datblygu fy ymwybyddiaeth ofodol<br>• arbrofi ag achos ac effaith | • ganolbwyntio ar bethau sydd o ddiddordeb i mi<br>• ddatblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd mae pethau'n gweithio<br>• ddefnyddio fy nghamgymeriadau i wella fy nealltwriaeth, gyda chymorth<br>• rannu fy mhrofiadau a'r hyn rwy'n ei feddwl<br>• gyfleu fy syniadau drwy wneud marciau neu ddefnyddio technoleg briodol<br>• archwilio priodweddau deunyddiau<br>• ddatblygu fy ngallu i feddwl yn greadigol ac yn feirniadol drwy archwilio<br>• sylwi ar siâp, cymesuredd a phatrwm yn yr amgylchedd naturiol ac adeiledig<br>• chwarae â meintiau a rhifau<br>• ddefnyddio iaith fathemategol syml wrth chwarae ac i bwrpas | • yn cynnig cyfleoedd dilys i chwarae ac arbrofi ag amrywiaeth o ddeunyddiau, gweadau ac offer dan do ac yn yr awyr agored<br>• yn deall amrywiaeth diwylliant Cymru ac yn cynnig cyfleoedd i mi fod yn chwilfrydig am Gymru a diwylliant Cymru, ac archwilio agweddau arnynt<br>• yn arsylwi ac yn sylwi ar fy niddordebau ac yn eu defnyddio i fy helpu i ddysgu'n fanylach<br>• yn fy helpu i ddatblygu dealltwriaeth drwy ryngweithio'n fedrus<br>• yn rhannu'r un pleser a brwdfrydedd â fi<br>• yn fy ngweld i'n hyderus, galluog a chwilfrydig<br>• yn cefnogi, yn dathlu ac yn annog fy chwilfrydedd |

| | | |
|---|---|---|
| | • trosglwyddo'r hyn rwy'n ei ddysgu i sefyllfaoedd newydd<br>• datrys problemau a myfyrio ar yr hyn rwy'n ei ddysgu<br>• datblygu gwydnwch a dyfalbarhad<br>• datblygu fy nghysyniad o amser: heddiw, yfory, ddoe<br>• sylwi ar yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pobl, lleoedd a phethau<br>• defnyddio fy synhwyrau i archwilio'r byd o'm cwmpas<br>• dewis offer ac adnoddau priodol i ddysgu'n well | • yn cyfoethogi'r amgylchedd gan ddefnyddio adnoddau penagored sy'n sbarduno fy chwilfrydedd<br>• yn defnyddio'r awyr agored fel lle i ddysgu<br>• yn cefnogi ac yn datblygu cysyniadau ac iaith fathemategol a gwyddonol mewn ffyrdd ystyrlon<br>• yn gwerthfawrogi'r broses o ddysgu yn hytrach na'r canlyniad<br>• yn fy nghefnogi wrth i mi ddysgu o'm camgymeriadau<br>• yn cydnabod ac yn dathlu fy mhenderfyniad a'm hymdrech<br>• yn fy ngalluogi i ddefnyddio adnoddau digidol sy'n fy helpu i ymchwilio a myfyrio ar yr hyn rwy'n ei ddysgu<br>• yn modelu prosesau meddwl a datrys problemau<br>• yn dilyn fy niddordebau<br>• yn defnyddio cerddoriaeth a dawns fel sbardun i ddysgu<br>• yn defnyddio adnoddau go iawn i ddod â straeon, rhigymau a cherddi yn fyw<br>• yn fy helpu i ddefnyddio llyfrau ffeithiol ac adnoddau digidol priodol |

## Datblygiad Corfforol

Mae gan blant ysfa naturiol i symud eu hunain a symud pethau, a hynny'n aml dro ar ôl tro, fel rhan o'u datblygiad. Mae hyn yn golygu defnyddio sgiliau motor bras a manwl. Daw'r symudiadau motor hyn yn fwy cywrain a byddant yn cydsymud yn fwy esmwyth gydag amser a chyfle. Mae ailadrodd ac amrywiaeth yn hollbwysig i ddatblygiad wrth i blant ddechrau archwilio eu galluoedd corfforol cynyddol.

Mae i weithgarwch corfforol lawer o fanteision i'r plentyn sy'n datblygu. Mae symud yn gysylltiedig â gwybyddiaeth a dysgu, a gall cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gyfoethogi ymdeimlad plant o berthyn a lles. Gall gefnogi lefelau uwch o ganolbwyntio, cymhelliant a chof, yn ogystal â helpu'r esgyrn a'r cyhyrau i ddatblygu'n iach. Oherwydd hyn, caiff sgiliau datblygiad corfforol eu cydblethu â'r pedwar llwybr arall, yn ogystal â bod yn llwybr ar wahân yn ei rinwedd ei hun.

| **Mae angen i mi:** | **Rwy'n dysgu sut i:** | **Mae fy natblygiad corfforol yn cael ei gyfoethogi gan:** |
|---|---|---|
| • fynegi fy hun mewn gofodau bach a mawr<br>• symud y tu mewn i wrthrychau ac o'u cwmpas, dan do ac yn yr awyr agored<br>• symud mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn helpu i ddatblygu fy sgiliau echddygol bras<br>• ddatblygu fy sgiliau motor manwl mewn profiadau go iawn<br>• brofi fy ngalluoedd, herio fy hun yn gorfforol ac archwilio'r hyn y gallaf ei wneud â fy nghorff<br>• allu dewis sut a phryd i symud<br>• fod yn chwilfrydig ynglŷn â'r ffordd y gallaf ryngweithio'n gorfforol â'r byd o'm cwmpas | • gydsymud<br>• symud yn ddiogel<br>• gadw cydbwysedd<br>• symud ar amrywiaeth o arwynebau<br>• gydsymud fy nwylo a fy llygaid<br>• daflu a dal gwrthrychau<br>• fentro wrth chwarae'n gorfforol<br>• drin a thrafod gwrthrychau llai ac archwilio eu priodweddau<br>• gynllunio fy symudiadau a gwneud penderfyniadau amdanynt | • brofiadau dilys yn y byd naturiol<br>• amgylchedd dysgu sy'n cynnig cyfleoedd dyddiol i ddatblygu fy sgiliau echddygol bras a manwl<br>• gyfleoedd i ddatblygu fy ngallu i gydsymud a chryfder craidd fy nghorff<br>• gyfleoedd i deimlo llawenydd wrth wneud gweithgaredd corfforol<br>• amgylchedd cynhwysol sy'n fy helpu i symud a bod yn egnïol<br>• oedolion cefnogol sy'n fy annog i asesu a rheoli risgiau a herio fy hun<br>• gyfleoedd i brofi cerddoriaeth, dawns a gemau<br>• gyfleoedd i archwilio cysyniadau, gan gynnwys maint, siâp, patrwm a rhythm yn fy symudiadau corfforol |

## Lles

Bydd yr oedolion, y profiadau a'r amgylcheddau y bydd plant yn dod ar eu traws yn dylanwadu arnynt. Pan fydd y tri yn cydweithio'n llwyddiannus, byddant yn creu ymdeimlad cryf o les i bawb.

Mae teimlo'n gysylltiedig ac yn ddiogel yn elfennau allweddol o ddatblygu ymdeimlad cryf o les. Gall oedolion sy'n creu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol helpu plant i ddechrau adnabod a rheoli eu teimladau a'u hymddygiad mewn ffyrdd cadarnhaol. Gallant hefyd helpu plant i ddechrau deall bod gweithredoedd yn arwain at ganlyniadau.

Gall plant sydd ag ymlyniadau a chydberthnasau cadarn feddu ar hunanhyder ac, felly, gallant wneud dewisiadau'n well, bod yn fwy gwydn ac annibynnol, a chymryd rhan mewn gweithgareddau pob dydd mewn ffordd gadarnhaol.

| **Mae angen i mi:** | **Rwy'n dysgu sut i:** | **Mae fy lles yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sydd:** |
|---|---|---|
| • deimlo'n ddiogel<br>• wneud dewisiadau<br>• ddilyn fy niddordebau fy hun<br>• ddangos fy emosiynau<br>• deimlo cysylltiad â phobl eraill<br>• deimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi<br>• weld fy hun a fy myd yn cael eu hadlewyrchu yn yr amgylchedd | • ryngweithio ag eraill<br>• gymryd fy nhro a rhannu<br>• ddangos yr hyn rwy'n ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi<br>• fod yn garedig<br>• fod yn ystyriol o bobl eraill<br>• adnabod fy nheimladau<br>• adnabod teimladau pobl eraill<br>• reoli fy ymatebion â chymorth<br>• adnabod sut rwy'n debyg ac yn wahanol i bobl eraill<br>• sylweddoli bod fy ngweithredoedd i a gweithredoedd pobl eraill yn arwain at ganlyniadau<br>• ddod yn annibynnol o ran fy hylendid personol | • yn parchu ac yn gwerthfawrogi fy ngweithgareddau chwarae<br>• yn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau wrth i mi chwarae<br>• yn rhoi amser, lle a rhyddid i mi archwilio a darganfod<br>• yn gwrando ar fy marn ac yn ymddiried yn fy newisiadau<br>• yn fy helpu i ddod yn fwy annibynnol<br>• yn fy helpu i reoli ansicrwydd a newid<br>• yn adnabod ac yn dilysu fy nheimladau, er mwyn fy helpu i ddod o hyd i ffyrdd o fynegi fy emosiynau a dechrau eu rheoli<br>• yn fy annog i chwarae rhan weithredol yn fy mhroses ddysgu |

| | | |
|---|---|---|
| | | • yn gwrando, yn arsylwi ac yn sylwi ar fy nealltwriaeth sy'n datblygu<br>• yn gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu fy anghenion<br>• yn sicrhau bod yr amgylchedd yn fy adlewyrchu i a fy nheulu unigryw drwy ddewis adnoddau a chynnwys arddangosfeydd yn ofalus<br>• yn parchu, yn gwerthfawrogi, yn deall ac yn cefnogi fy niwylliant, fy nhreftadaeth a fy nghredoau<br>• yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu hunan-barch drwy greadigrwydd a chymryd rhan<br>• yn datblygu fy nealltwriaeth o ffyrdd o gadw fy nghorff yn iach |

## Cwestiynau myfyriol

**Ar gyfer ymarferwyr:**

- Sut y byddaf yn gwybod a yw'r amgylchedd yn fy lleoliad yn diwallu anghenion pob plentyn?
- I ba raddau ydw i'n cynnig amrywiaeth dda o brofiadau dilys sy'n briodol yn ddatblygiadol i'r plant?
- I ba raddau y mae'r gwaith o drefnu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn dechrau gydag anghenion ac ymagweddau'r plant yn fy lleoliad?
- I ba raddau ydw i'n ymateb i ddiddordebau a chwilfrydedd unigol y plant, ac yn eu hymestyn?

**Ar gyfer arweinwyr:**

- I ba raddau ydw i'n sicrhau bod y llwybrau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu?
- I ba raddau ydw i'n cyfleu disgwyliadau uchel o ran y dysgu a'r addysgu mewn perthynas â'r llwybrau?

## 5. Rôl yr ymarferydd

Rydym yn cydnabod bod ein rôl yn hanfodol i gynnydd pob plentyn ac yn arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod dysgu cynnar hwn. Dylem osod y disgwyliad ar gyfer dysgu drwy greu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol ac sy'n helpu plant i ddechrau mynegi a rheoli eu teimladau a'u hymddygiad mewn ffyrdd cadarnhaol. Dylem fodelu agwedd lawen at ddysgu, gan annog a chefnogi chwilfrydedd naturiol plant, a gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd dysgu digymell sy'n digwydd yn naturiol wrth inni arsylwi arnynt a chymryd rhan yn eu chwarae.

Mae cyfrifoldeb arnom i wneud cysylltiadau cryf â chartref a chymuned y plentyn, er mwyn atgyfnerthu ei ymdeimlad o berthyn drwy groesawu profiadau'r gorffennol a'r presennol.

Gallwn gael effaith gadarnhaol ar les plant drwy fod yn gyson yn ein gofal a modelu tosturi a charedigrwydd.  Dylem ddangos parch at blant drwy gefnogi eu penderfyniadau a'u dewisiadau. Dylem helpu plant i ymdopi ag ansicrwydd a newid mewn ffordd sensitif, gan eu paratoi i reoli cyfnodau pontio a newidiadau i arferion dyddiol. Dylem bob amser geisio gwneud y gorau o gyfleoedd dysgu yn yr arferion dyddiol hyn.

Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol er mwyn cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys, gan adeiladau ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol plant, yn ogystal â'u diddordebau presennol. Dylem fireinio'r gwaith cynllunio ac ansawdd y ddarpariaeth, gan wneud addasiadau rheolaidd i ddiwallu anghenion pob plentyn.

Dylai fod gennym wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ym maes datblygiad plant, a dylem eu cymhwyso'n llwyddiannus at ein gwaith beunyddiol. Dylem arsylwi'n ofalus er mwyn dilyn diddordebau plentyn, gan gynllunio profiadau dysgu ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ein harsylwadau. Dylem nodi patrymau ymddygiad mynych wrth i blant ddechrau archwilio'r byd o'u cwmpas. Dylem ddeall bod plant bach yn elwa ar gyfleoedd i ailadrodd ac ymarfer gweithredoedd mewn llawer o gyd-destunau gwahanol er mwyn meithrin eu sgiliau meddwl. Dylem helpu plant i ddatblygu gwydnwch, annibyniaeth a hyder drwy eu hannog i fentro'n ofalus a herio eu hunain.

## 6. Profiadau sy'n ennyn diddordeb

Dylai'r profiadau y byddwn yn eu cynnig yn y blynyddoedd cynnar fod yn ymarferol, yn ystyrlon ac yn bwrpasol i'r plentyn. Dylent annog plant i fod yn annibynnol; gan gynnig risg, her a chyfleoedd i brofi llwyddiant ar hyd y daith ddysgu. Dylent fod yn seiliedig ar gyd-destunau dilys go iawn, gan annog plant i gymryd rhan yn frwd a dysgu'n weithredol am gyfnodau hir a di-dor.

Gall profiadau gynnwys dewisiadau'r plant eu hunain neu ddatblygu o ddiddordebau lleol neu gyfredol. Dylent gefnogi datblygiad cyfannol plant, gan helpu plant i wneud cysylltiadau ar draws eu profiadau dysgu. Dylai fod digonedd o gyfleoedd yn ein lleoliadau i blant ddychwelyd at brofiadau i ailystyried ac atgyfnerthu'r hyn y maent wedi'i ddysgu.

Wrth iddynt ddechrau priodoli ystyr i'w marciau, dylai plant gael amrywiaeth o gyfleoedd i arbrofi ag amrywiaeth o offer a deunyddiau i wneud marciau.  Mae'r profiadau hyn yn helpu plant bach i sylwi ar eu dealltwriaeth o gynrychioli drwy symbolau, a datblygu'r ddealltwriaeth honno, gan ddefnyddio gwrthrychau, lluniau a symbolau, ac yn eu helpu i sylweddoli bod ystyr i farciau, arwyddion a symbolau.

Mae angen i blant gael profiadau ymarferol sy'n eu hannog i ddefnyddio geirfa fathemategol syml wrth archwilio nifer, rhif, siâp a phatrwm.

Bydd profiadau effeithiol yn cefnogi datblygiad gwybyddol plant drwy gynnig cyfleoedd i gymharu, didoli a dosbarthu pethau byw a phethau nad ydynt yn fyw. Dylai plant gael cyfleoedd i archwilio ac arbrofi â thechnoleg ddigidol at amrywiaeth o ddibenion.

Dylai pob plentyn gael profiadau sy'n hyrwyddo mwynhad mewn gweithgaredd corfforol. Mae angen i blant gael amrywiaeth eang o brofiadau corfforol dan do ac yn yr awyr agored gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar ac adnoddau. Dylent gael profiadau sy'n eu galluogi i ddefnyddio amrywiaeth eang o offer a chyfarpar â rheolaeth gynyddol. Bydd y profiadau hyn yn helpu plant i feithrin ymwybyddiaeth o'u cyrff, cydsymud, cryfder craidd y corff a chydbwysedd, rheolaeth motor bras a manwl. Byddant yn helpu plant i asesu a rheoli risg, gan eu helpu i feddwl, cynllunio a gwneud penderfyniadau am eu symudiadau a'u gweithredoedd.

Mae profiadau o safon uchel yn hanfodol er mwyn helpu plant i feithrin sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu. Mae angen i blant gael profiadau sy'n eu helpu i feithrin gwydnwch emosiynol,  a dylid rhoi amser a chefnogaeth iddynt fynegi ac adnabod eu teimladau eu hunain a theimladau pobl eraill. Dylai'r profiadau hyn gael eu cynllunio'n ofalus er mwyn meithrin sgiliau talu sylw a gwrando plant mewn amrywiaeth o gyd-destunau, dan do ac yn yr awyr agored.

Dylai profiadau adlewyrchu a pharchu dwyieithrwydd ac amrywiaeth diwylliant ac ieithoedd yng Nghymru. Dylai plant gael profiad o amrywiaeth eang o straeon, cerddi, caneuon a rhigymau. Dylid cynnig profiad o ieithoedd a diwylliannau gwahanol mewn ffyrdd sensitif ac ystyrlon sy'n rhoi pwrpas i'r dysgu. Gall y profiadau hyn helpu plant i ddatblygu ac ehangu eu dealltwriaeth o gyfoeth ac amrywiaeth Cymru, yn y gorffennol a'r presennol.

Dylai profiadau amlsynnwyr gynnig cyfleoedd i blant ymateb i greadigrwydd pobl eraill a chael eu hysbrydoli ganddo, a'u helpu i gyfleu a mynegi eu hunain yn greadigol. Dylent gynnig cyfleoedd i wneud a dewis o blith amrywiaeth o ddeunyddiau â phriodweddau gwahanol, ac annog plant i feithrin eu creadigrwydd a'u sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau.

Gall profiadau dilys helpu plant i ddysgu am amgylcheddau artiffisial, digidol a naturiol, a datblygu eu gwerthfawrogiad o'r byd o'u cwmpas a'r angen i ofalu amdano. Gallant helpu plant i feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae pethau'n gweithio, datrys problemau a datblygu ymwybyddiaeth o achosiaeth. Drwy eu profiadau, dylai plant allu archwilio'r ffordd y maen nhw a gwrthrychau'n symud mewn gofod a chael profiad o iaith sy'n disgrifio ac yn cyfarwyddo symudiad. Dylai'r profiadau hyn annog plant i sylwi ar yr amgylchedd o'u cwmpas a'u hardal leol, gan gynnwys ffenomenau naturiol, meddwl amdanynt a gwneud sylwadau arnynt.

## 7. Amgylcheddau effeithiol

Dylai'r amgylchedd y byddwn yn ei greu yn ein lleoliad – dan do ac yn yr awyr agored – fod wrth wraidd profiadau dilys y plant. Oherwydd hyn, dylem fonitro ac adolygu effeithiolrwydd yr amgylchedd yn barhaus a'i addasu yn unol â hynny. Yn ystod y blynyddoedd cynnar, mae archwilio'r amgylchedd yn ffactor allweddol sy'n ysgogi datblygiad. Drwy archwilio eu hamgylchedd, bydd plant yn dechrau datblygu ymdeimlad o berthyn i'r byd o'u cwmpas a gwerthfawrogiad ohono.

Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y gofodau ffisegol yn ogystal â'r hinsawdd emosiynol sy'n helpu plant i ffynnu. Bydd yr amgylcheddau hyn yn darparu ar gyfer profiadau eang ac amrywiol sy'n galluogi plant i fynegi eu hunain yn gorfforol, yn greadigol ac yn ddychmygus, ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau'n ddiogel, ar eu pen eu hunain neu gydag eraill. Dylem gynnig cyfleoedd i blant brofi ymdeimlad o ryfeddod; dylent ennyn chwilfrydedd am y byd byw ac fel arall, gan gymell plant i archwilio, datrys problemau, meithrin eu creadigrwydd a'u sgiliau meddwl yn feirniadol.

Dylem sicrhau bod yr amgylcheddau yn ein lleoliad yn dathlu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn dangos cynhwysiant. Dylent fod yn llawn cyfathrebu a chanolbwyntio ar hybu sgiliau cyfathrebu sy'n datblygu, a'u datblygu ymhellach. Dylai'r amgylchedd sicrhau y gall plant gael gafael ar amrywiaeth eang o adnoddau dilys i'w helpu i ddatblygu geirfa a datblygu cysyniadau. Bydd amgylchedd trefnus sydd wedi'i gynllunio'n dda yn sgaffaldio'r broses o feithrin dealltwriaeth plant o gysyniadau mathemategol, er enghraifft drwy gyfleoedd gweledol ac ymarferol i gael profiad o rif, siâp a phatrwm mewn cyd-destunau dilys, dan do ac yn yr awyr agored. Dylai fod cyfleoedd i blant feithrin sgiliau echddygol bras a manwl, wrth iddynt herio eu hunain yn gorfforol. Dylent allu cael gafael ar amrywiaeth o adnoddau penagored yn yr amgylchedd, gan gynnwys cyfryngau digidol, er mwyn cyfoethogi'r dysgu mewn ffyrdd sy'n briodol yn ddatblygiadol. Bydd yr amgylchedd hefyd yn cefnogi meistrolaeth, drwy gynnig cyfleoedd cyson ac estynedig i ymarfer, ailadrodd a gwreiddio sgiliau a ddysgwyd mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.

Dylai fod hyblygrwydd ac amrywiaeth yn yr amgylchedd, gan gynnig risg a her, a helpu plant i feithrin hyder, annibyniaeth a gwydnwch. Dylai'r amgylchedd fod yn ymatebol i amrywiaeth o emosiynau y gall plentyn bach eu profi, a dylai gynnig amser a mannau tawelach wedi'u diogelu ar gyfer hunanreoli, meddwl a myfyrio, er mwyn meithrin lles plentyn.

# 8. Addysgeg

Mae addysgeg effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ymatebol, yn ddynamig ac wedi'i gwreiddio mewn cydberthnasau cryf, yn hanfodol er mwyn gwireddu uchelgais y cwricwlwm hwn. Er bod egwyddorion addysgeg effeithiol wedi'u gwreiddio ym mhob rhan o'r cwricwlwm hwn, mae'n arbennig o bwysig ein bod yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ein lleoliad yn cynnig cyfleoedd cyson ar gyfer y canlynol:

- chwarae a dysgu drwy chwarae
- bod yn yr awyr agored
- dysgu dilys a phwrpasol

## 8.1 Chwarae a dysgu drwy chwarae

Mae chwarae yn hawl sylfaenol i bob plentyn.  Mae gan blant angen cynhenid cryf i chwarae. Drwy chwarae a phrofiadau chwareus, bydd plant yn dod o hyd i ffyrdd o archwilio amrywiaeth o emosiynau a dysgu am y byd y maent yn byw ynddo gydag eraill.

I bob plentyn, ond yn enwedig yn ystod y cyfnod dysgu hwn, mae chwarae yn rhywbeth y maent yn ei gymryd yn gwbl o ddifrif. Mae angen canolbwyntio a thalu sylw i fanylion wrth chwarae, ac mae'n gyfrwng i blant ddysgu drwy ddyfalbarhau a chydweithio. Nid yn unig y mae chwarae yn hollbwysig i'r ffordd y daw plant yn hunanymwybodol ynghyd â'r ffordd y byddant yn dysgu rheolau ymddygiad cymdeithasol, mae hefyd yn hanfodol i ddatblygiad corfforol, deallusol a chreadigol. Mae chwarae yn dylanwadu ar ffyrdd o feddwl ac ymagweddau at ddysgu ac yn cefnogi teimladau o hunan-werth a hunaneffeithiolrwydd, sy'n effeithio ar hyder ac annibyniaeth.

Dylai pob un ohonom roi gwerth ar chwarae, fel diben ynddo'i hun, ac fel rhywbeth y gallwn arsylwi arno'n ofalus gyda'r nod clir o gyfoethogi'r dysgu.

## 8.2 Bod yn yr awyr agored

Mae bod yn yr awyr agored yn arbennig o bwysig i blant bach. Mae'n cefnogi datblygiad a lles cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol. Gall bod yn yr awyr agored hefyd gefnogi lefelau uchel o hyder ac ymgysylltu. Mewn amgylchedd awyr agored, gall plant archwilio, ymarfer a gwella eu sgiliau.

Mae'r awyr agored yn cynnig cyfleoedd i ysbrydoli rhyfeddod, ac mae'n galluogi plant i fod yn nhw eu hunain mewn gofodau agored a hamddenol sy'n eu hysgogi. Mae'r awyr agored yn cynnig cyfleoedd cyfoethog a dilys i ysgogi synhwyrau plant drwy'r hyn y byddant yn ei glywed, ei gyffwrdd, ei weld a'i arogli.

Gall plant sy'n llwyddo i ymgysylltu â'r byd naturiol feithrin empathi tuag at yr amgylchedd, gan ddangos ymwybyddiaeth o'u heffaith bosibl ar y byd byw. Gallant ddechrau archwilio'r cysyniad o gynaladwyedd mewn ffordd ymarferol. Mae archwilio'r awyr agored yn cynnig cyfleoedd i blant feithrin ymdeimlad o le yn yr amgylchedd o'u cwmpas, yn eu hardal leol, yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

Mae ehangder yr awyr agored yn cynnig lle i blant ddatblygu ymwybyddiaeth ohonynt eu hunain mewn gofod. Gall amgylcheddau yn yr awyr agored gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i blant wella eu cydbwysedd a'u cydsymud, datblygu gweithrediad motor ac archwilio eu potensial corfforol. Wrth archwilio'r awyr agored, gall plant feithrin eu gallu i asesu a phrofi risg, gan helpu i feithrin gwydnwch a hyder.

Mae amgylchedd cyfoethog ac amrywiol yn yr awyr agored yn cynnig cyfleoedd dilys i ddatblygu sgiliau hanfodol. Mae defnyddio adnoddau naturiol a phenagored yn cyfoethogi datblygiad dychymyg, creadigrwydd a chwilfrydedd.

## 8.3 Dysgu dilys a phwrpasol

Gwyddom fod plant yn dysgu'n dda pan fyddant yn chwarae rhan weithredol mewn profiadau sy'n ennyn eu diddordeb, yn tanio eu dychymyg, yn ysbrydoli eu chwilfrydedd ac yn hybu ymagweddau cadarnhaol. Dylai'r profiadau hyn annog plant i ymchwilio, creu a bod yn gyfranogwyr gweithgar yn eu dysgu. Bydd profiadau perthnasol ac ystyrlon sydd wedi'u gwreiddio mewn cyd-destunau go iawn yn galluogi plant i wneud cysylltiadau, cymhwyso gwybodaeth ac atgyfnerthu sgiliau.

Gall profiadau go iawn alluogi plant i arwain drwy ofyn cwestiynau, canfod problemau, mentro a dod o hyd i atebion. Mae creu cyfleoedd i blant gymhwyso'r hyn y maent yn ei ddysgu at sefyllfaoedd go iawn yn eu helpu i ddeall diben yr hyn y maent yn ei ddysgu a gall wella eu lles, eu hunan-barch a'u gwydnwch. Mae'n annog plant i archwilio a bod yn greadigol a bydd yn eu helpu i feithrin dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

## 9. Sgiliau trawsgwricwlaidd

Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau gorfodol ym mhob rhan o'r cwricwlwm cyfan, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod plant yn datblygu ac yn gwneud cynnydd yn y sgiliau hyn.  Mae'r adran hon yn disgrifio'n fanwl y sgiliau y dylai plant ifanc eu caffael a'u meistroli fel rhan o'u taith ddysgu.  Wrth gynllunio profiadau dysgu, dylem sicrhau y caiff plant gyfleoedd i gymhwyso, meithrin ac ymestyn y sgiliau hyn mewn cyd-destunau ystyrlon, gan ddefnyddio'r llwybrau datblygu.

## 9.1 Llythrennedd

Mae iaith a chyfathrebu yn allweddol i ddysgu. Dylai lleferydd, iaith a chyfathrebu gael eu datblygu'n gyfannol drwy brofiadau a chyfleoedd chwarae dilys go iawn. Mae gennym rôl hollbwysig i ddarparu'r blociau adeiladu ar gyfer iaith, gan ddechrau drwy gefnogi sgiliau talu sylw a gwrando. Gallwn wneud hyn drwy sicrhau y caiff plant eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau ieithyddol cyfoethog i feithrin eu sgiliau gwrando, siarad a chyfathrebu. Wrth feithrin sgiliau iaith a chyfathrebu, dylem sicrhau y rhoddir amser i blant brosesu'r hyn y byddant yn ei glywed a'i weld, cyn ymateb, myfyrio ac ailystyried. Rhaid inni hefyd ddeall y bydd rhai plant yn cyfathrebu drwy ddulliau heblaw siarad hefyd.

Mae'r byd naturiol yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i ddatblygu iaith drwy brofiadau chwareus, fel deilen yn crensian neu sblash mewn pwll dŵr. Mae defnyddio'r awyr agored yn hybu lles, hunan-barch a hyder i gyfathrebu. Gall rhyddid yr awyr agored leihau swildod a galluogi plant i fynegi eu hunain a bod yn swnllyd.

Dylem helpu ac annog plant i ddatblygu hoffter o lyfrau a straeon drwy fodelu darllen gydag unigolion a grwpiau bach. Rhaid inni sicrhau bod llyfrau a deunyddiau darllen dilys, gan gynnwys llyfrau a grëwyd gan y plant, ar gael ym mhob rhan o'r amgylchedd, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Dylem werthfawrogi'r straeon y bydd plant yn eu hadrodd drwy chwarae.

Gwyddom fod sgiliau motor bras, fel dringo, troelli a thaflu, yn hanfodol i feithrin sgiliau motor manwl a gwneud marciau. Gallwn gefnogi'r datblygiad hwn drwy sicrhau y caiff plant gyfleoedd i feithrin sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud marciau, fel trin a

thrafod clai a thoes, a thrwy chwarae blêr a gweithgareddau sy'n helpu i ddatblygu gafael.

Dylem gynnig cyfleoedd i wneud marciau mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac at amrywiaeth o ddibenion, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer a chyfryngau. Dylai pob plentyn gael cyfleoedd i ddysgu bod gan Gymru ddwy iaith swyddogol ac y caiff llawer o ieithoedd eraill eu siarad yn ein cymunedau. Mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau y bydd plant yn meithrin agweddau cadarnhaol at ieithoedd gwahanol a'r bobl sy'n eu siarad. Dylai'r sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith gefnogi'r gwaith o feithrin gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.

| **Llinyn** | **Elfen** | **Y camau sy'n arwain at gam cynnydd 1** | **Cam cynnydd 1**<br>**(Daw'r datganiadau hyn o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol)** |
|---|---|---|---|
| **Gwrando** | **Gwrando am ystyr** | Rwy’n datblygu'r sgiliau i wrando ar, deall a defnyddio cysyniadau sylfaenol mewn iaith gyda chymorth ciwiau ac ystumiau gweledol. | Rwy’n gallu gwrando ar, deall a defnyddio cysyniadau sylfaenol mewn iaith, e.e. safle a chymhariaeth. |
| | | | Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth bod rhai seiniau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. dau gi, y gath. |
| | **Datblygu geirfa** | Rwy’n gallu gwahaniaethu seiniau yn fy amgylchedd.<br><br>Rwy'n gallu adnabod a deall amrywiaeth o eiriau llafar. | Rwy’n gallu gwahaniaethu seiniau yn fy amgylchedd ac o fewn geiriau. |
| | **Gwrando i ddeall** | Rwy'n dechrau gwrando ar eraill gan dalu sylw cynyddol. | Rwy'n gallu gwrando ar eraill gan dalu sylw cynyddol. |
| | | Rwy’n gallu deall gwybodaeth a chyfarwyddiadau un neu ddau gam am bynciau | Rwy’n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth a chyfarwyddiadau aml-gam am bynciau ac arferion cyfarwydd ar ffurf lluniau a/neu eiriau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ac arferion cyfarwydd ar ffurf lluniau a/neu eiriau. | |
| | **Gwrando fel rhan o siarad cydweithredol** | Rwy’n dechrau gwrando ar eraill a chymryd fy nhro mewn sgyrsiau | Rwy’n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau am yr hyn a ddywedwyd/a glywyd/a welwyd (gan gynnwys deunydd clyweledol) er mwyn sicrhau fy mod yn deall. |
| | | Rwy’n gallu gwrando ar ganeuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd ac ymuno ynddynt.<br><br>Rwy’n gallu gwrando ar ganeuon a rhigymau sy'n cynnwys ailadrodd, rhythm ac odl, ac ymuno ynddynt. | Rwy’n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd, eu hailadrodd neu eu dysgu ar gof. |
| **Darllen** | **Ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemeg** | Rwy’n gallu chwarae â seiniau a geiriau yn fy amgylchedd, ac rwy'n dechrau gwahaniaethu rhyngddynt. | Rwy’n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau yn fy amgylchedd ac o fewn geiriau. |
| | | Rwy'n dechrau archwilio rhythm ac odl. | Rwy'n gallu defnyddio rhythm, odl, cyflythrennu, sillafau, a rhannu dechrau a diwedd gair er mwyn dysgu darllen. |
| | | Rwy'n gallu gwahaniaethu rhwng geiriau sy'n swnio'n debyg ac yn wahanol. | Rwy'n dechrau gwahaniaethu ffonemau rwy'n eu clywed mewn gwahanol safleoedd, e.e. seiniau cychwynnol, llafariaid canol, seiniau terfynol mewn geiriau llafar. |
| | | Rwy'n gallu gwahaniaethu rhwng geiriau print a lluniau. | Rwy’n dechrau datblygu'r hyn rwy'n ei wybod am gyfatebiaeth graffemau (llythrennau ysgrifenedig)–ffonemau (seiniau llafar). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rwy’n dechrau cyfuno ffonemau wrth ddarllen ar goedd. |
| | | | Rwy'n gallu mynegi ffonemau pan rwy'n gweld y graffemau cyfatebol. |
| | **Strategaethau darllen** | Rwy'n gallu dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen a'u mwynhau.<br><br>Rwy'n gallu chwarae rôl darllenydd. | Rwy'n gallu dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen eraill, ac rwy'n mwynhau eu rhannu a'u defnyddio fel darllenydd, e.e. dal llyfrau yn y ffordd gywir a throi tudalennau. |
| | | | Rwy'n gallu segmentu cyfuniadau o lythrennau cyfarwydd ar lafar. |
| | | Rwy'n gallu deall bod ystyr i eiriau print. | Rwy’n gallu deall bod perthynas un i un rhwng y gair ysgrifenedig a’r gair llafar. |
| | | | Rwy’n dechrau adnabod a darllen geiriau aml eu defnydd. |
| | | Rwy'n dechrau adnabod geiriau cyfarwydd, e.e. fy enw, a geiriau print yn yr amgylchedd. | Rwy'n gallu adnabod geiriau cyfarwydd, e.e. fy enw, a geiriau print yn yr amgylchedd. |
| | **Deall, ymateb a dadansoddi** | Rwy'n priodoli ystyr i fy marciau fy hun. | Rwy’n dechrau darllen yn ôl yr hyn rwyf wedi ei ysgrifennu. |
| | | | Rwy’n dechrau dod yn ymwybodol o atalnodau llawn wrth ddarllen. |
| | | Rwy'n gallu siarad am luniau. | Rwy’n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i’m helpu i ddeall yr hyn rwy'n ei ddarllen, gan ychwanegu manylion at fy esboniadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | Rwy’n gallu datblygu fy ngeirfa trwy glywed straeon, a defnyddio’r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. | Rwy’n gallu datblygu fy ngeirfa trwy ddarllen, a defnyddio’r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. |
| | | Rwy’n gallu ymateb i’r hyn rwy’n ei glywed a'i weld. | Rwy’n gallu ymateb i’r hyn rwy’n ei glywed, ei weld a’i ddarllen. |
| | | Rwy'n gallu siarad am straeon sy'n gyfarwydd i mi a'u hailadrodd yn fy ffordd fy hun | Rwy'n gallu cofio manylion stori neu destun drwy ateb cwestiynau penagored neu gyfeirio at bromptiau. |
| | | Rwyf wedi profi gwahanol fathau o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys rhai digidol. | Rwyf wedi profi amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau darllen a llenyddiaeth, ac rwy'n gallu dilyn testunau sy'n cael eu darllen ar goedd i mi gan ymateb yn briodol.<br><br>Rwy'n gallu dewis gwahanol fathau o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys llyfrau. |
| | | Rwy'n gallu rhannu straeon a digwyddiadau o fy mhrofiad personol. | Rwy'n gallu cysylltu gwybodaeth a syniadau o ddeunydd darllen a llenyddiaeth â phrofiadau personol. |
| | | Rwy'n gallu mynegi barn syml, gan ddefnyddio geiriau neu heb eiriau, am yr hyn rwy'n ei glywed a'i weld. | Rwy’n gallu siarad am y llenyddiaeth rwy’n ei chlywed, ei gweld neu ei darllen, a mynegi barn syml ac ymateb i'r cynnwys. |
| **Siarad** | **Eglurder a geirfa** | Rwy'n dechrau siarad mewn ffordd y gall oedolion a ffrindiau o'm cwmpas ei deall.<br><br>Rwy’n dechrau cynhyrchu amrywiaeth o seiniau llafar yn gywir. | Rwy’n gallu cynhyrchu llawer o seiniau llafar yn gywir. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | Rwy’n gallu chwarae â seiniau yn fy amgylchedd ac o fewn geiriau, eu copïo a'u dynwared. | Rwy’n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau yn fy amgylchedd ac o fewn geiriau. |
| | | Rwy’n dechrau defnyddio geiriau cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu. | Rwy’n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu. |
| | | Rwy’n gallu cyfathrebu ystyr gan ddefnyddio iaith lafar a/neu ystum.<br><br>Rwy'n dechrau uno geiriau wrth i mi ddysgu siarad mewn brawddegau syml. | Rwy’n gallu cyfathrebu ystyr gan ddefnyddio iaith lafar estynedig a/neu ystum. |
| | **Diben** | Rwy’n dechrau rhannu syniadau a theimladau a mynegi’r hyn rwy'n ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi. | Rwy’n gallu rhannu syniadau a theimladau a mynegi’r hyn rwy'n ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi. |
| | | Rwy’n dechrau deall a defnyddio cysyniadau sylfaenol mewn iaith, e.e. i fyny/i lawr, mwy/llai, hapus/trist. | Rwy’n gallu deall a defnyddio cysyniadau sylfaenol mewn iaith, e.e. i fyny/i lawr, mwy/llai, hapus/trist. |
| | | Rwy'n gallu mynegi diddordeb a mwynhad. | Rwy'n gallu mynegi diddordeb a mwynhad. |
| | | Rwy'n dechrau cofio ac ailadrodd digwyddiadau arwyddocaol mewn iaith syml. | Rwy'n gallu ailadrodd digwyddiadau neu brofiadau mewn iaith syml. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rwy'n gallu dynwared bywyd go iawn a phrofiadau dychmygol fel rhan o chwarae byd bach a chwarae rôl. | |
| | | Rwy’n dechrau disgrifio gwrthrychau a digwyddiadau gan ddefnyddio geirfa gynyddol. | Rwy’n gallu disgrifio gwrthrychau a digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa. |
| | | Rwy'n dechrau siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol sy'n bwysig i mi. | Rwy’n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a’r dyfodol. |
| | **Siarad cydweithredol** | Rwy’n dechrau cymryd fy nhro mewn sgyrsiau. | Rwy’n dechrau cymryd fy nhro mewn sgyrsiau, gan ddilyn y pwnc dan sylw. |
| | | Rwy’n gallu siarad â'm ffrindiau ac oedolion cyfarwydd.<br><br>Rwy’n dechrau defnyddio geiriau yn iaith y lleoliad. | Rwy’n dechrau siarad â’m cyfoedion yn iaith y lleoliad/ysgol. |
| | **Gofyn cwestiynau** | Rwy’n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau. | Rwy’n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn i mi ddeall yn well. |
| **Ysgrifennu** | **Geirfa, sillafu, gramadeg** | Rwy’n gallu cyfathrebu gan wneud marciau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. | Rwy’n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br><br>Rwy'n dechrau rhoi symbolau, arwyddion neu eiriau yn eu dilyniant priodol. |
| | | Rwy'n dechrau priodoli ystyr i fy marciau. | Rwy'n gallu adnabod natur trefn yr wyddor ysgrifennu a deall bod i symbolau ysgrifenedig ystyr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rwy'n dechrau gwahaniaethu rhwng fy marciau. | Rwy'n gallu gwahaniaethu rhwng llythrennau. |
| | | Rwy'n gallu gwneud marciau sydd ag ystyr i mi ac sy'n cynrychioli llythrennau a geiriau. | Rwy'n gallu ysgrifennu o'r chwith i'r dde.<br><br>Rwy'n gallu gwahaniaethu rhwng priflythrennau a llythrennau bach.<br><br>Rwy'n gallu ffurfio llythrennau. |
| | | Rwy'n gallu cynrychioli fy meddyliau a'm syniadau drwy dynnu lluniau ac rwy'n gallu tynnu lluniau â rheolaeth gynyddol. | Rwy’n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am lythrennau a’r seiniau maen nhw’n eu cynrychioli. |
| | | Rwy'n dechrau adnabod ac ailadrodd y rhythm o fewn geiriau ac ymadroddion. | Rwy'n gallu segmentu geiriau yn sillafau ac yn seiniau er mwyn fy helpu i sillafu.<br><br>Rwy’n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd. |
| | | Rwy’n dechrau trin amrywiaeth o offer ac adnoddau â chryfder a rheolaeth gan ddal yn briodol ynddynt | Rwy’n dechrau ffurfio llythrennau’n gywir gan ddal yn briodol yn yr offer ysgrifennu. |
| | | | Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth bod rhai llythrennau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. dau gi, y gath. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Atalnodi** | | Rwy’n ymwybodol o sut mae geiriau’n cael eu gwahanu gan fylchau. |
| | | | Rwy’n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau. |
| | **Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau** | | Rwy’n dechrau deall y gellir ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. |
| | | | Rwy’n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion. |
| | | Rwy’n gallu ymateb yn greadigol i’r hyn rwy’n ei glywed a'i weld. | Rwy’n gallu ymateb yn greadigol i’r ystod o lenyddiaeth rwy’n ei chlywed, ei gweld neu ei darllen. |
| | | Rwy’n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio delwedd, sain a fideo. | Rwy’n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo. |

## 9.2 Sgiliau trawsgwricwlaidd: Rhifedd

Mae plant yn naturiol chwilfrydig ac yn meithrin dealltwriaeth o iaith, cysyniadau a sgiliau mathemategol drwy chwarae amlsynnwyr a phrofiadau dilys. Dylai plant gael cyfleoedd dyddiol i chwarae yn yr awyr agored er mwyn eu hannog i archwilio cysyniadau ymhellach mewn bywyd pob dydd. Yn y byd naturiol, mae cyfoeth o gyfleoedd i ddatblygu'n fathemategol. Dylem gynllunio i wneud y defnydd gorau o'r profiadau dysgu sydd o'u cwmpas, dan do ac yn yr awyr agored. Mae adnoddau naturiol penagored y deuir o hyd iddynt yn cynnig posibiliadau di-ben-draw i archwilio mathemateg. Gyda'n cymorth ni, ac os darperir amgylchedd sy'n ennyn diddordeb, gall plant ddarganfod a deall bod mathemateg ym mhobman. Bydd modelu iaith a sgiliau mathemategol priodol drwy gydol y dydd yn helpu plant i feithrin eu cymhwysedd strategol. Wrth feithrin dealltwriaeth fathemategol, mae'n hollbwysig ein bod

yn rhoi amser i blant arsylwi, archwilio, ymchwilio ac arbrofi er mwyn gweithio drwy'r broses o ddatrys problemau. Dylid rhoi gwerth ar y broses datrys problemau hon yn ei rhinwedd ei hun, ac mae'n bosibl na fydd yn arwain at ganlyniad nac ateb.

| Llinyn | Elfen | Y camau sy'n arwain at gam cynnydd 1 | Cam cynnydd 1<br>(Daw'r datganiadau hyn o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol) |
|---|---|---|---|
| **Datblygu hyfedredd mathemategol** | **Dealltwriaeth gysyniadol** | Rwy'n datblygu fy sgiliau datrys problemau drwy gyfleoedd dilys i ddosbarthu a didoli. | Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir trosglwyddo cysyniadau mathemategol sylfaenol yn ystod gweithgareddau chwarae ac ystafell ddosbarth. |
| | | Rwy'n dechrau deall a defnyddio cysyniadau mathemategol sylfaenol mewn ffyrdd gwahanol. | Rwy'n gallu deall a defnyddio cysyniadau mathemategol sylfaenol mewn ffyrdd gwahanol. |
| | | Rwy'n dechrau dangos chwilfrydedd, archwilio ac ymchwilio. | Rwy'n gallu archwilio atebion o fewn cyd-destun y broblem ac rwy'n dechrau ystyried a yw atebion yn synhwyrol. |
| | **Rhesymu rhesymegol** | Rwy'n dechrau defnyddio iaith fathemategol bob dydd wrth chwarae i gyfleu fy syniadau. | Rwy'n gallu defnyddio iaith bob dydd ac iaith fathemategol i siarad am fy syniadau a'm dewisiadau fy hun. |
| | **Rhuglder** | Rwy'n dechrau defnyddio cysyniadau mathemategol priodol, drwy arferion dyddiol a phrofiadau chwarae. | Rwy'n dechrau cymhwyso ffeithiau a thechnegau perthnasol. |
| | **Cymhwysedd strategol** | Rwy'n dechrau archwilio amrywiaeth o adnoddau penagored i'm cynorthwyo. | Rwy'n gallu dewis y cyfarpar a'r adnoddau priodol i'm cynorthwyo. |
| | | Rwy'n gallu defnyddio dull profi a methu wrth ddatrys problemau. | Rwy'n gallu awgrymu beth o bosib y byddaf angen ei wneud er mwyn cwblhau'r dasg neu ddod o hyd i ddatrysiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rwy'n gallu archwilio mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio. |
| | **Cyfathrebu â symbolau** | Rwy'n gallu defnyddio gwrthrychau a gwneud marciau i gynrychioli meintiau. | Rwy'n gallu archwilio dulliau anffurfiol a phersonol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio symbolau. |
| **Mae deall y system rifau yn ein helpu i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau** | **Y system rifau** | Rwy’n gallu gwrando ar rigymau, caneuon, straeon a gemau sydd â thema fathemategol, ac ymuno ynddynt.<br><br>Rwy'n sylweddoli y gellir cyfrif unrhyw beth, nid dim ond gwrthrychau, e.e. clapiau, camau.<br><br>Rwy'n gallu ymchwilio i faint ac arbrofi ag ef, gan gymharu amrywiaeth o wrthrychau er mwyn meithrin dealltwriaeth o gadwraeth rhif. | Rwy'n gallu sylwi ar rifau o 0 i'r tu hwnt i 10, eu darllen a'u hysgrifennu, a chysylltu rhif â'i faint perthnasol.<br><br>Rwy'n gallu cymharu a threfnu rhifau y tu hwnt i 10. |
| | | Rwy'n gallu cyfrif yn fwyfwy dibynadwy, ymlaen ac yn ôl, hyd at 10. | Rwy'n gallu cyfrif yn ddibynadwy, ymlaen ac yn ôl, y tu hwnt i 10. |
| | | Rwy'n dechrau sylwi ar rifau yn fy amgylchedd. | Rwy'n gallu sylwi ar rifau o 0 i'r tu hwnt i 10, eu darllen a'u hysgrifennu, a chysylltu rhif â'i faint perthnasol. |
| | | Rwy'n gallu cymharu a threfnu rhifau hyd at 10. | Rwy'n gallu cymharu a threfnu rhifau y tu hwnt i 10. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o gyfatebiaeth un i un ac rwy'n dechrau ei defnyddio wrth chwarae. | Rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o gyfatebiaeth un i un drwy gyfateb parau o wrthrychau neu luniau. |
| | | Rwy'n gallu defnyddio fy synnwyr gweledol o rif er mwyn cymharu. | Rwy'n gallu defnyddio fy synnwyr gweledol o rif er mwyn amcangyfrif a chymharu. |
| | | | Rwy'n gallu archwilio amcangyfrifon drwy gyfrif neu fesur. |
| | **Cyfrifiad** | Rwy'n dechrau defnyddio iaith fathemategol, fel ‘mwy na’, ‘llai na’, ‘yr un faint’ wrth chwarae. | Rwy'n gallu deall a defnyddio'r cysyniad o ‘un arall’ yn fy chwarae.<br><br>Rwy'n gallu deall a defnyddio'r cysyniad o ‘un yn llai’ yn fy chwarae. |
| | | Rwy'n gallu archwilio ffeithiau rhif mewn ffyrdd ymarferol, e.e. rhigymau bysedd, straeon a gemau. | Rwy'n gallu cyfuno dau grŵp o wrthrychau i ddod o hyd i ‘faint i gyd?’.<br><br>Rwy'n gallu tynnu gwrthrychau i ddarganfod ‘faint sydd ar ôl?’.<br><br>Rwy'n gallu dod o hyd i ffeithiau rhif a'u defnyddio i greu rhif (hyd at 10) mewn ffyrdd gwahanol. |
| | **Llythrennedd ariannol** | Rwy'n gallu defnyddio iaith arian mewn bywyd go iawn ac wrth chwarae. | Rwy'n gallu cyfnewid arian am eitemau a defnyddio iaith arian. |
| | | Rwy'n archwilio diben arian drwy chwarae rôl ac mewn sefyllfaoedd go iawn. | Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth o ddiben arian drwy chwarae rôl ac mewn sefyllfaoedd go iawn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mae dysgu am geometreg yn ein helpu i ddeall siapiau, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn** | **Mesur** | Rwy'n gallu archwilio'r cysyniad o faint. | Rwy'n gallu defnyddio unedau mesur ansafonol i drafod fy ymdeimlad o faint. |
| | | Rwy'n gallu archwilio, cymharu a threfnu gwrthrychau yn ôl maint, pwysau neu gynhwysedd drwy arsylwi uniongyrchol. | Rwy'n gallu defnyddio cymariaethau uniongyrchol â:<br>• hyd, uchder a phellter, e.e. hirach/byrrach na<br>• pwysau/màs, e.e. trymach/ysgafnach na<br>• capasiti, e.e. yn dal mwy/llai na. |
| | | Rwy'n ymwybodol o elfennau arferion dyddiol ac rwy'n deall y termau 'cyn' ac 'ar ôl'. | Rwy'n gallu rhagweld digwyddiadau sy'n ymwneud ag elfennau o arferion dyddiol a defnyddio'r termau 'cyn' ac 'ar ôl'. |
| | | Rwy'n gallu defnyddio 'nawr' a 'nesaf' i ddangos dealltwriaeth o'r cysyniad sylfaenol o amser yn nhermau fy ngweithgareddau dyddiol. | Rwy'n gallu defnyddio'r cysyniad sylfaenol o amser yn nhermau fy ngweithgareddau dyddiol.<br><br>Rwy'n gallu dangos ymdeimlad sy'n datblygu o ran pa mor hir mae tasgau a digwyddiadau bob dydd yn eu cymryd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Siâp a gofod** | Rwy'n gallu archwilio a defnyddio siapiau 3D a 2D wrth chwarae ac rwy'n dechrau arbrofi â'u priodweddau, e.e. ydyn nhw'n rholio? Pentyrru? Ffitio i'w gilydd?<br><br>Rwy'n gallu adnabod, nodi a defnyddio enwau siapiau 3D a 2D cyfarwydd sydd i'w gweld yn fy amgylchedd.<br><br>Rwy'n gallu sylwi ar gymesuredd a'i archwilio yn fy amgylchedd ac wrth chwarae.<br><br>Rwy'n gallu sylwi ar batrymau gweledol, clywedol a ffisegol a'u harchwilio yn fy amgylchedd ac wrth chwarae. | Rwy'n gallu trafod priodweddau siapiau rwy'n eu defnyddio yn fy nysgu pob dydd |
| | **Safle** | Rwy'n dechrau archwilio symudiadau a chyfeiriadau. | Rwy'n gallu archwilio symudiadau a chyfeiriadau. |
| | | Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth o safle. | Rwy'n gallu disgrifio safle. |
| | | Rwy'n dechrau archwilio perthnasoedd a gwneud cysylltiadau rhwng maint a phersbectif. | |
| **Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn** | **Casglu data** | Rwyf wedi casglu data sydd yn fy amgylchedd. | Rwyf wedi casglu data sydd yn fy amgylchedd. |
| | **Cynrychioli a dehongli data** | Rwy'n gallu didoli a chyfateb setiau o wrthrychau neu<br>luniau drwy adnabod yr hyn sy'n debyg. | Rwy'n gallu didoli a chyfateb setiau o wrthrychau neu luniau drwy adnabod yr hyn sy'n debyg ac rwy'n gallu cyfleu fy newisiadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **modelu siawns yn ein helpu i wneud casgliadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth** | | Rwy'n gallu defnyddio gwrthrychau, dulliau gwneud marciau neu gyfryngau digidol i ddechrau cofnodi casgliadau. | Rwy'n gallu cyflwyno gwaith ar lafar, yn ddarluniadol ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gynrychioli'r data a gasglwyd.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio dulliau gwneud marciau i ddechrau cofnodi casgliadau.<br><br>Rwy'n gallu dehongli gwybodaeth a gyflwynir mewn siartiau a diagramau, a dod i gasgliadau priodol. |

## 9.3 Sgiliau trawsgwricwlaidd: Cymhwysedd digidol

Cymhwysedd digidol yw'r set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n ei gwneud yn bosibl i dechnolegau a systemau gael eu defnyddio mewn ffordd hyderus, greadigol a beirniadol. Mae cymhwysedd digidol yn hanfodol i blant er mwyn iddynt fod yn wybodus ac yn alluog a meddu ar y potensial i lwyddo yng nghymdeithas heddiw. Ni ddylid drysu rhwng cymhwysedd digidol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh); mae'n canolbwyntio ar feithrin sgiliau digidol y gellir eu cymhwyso at amrywiaeth eang o sefyllfaoedd sy'n berthnasol i'w byd.

Yn y byd cynyddol ddigidol hwn, mae'n hanfodol bod plant yn cael cyfle i archwilio a meithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau digidol. Mae hyn yn golygu mwy na chreu tasgau sy'n cynnwys defnyddio dyfeisiau neu gyfryngau digidol; mae angen i blant gael eu trochi mewn profiadau dilys a phwrpasol sy'n ymgorffori sgiliau a chymwyseddau digidol yn eu bywydau beunyddiol. Gellir defnyddio dyfeisiau a chyfryngau digidol i gyfoethogi gweithgareddau chwarae plant a dylent fod yn rhan o'r ddarpariaeth sydd ar gael. Mae cyfryngau digidol yn mynd y tu hwnt i lechi a gliniaduron ac maent yn cynnwys teganau rhaglenadwy, camerâu, chwaraewyr cryno ddisgiau, cloriannau digidol, tiliau a mwy. Lle y bo'n briodol, dylai meithrin cymhwysedd digidol gael ei integreiddio yn y pum llwybr datblygu fel ffordd o gyfoethogi'r dysgu drwy ychwanegu gwerth at weithgareddau, dan do ac yn yr awyr agored.

| Elfen | Y camau sy'n arwain at gam cynnydd 1 | Cam cynnydd 1<br>**(Daw'r datganiadau hyn o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol)** |
|---|---|---|
| **Dinasyddiaeth** | Drwy’r elfennau hyn, bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at y byd digidol o’u cwmpas ac sy’n gwerthuso’n feirniadol eu lle yn y byd digidol hwn. Byddant yn barod am yr agweddau cadarnhaol a negyddol ar fod yn ddinesydd digidol ac yn datblygu strategaethau a dulliau i’w helpu wrth iddynt ddatblygu’n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol. | |
| | **Rwy'n dechrau:** | **Rwy'n gallu:** |
| Hunaniaeth, delwedd ac enw da | • adnabod delweddau digidol ohonof i fy hun a phobl gyfarwydd. | • gwahaniaethu rhwng rhywun rwy’n ei adnabod a rhywun nad wyf erioed wedi cyfarfod ag ef.<br>• adnabod data ar-lein gyda chymorth oedolyn, e.e. dod o hyd i ddelweddau ohonof i fy hun ac eraill ar wefan yr ysgol/tudalen cyfryngau cymdeithasol yr ysgol. |
| | • sylweddoli bod angen cyfrinair/gweithred syml i ddefnyddio rhai dyfeisiau, e.e. sweipio dyfais neu roi cyfrinair i mewn. | • sylweddoli bod canlyniadau i weithredoedd ac rwy’n gallu nodi rheolau a strategaethau syml i gadw fy hun yn ddiogel ar-lein. |
| Iechyd a lles | • dewis o amrywiaeth o adnoddau digidol, gan gynnwys rhaglenni i greu, e.e. dewis icon lluniadu/paentio ar wefannau neu ddyfeisiau.<br>• defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau digidol, gan gynnwys rhaglenni i greu, e.e. defnyddio camera i dynnu ffotograffau.<br>• canfod beth yw hoff eitemau pobl eraill, e.e. sylweddoli bod ffrindiau yn hoffi defnyddio ceir a reolir o bell, neu ficrosgopau i archwilio. | • nodi a defnyddio ystod o gyfryngau a dyfeisiau digidol o brofiadau cyfarwydd. |

| | | |
|---|---|---|
| Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth | • dod o hyd i ffotograffau a symbolau ohonof i ac eraill sy'n gyfarwydd i mi, adnabod fy enw ac enwau pobl sy'n gyfarwydd i mi, e.e. dod o hyd i ffotograffau mewn albwm digidol; adnabod fy enw neu enw ffrind. | • ychwanegu fy enw at waith digidol. |
| Ymddygiad ar-lein a bwlio ar-lein | • mynegi'r hyn rwy'n ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi mewn ffordd syml, e.e. gwneud dewisiadau i dderbyn neu wrthod gweithgareddau digidol a gynigir.<br>• tynnu sylw oedolyn er mwyn mynegi fy mod yn hoffi neu nad wyf yn hoffi rhywbeth/rhywun ar-lein. | • gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar beth rwy'n ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi.<br>• cyfleu rhai o'm teimladau ac rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o deimladau pobl eraill. |
| **Rhyngweithio a chydweithio** | Drwy'r elfennau hyn, bydd dysgwyr yn edrych ar ddulliau cyfathrebu electronig ac yn gwybod pa rai sydd fwyaf effeithiol. Bydd dysgwyr hefyd yn storio data ac yn defnyddio technegau cydweithio yn llwyddiannus. | |
| | **Rwy'n dechrau:** | **Rwy'n gallu:** |
| Cyfathrebu | • sylweddoli fy mod yn gallu cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau digidol mewn cyd-destunau priodol, e.e. defnyddio galwad fideo i weld a siarad, a ffôn i siarad. | • siarad am wahanol ffurfiau ar gyfathrebu ar-lein, e.e. e-bost, negeseuo, galwad fideo. |
| Cydweithredu | • cymryd rhan yn yr un gweithgaredd digidol gyda fy ffrindiau a/neu oedolion cyfarwydd, e.e. chwarae gêm gan ddefnyddio ceir a reolir o bell a dangos ymwybyddiaeth o gyfraniad ein gilydd. | • cydweithio i greu gwaith digidol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| Cyfnewid a rhannu gwybodaeth | • cadw fy ngwaith digidol a'i adalw, gyda chymorth. | • cadw fy ngwaith digidol a'i adalw, e.e. clicio ar eiconau, o fewn apiau, lluniau camera. |
| **Cynhyrchu** | Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r broses gylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a dod o hyd iddi), creu, gwerthuso a mireinio cynnwys digidol. Er y gall y broses hon fod yn gymwys i feysydd eraill y fframwaith, mae'n arbennig o bwysig wrth greu a chynhyrchu cynnwys digidol. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, fodd bynnag, y gall cynhyrchu cynnwys digidol fod yn broses greadigol iawn ac nid yw'n fwriad llesteirio creadigrwydd o'r fath. Mae cynnwys digidol yn cynnwys cynhyrchu testun, graffeg, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain at amrywiaeth o ddibenion. Felly, bydd hyn yn cynnwys amryfal weithgareddau ar draws sawl cyd-destun gwahanol. | |
| | **Rwy'n dechrau:** | **Rwy'n gallu:** |
| Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol | • dangos ymwybyddiaeth o sut i gwblhau tasg ddigidol, e.e. defnyddio offer digidol i gwblhau tasg gyfarwydd, e.e. recordio fy llais ar albwm digidol neu deils/pegiau siarad.<br>• defnyddio eicon ar y sgrin i chwilio am raglenni neu wefannau penodol, e.e. chwilio am eicon brwsh paent wrth ddechrau ar lun digidol. | • nodi camau i lwyddiant mewn ymateb i gwestiynau gyda chymorth.<br>• archwilio meddalwedd cyfarwydd.<br>• dod o hyd i wybodaeth, fel delweddau, gan ddefnyddio allweddeiriau. |
| Creu cynnwys digidol | • creu gwahanol farciau, delweddau, seiniau neu fideos yn fwriadol gan ddefnyddio adnoddau digidol priodol. | • archwilio a defnyddio meddalwedd briodoli ychwanegu testun a delweddau, gan archwilio maint a lliw.<br>• ystyried a defnyddio animeiddiadau a fideos.<br>• creu gwaith digidol syml. |
| Gwerthuso a gwella cynnwys digidol | • mynegi teimladau/safbwyntiau cadarnhaol neu negyddol wrth edrych dros yr hyn rwyf wedi'i greu. | • rhoi sylwadau ar waith mewn perthynas â maen prawf llwyddiant unigol. |

| **Data a meddwl cyfrifiadurol** | Mae meddwl cyfrifiadurol yn gyfuniad o ymholi gwyddonol, datrys problemau a sgiliau meddwl. Cyn i ddysgwyr allu defnyddio cyfrifiaduron i ddatrys problem, rhaid iddyn nhw yn gyntaf ddeall y broblem a'r dulliau o'i datrys. | |
|---|---|---|
| | **Rwy'n dechrau:** | **Rwy'n gallu:** |
| Datrys problemau a modelu | • meithrin dealltwriaeth o achos ac effaith, e.e. pan fyddaf yn pwyso'r botwm 'chwarae' ar chwaraewr cryno ddisgiau, bydd cerddoriaeth yn dechrau chwarae. | • adnabod a dilyn cyfarwyddiadau yn y drefn briodol er mwyn cyflawni tasg. |
| | • dangos ymwybyddiaeth gynyddol o ddilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob dydd, e.e. rhaid i'r chwaraewr cryno ddisgiau fod wedi'i blygio i mewn a'i droi ymlaen cyn i'r botwm weithio. | • nodi, creu a dilyn dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau bob dydd. |
| | • dilyn cyfarwyddiadau un neu ddau gam er mwyn cyflawni proses, e.e. rhaglennu tegan i symud ymlaen/yn ôl ac ati. | • trefnu, dethol a defnyddio iaith syml i roi cyfarwyddiadau i bobl eraill. |
| | • gallu rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy. | • rheoli dyfeisiau drwy roi cyfarwyddiadau. |
| | • sylweddoli pan fydd pethau'n mynd o chwith ac ystyried ffyrdd o ddatrys y broblem. | • nodi gwallau mewn setiau syml o gyfarwyddiadau (algorithm). |
| Llythrennedd gwybodaeth a data | • deall bod modd cynrychioli pethau mewn ffyrdd eraill, e.e. sylwi ar y cysylltiad rhwng ffotograff ac eitem ffisegol.<br>• casglu data y daethpwyd o hyd iddyn nhw yn fy amgylchedd. | • casglu data y daethpwyd o hyd iddyn nhw yn fy amgylchedd.<br>• didoli a dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf.<br>• cyflwyno a gwerthuso fy nata drwy greu siartiau syml, e.e. pictogram. |

| | | |
|---|---|---|
| | • didoli a dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf. | |

# 10. Asesu

## 10.1 Dod i adnabod y plentyn yn ein lleoliad

Mae blynyddoedd cynnar plentyn yn gymharol fyr ond yn arwyddocaol iawn i'w ddatblygiad cyffredinol. Bydd plentyn yn datblygu'n gyflym iawn yn ystod pum mlynedd cyntaf ei fywyd, wrth i'r baldorddi cyntaf arwain at sgwrs ac wrth i symudiadau corfforol ddod yn fwyfwy cymhleth a soffistigedig. Mae'n bwysig rhoi gwerth ar y cyfnod hwn a meithrin natur chwareus a chwilfrydig plant. Gall y temtasiwn inni ruthro drwy sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau gael effaith andwyol ar y camau dysgu nesaf. Ar bob cam datblygu, dylem ganolbwyntio ar yr anghenion presennol ac nid ar yr anghenion a ddaw i'r amlwg dros y flwyddyn neu'r blynyddoedd nesaf. Os down i adnabod y plant yn ein lleoliad, eu hanghenion datblygu a'u diddordebau, byddwn yn fwy tebygol o feithrin mwynhad mewn dysgu ac ymagweddau cadarnhaol tuag ato.

Wrth i blant ymuno â'n lleoliad am y tro cyntaf, mae'n bosibl y byddant yn profi disgwyliadau ac arferion newydd. I rai, gwyddwn y bydd y cyfnod pontio hwn yn esmwyth ac yn hamddenol ac, i eraill, mae'n bosibl y bydd angen mwy o amser i ddod i drefn. Drwy ddefnyddio ein gwybodaeth am brofiadau blaenorol plant, yr hyn y maent yn ei hoffi, yr hyn nad ydynt yn ei hoffi a'u diddordebau, byddwn mewn sefyllfa well i hwyluso'r cyfnod hwn.

Bydd canolbwyntio ar ddod i adnabod plant yn helpu i ffurfio darlun o bob plentyn unigol. Gwnawn hyn am ein bod yn rhoi gwerth ar y sgiliau a'r wybodaeth unigryw sydd gan bob plentyn yn ein lleoliad. Dylai meithrin ein cydberthynas â'r plentyn fod yn brofiad pleserus i bawb.

Dylem sicrhau ein bod yn meddu ar y sgiliau priodol i ddeall rôl arsylwi a'r ffordd y mae'n cefnogi trefniadau asesu. Dylem wylio plant, gwrando arnynt a myfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud a'i ddweud. Caiff plant eu hasesu drwy arsylwi ar yr hyn y gallant ei wneud, a dadansoddi'r arsylwadau hyn yn fanwl.

## 10.2 Arsylwi ar blant

Mae arsylwi yn rhan allweddol o'n hymarfer. Dylai fod yn seiliedig ar ein gwybodaeth drylwyr ym maes datblygiad plant, a dylai'r plentyn fod wrth wraidd y broses.

Mae arsylwi'n ein helpu i wybod beth sy'n cymell plant ifanc, yn ennyn eu diddordeb ac yn hoelio eu sylw. Mae'n ein helpu i ddeall i ba raddau y maent yn cymryd rhan, beth yw eu cyflyrau emosiynol, pwy yw eu ffrindiau a pha sgiliau a chymwyseddau sydd ganddynt. Mae arsylwi effeithiol yn ein galluogi i ddadansoddi'r hyn rydym yn ei weld a'i glywed, ac yna ymateb mewn ffyrdd a fydd yn helpu'r plant i wneud cynnydd. Dylem ddefnyddio'r arsylwadau hyn i lywio gwaith cynllunio'r presennol a'r dyfodol yn ein lleoliad. Gall ein harsylwadau fod yn benodol ac wedi'u cynllunio; gallant gael eu hamseru dros gyfnod neu ddigwydd yn ddigymell pan fyddwn yn sylwi ar rywbeth newydd neu arwyddocaol. Bydd defnyddio amrywiaeth o dechnegau arsylwi yn sicrhau ein bod yn meithrin dealltwriaeth fanwl o bob plentyn.

Mae arsylwadau'n ein helpu i wybod beth yw diddordebau plant. Gall manteisio i'r eithaf ar y diddordebau hyn helpu i ymestyn y dysgu, yn enwedig wrth gynllunio'r profiadau a'r amgylcheddau ar gyfer archwilio cysyniadau.

Dylem arsylwi ar blant drwy gydol y dydd, dan do ac yn yr awyr agored, yn chwarae ar eu pen eu hunain ac ar y cyd. Bydd y cyd-destunau hyn yn ein helpu i adnabod amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth wrth i'r plant gymryd rhan mewn profiadau gwahanol. Fel rhan o'r broses, dylem ystyried a ddylid rhyngweithio â'r plentyn wrth iddo ddysgu ac, os felly, sut a phryd y dylid gwneud hynny. Dylem sicrhau ein bod yn cofnodi ein harsylwadau mewn ffordd gryno a hydrin sy'n gweithio'n dda i'n lleoliad ni. Dylai ein harsylwadau fod yn sbardun ar gyfer ein gwaith o gynllunio profiadau dysgu ac amgylcheddau yn y dyfodol.

## 10.3 Asesu plant

Mae i asesu dair prif rôl:

- helpu'r plentyn unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- adnabod, nodi a myfyrio ar gynnydd unigolion
- deall cynnydd grŵp dros amser er mwyn helpu'r lleoliad i fyfyrio ar ei ymarfer.

Nod asesu yw darganfod yr hyn y gall plant ei wneud, a dylid ei wneud drwy ddadansoddi ein harsylwadau'n fanwl. Mae asesu yn hanfodol er mwyn galluogi pob plentyn unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau y caiff ei gefnogi a'i herio yn unol â hynny. Mae'n ein helpu i feithrin dealltwriaeth well o ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol, gwybyddol a chorfforol y plentyn ar y

pum llwybr datblygu. Mae'n ein galluogi i ddeall ym mha ffyrdd y mae'n well gan blant ddysgu a'r ffyrdd gorau o'u cymell. Hefyd, gall asesu effeithiol ein helpu i adnabod y plant hynny y gall fod angen cymorth neu her ychwanegol arnynt i'w helpu i wireddu eu potensial llawn.

Mae'n bwysig ein bod yn deall nad proses linol yw dysgu, a bod gwahanol blant yn debygol o wneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol iawn. Rhaid inni gydnabod hyn a chaniatáu ar gyfer amrywiaeth o wyriadau, seibiannau a neidiau ar hyd taith ddysgu plentyn.

Nid rhestr wirio na digwyddiad untro ddylai asesu fod. Dylai fod yn broses barhaus sy'n ddefnyddiol, yn hydrin ac yn bwrpasol – i ni ac i gynnydd plant. Dylai fod yn amhosibl gwahaniaethu rhwng asesu a dysgu ac addysgu. Gall asesu ein helpu i gynnig profiadau ac amgylchedd sy'n helpu'r plentyn i ddysgu drwy gyd-destunau dilys.

## Cwestiynau myfyriol

**Ar gyfer ymarferwyr:**

- I ba raddau ydw i'n defnyddio dadansoddiadau o arsylwadau yn dda i lywio gwaith cynllunio o ddydd i ddydd?
- I ba raddau ydw i'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau arsylwi yn fy lleoliad?
- Sut ydw i'n sicrhau fy mod yn arsylwi yr un faint ar bob un o'r pum llwybr datblygu?
- Sut ydw i'n sicrhau bod arsylwadau'n canolbwyntio ar amrywiaeth o agweddau?
- I ba raddau ydw i'n sicrhau bod digon o amser yn cael ei dreulio yn arsylwi pob plentyn, yn gwrando arno ac yn ei ddeall er mwyn gweld ei fod yn gwneud cynnydd da?
- I ba raddau ydw i'n sicrhau nad wyf yn torri ar draws proses ddysgu'r plentyn wrth ryngweithio ag ef?
- I ba raddau ydw i'n sicrhau bod cyfraniad y rhieni'n cael ei werthfawrogi wrth ddod i adnabod y plentyn?
- I ba raddau ydw i'n gwrando ar y plentyn er mwyn cydweithio yn y broses ddysgu?

**Ar gyfer arweinwyr:**

- I ba raddau ydw i'n cefnogi ac yn cynnal diwylliant dysgu cadarn sy'n helpu ac yn herio ymarferwyr er mwyn galluogi plant i wneud cynnydd priodol?
- Sut ydw i'n defnyddio arsylwadau ac asesiadau fy nhîm i lywio gwaith cynllunio strategol?
- I ba raddau ydw i'n sicrhau bod ymarferwyr yn canolbwyntio ar ystod lawn o agweddau yn eu harsylwadau?
- I ba raddau ydw i'n adnabod anghenion dysgu proffesiynol yr ymarferwyr yn fy lleoliad?

- I ba raddau ydw i'n sicrhau bod ymarferwyr yn cael amser i arsylwi ar bob plentyn yn rheolaidd?
- I ba raddau ydw i'n myfyrio ar ansawdd a defnyddioldeb yr arsylwadau a'r asesiadau er mwyn datblygu ymarfer ac addysgeg fy lleoliad?

# 11. Gwella ymarfer

Mae'r adran hon yn amlinellu amrywiaeth o themâu sydd, yn ein barn ni, yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr ieuengaf yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu o'r ansawdd gorau. Dylem ddefnyddio'r adran hon i fyfyrio ar ein gwybodaeth, ein sgiliau a'n profiad ein hunain fel unigolion. Ein cyfrifoldeb ni yw bod yn ymwybodol o'n hanghenion dysgu proffesiynol penodol ein hunain, a chwilio am gyfleoedd pellach i'w diwallu. Dylem weithio gyda'n rhwydweithiau proffesiynol, sefydliadau ambarél a phartneriaid allweddol eraill i sicrhau bod ein lleoliad yn cynnig y profiad gorau posibl i'r plant yn ein gofal.

## 11.1 Arweinyddiaeth

**Beth yw arweinyddiaeth effeithiol a pham mae'n bwysig?**

Pan fyddwn yn siarad am arweinyddiaeth yn ein lleoliad, byddwn yn cyfeirio at bob aelod o staff mewn rôl reoli, arwain neu oruchwylio yn ogystal â'r arweinydd unigol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y lleoliad.

Dylai arweinwyr effeithiol fod yn fodelau rôl sy'n ysbrydoli eraill. Dylent fodelu ymarfer, gwybodaeth a gofal o safon uchel a rhoi gwerth ar sgiliau a gwybodaeth yr ymarferwyr yn eu lleoliadau. Dylent sicrhau bod pob un o'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, a gweithio gyda nhw i greu gweledigaeth gyffredin y mae pawb yn ei deall. Dylent fod yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus, ar eu cyfer nhw eu hunain ac ar gyfer ymarferwyr eraill, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau yn y lleoliad a'r tu allan iddo. Dylent annog ymarferwyr i fyfyrio a monitro ac asesu eu hymarfer yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gwella'n barhaus.

Dylai arweinwyr effeithiol feddu ar sgiliau cyfathrebu da, gan sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn gwybod yn union beth sy'n digwydd, a dylent ddirprwyo tasgau lle bo hynny'n briodol. Dylent hefyd fodelu sgiliau gwrando da, gan ystyried syniadau ac awgrymiadau gan aelodau o'r tîm. Dylai arweinwyr effeithiol groesawu cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys rhieni, gofalwyr ac eraill yn y gymuned, a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau lle bo hynny'n briodol.

Dylai arweinwyr effeithiol wneud defnydd da o'r broses hunanwerthuso, i ystyried y ffordd orau o gynnal a gwella eu lleoliad er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig y profiad gorau i blant bach. Dylid cynnwys pob partner perthnasol yn y broses hon er mwyn sicrhau y caiff ei safbwyntiau eu clywed.

**Cwestiynau myfyriol ar gyfer arweinwyr**

- I ba raddau ydw i'n cynnwys partneriaid yn y broses o greu, datblygu a gwireddu gweledigaeth fy lleoliad?
- I ba raddau ydw i'n gwerthuso'r ffordd y caiff y weledigaeth hon ei rhoi ar waith?
- I ba raddau ydw i'n adnabod fy anghenion dysgu proffesiynol fy hun a rhai'r ymarferwyr yn fy lleoliad?
- I ba raddau ydw i'n adnabod yr angen am newid ac yn gwneud y newid hwnnw er mwyn sicrhau ei fod yn llwyddiannus?
- I ba raddau ydw i'n cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol yn y broses hunanwerthuso?
- I ba raddau ydw i'n gwerthuso ansawdd yn dda?

## 11.2 Llythrennedd corfforol

**Beth yw llythrennedd corfforol?**

Llythrennedd corfforol yw'r cymhelliant, yr hyder, y cymhwysedd corfforol, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n rhoi'r sylfaen i blant ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol drwy gydol eu hoes. Mae helpu plant i fod yn gorfforol lythrennog yn cyfoethogi eu datblygiad corfforol, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol ac yn creu symudwyr iach ac egnïol. Mae gan blant ysfa naturiol i fod yn gorfforol, ond bydd gan rai plant anghenion corfforol ychwanegol wrth fanteisio ar gyfleoedd i fod yn egnïol a chwarae.

Er mwyn bod yn gorfforol lythrennog, bydd angen i blant feithrin ystod eang o sgiliau symud sylfaenol. Y sgiliau hyn yw'r sylfaen ar gyfer symud yn gymwys ac yn hyderus ym mhob math o weithgarwch. Wrth i blant gymryd rhan a gwneud cynnydd mewn gweithgaredd corfforol, byddant yn meithrin cymwyseddau o weithredoedd unigol i gydsymudiadau. Bydd meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad corfforol yn sicrhau y gallwn helpu plant i feistroli symudiadau cyn eu herio â symudiadau mwy cymhleth.

**Pam mae llythrennedd corfforol yn bwysig?**

Mae'n hanfodol ein bod yn gosod sylfeini llythrennedd corfforol yn ystod y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau y gall plant ddatblygu eu sgiliau motor. Gall creu amgylchedd sy'n annog plant i symud hefyd helpu i ddatblygu ymddygiadau iach gydol oes.

Hefyd, gall datblygu'r gallu i gydsymud, hyblygrwydd, cryfder y cyhyrau a chydbwysedd helpu plant i ddysgu'n well a datblygu eu hyder a'u hunan-barch. Gall profiadau cadarnhaol o symud corfforol helpu plant i adeiladu ar eu cymhelliant cynhenid i fod yn gorfforol egnïol.

**Annog plant i symud er mwyn gwella eu llythrennedd corfforol**

Mae'n bwysig ein bod yn modelu agweddau cadarnhaol at symud corfforol, ac yn cefnogi llythrennedd corfforol plant drwy roi **amser**, **lle** a **chyfle** i blant wneud y canlynol:

- bod yn gorfforol egnïol dan do ac yn yr awyr agored
- magu hyder yn eu gallu corfforol eu hunain
- archwilio, ymarfer ac atgyfnerthu amrywiaeth eang o symudiadau corfforol
- gweld bod eu hangen i fod yn gorfforol yn cael ei gydnabod a'i ddiwallu
- profi amrywiaeth o fathau gwahanol o chwarae, e.e. chwarae sgarmes, chwarae archwiliadol, chwarae ymsymudol a chwarae mentrus
- cymryd rhan mewn cerddoriaeth, caneuon, hwiangerddi a straeon
- archwilio'r byd o'u cwmpas yn gorfforol o lefelau gwahanol
- ymwneud ag amgylchedd cyfoethog sy'n hybu chwarae gweithredol
- profi amrywiaeth o ystumiau'r corff, symudiadau a chyd-destunau sy'n cymell plentyn i symud.

**Cwestiynau myfyriol**

**Ar gyfer ymarferwyr:**

- Sut ydw i'n sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae egnïol dan do ac yn yr awyr agored?
- I ba raddau y mae'r amgylchedd rwy'n ei greu yn cymell plant i fod yn egnïol?
- I ba raddau ydw i'n sicrhau bod y cyfleoedd a'r profiadau sydd ar gael yn fy lleoliad yn briodol yn ddatblygiadol i blant?
- I ba raddau ydw i'n sicrhau fy mod yn rhoi digon o amser, lle a chyfle i blant ddatblygu eu cymhwysedd corfforol?

**Ar gyfer arweinwyr:**

- I ba raddau ydw i'n helpu fy nhîm i fodelu agweddau cadarnhaol at symud corfforol?

## 11.3 Cynhwysiant

**Beth yw ymarfer cynhwysol, a pham mae'n bwysig?**

Mae ymarfer cynhwysol yn cydnabod, yn parchu ac yn hyrwyddo amrywiaeth plant a theuluoedd, ac yn sicrhau eu bod yn cael yr un driniaeth, cynrychiolaeth, cyfleoedd a pharch. Mae ymarfer cynhwysol yn parchu profiadau unigryw plant a'u teuluoedd, ac yn ymateb iddynt, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael cymorth priodol i gymryd rhan yn llawn yn y broses ddysgu.

Yn ystod eu cyfnod gyda ni, mae'n hanfodol bod plant yn teimlo'n hyderus o ran pwy ydynt. Gall cynnwys ymarfer cynhwysol yn ein dull addysgegol sicrhau bod gan bob plentyn ymdeimlad cryf o berthyn a'i fod yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynrychioli yn ein lleoliad, a bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i ffynnu.

**Sut beth yw lleoliad cynhwysol?**

Gwyddwn fod amgylchedd plant a'r oedolion o'u cwmpas yn dylanwadu arnynt, a'u bod yn dysgu o bopeth y maent yn ei weld, ei glywed a'i wneud. Mae cyfrifoldeb arnom i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad plant drwy greu amgylchedd hygyrch a chynhwysol yn ein lleoliad sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu pawb.

Dylai ein hamgylchedd:

- fod yn drefnus er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb
- gynnwys cynrychiolaeth amrywiol a dilys o fewn adnoddau, delweddau, deunydd darllen (rhywedd, gallu, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd ac ati)
- wneud addasiadau priodol er mwyn dileu rhwystrau sy'n atal plant rhag cymryd rhan
- gynnig adnoddau penagored sy'n adlewyrchu amrywiaeth ac nad ydynt yn rhyw-benodol

**Cwestiynau myfyriol**

**Ar gyfer ymarferwyr:**

- Ydy'r arferion a'r adnoddau yn fy lleoliad yn atgyfnerthu neu'n herio ffyrdd ystrydebol o feddwl? Sut ydw i'n gwybod hyn?

- I ba raddau y mae'r adnoddau yn fy lleoliad yn cynrychioli'r amrywiaeth o gymunedau sy'n byw yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a hynny mewn ffordd ddilys?
- I ba raddau y mae'r adnoddau yn fy lleoliad yn adlewyrchu amrywiaeth o gefndiroedd a strwythurau teuluol?

**Ar gyfer arweinwyr:**
- Ydw i wedi ystyried effaith rhagfarn ddiarwybod ar ymarfer a darpariaeth? Oes angen i fy ymarferwyr ymgymryd â dysgu proffesiynol?
- Pa mor aml ydw i'n gwerthuso fy mholisi cyfle cyfartal? I ba raddau ydw i'n sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn gynhwysfawr?

## 11.4 Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

### Beth yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod?

Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn disgrifio digwyddiadau trawmatig y gall plentyn eu hwynebu cyn iddo gyrraedd 18 oed. Gallai'r rhain gynnwys: cam-drin, esgeulustod, profedigaeth, rhieni'n gwahanu, rhiant yn y carchar a dod i gysylltiad ag achosion o gamddefnyddio sylweddau neu drais domestig. Mae ymchwil yn awgrymu y gall adfyd a thrawma gael effaith gydol oes ar iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles. Gall adfyd gael effaith wahanol ar bob teulu a phlentyn. Yn gyffredinol, gall adfyd a thrawma olygu y bydd plant yn wynebu mwy o straen, y gall fod yn anodd iddynt ymdopi ag ef.

Gall teuluoedd brofi cyfnodau byr o adfyd a thrawma, neu mae'n bosibl y bydd eraill yn wynebu cyfnodau hwy a mwy parhaus. O dan amgylchiadau o'r fath, gall teuluoedd ei chael hi'n anodd rhoi gofal ymatebol ac amgylchedd meithringar i'w plant. Gall dod i gysylltiad ag adfyd a thrawma, yn y tymor byr neu'r tymor hwy, gael effaith andwyol ar allu plant i ddysgu a datblygu.

### Beth yw ein rôl wrth gefnogi plant?

Mae cyfrifoldeb arnom i gadw plant yn ddiogel rhag niwed. Mae ymchwil yn awgrymu y gall lleoliadau o ansawdd da leihau effaith adfyd ar blant. Gallwn helpu plant i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i ddod yn fwy gwydn, drwy gydberthnasau cyson a chadarnhaol mewn amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol.

Fel rhan o'n hymarfer, dylem fyfyrio ar ba mor dda yw ein perthynas â theuluoedd. Bydd gan leoliadau sy'n arddangos yr arferion gorau bolisi ‘drws agored’ er mwyn i bob teulu a gofalwr deimlo'n gyfforddus yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol a all effeithio

ar y plentyn. Mae yr un mor bwysig ein bod yn gallu adnabod graddau ein gwybodaeth a'n cyfrifoldebau ein hunain, a'n bod yn gwybod pryd i geisio cyngor pellach neu gyfeirio teuluoedd at ffynonellau cymorth eraill.

**Rhagor o wybodaeth**

- Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cwestiynau myfyriol ar gyfer arweinwyr:**

- I ba raddau ydw i'n rhoi dull lleoliad cyfan ar waith ar gyfer cefnogi plant a all fod wedi wynebu adfyd a thrawma?
- I ba raddau ydw i'n adnabod bod angen i'r staff ymgymryd â dysgu proffesiynol perthnasol, ac yn eu helpu i wneud hynny?
- I ba raddau y mae ymarferwyr yn fy lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu?
- I ba raddau ydw i'n rhannu gwybodaeth berthnasol am blant a'u teuluoedd â'r staff?

## 11.5 Sgemâu

## Sgemâu

Yn ein hymarfer, mae'n bosibl y bydd adegau pan fyddwn wedi gofyn pam mae plant bach yn gwneud yr hyn y maent yn ei wneud. Efallai y byddwn wedi arsylwi ar blentyn yn gwneud rhywbeth dro ar ôl tro – troi cynwysyddion drosodd a gwagio eu cynnwys ar y llawr, gwneud cylchoedd yn y tywod neu'r paent, lapio eu hunain neu wrthrychau mewn defnydd. Mae'r gweithredoedd ailadroddus hyn yn cefnogi datblygiad hollbwysig yr ymennydd ac fe'u gelwir yn sgemâu. Mae'n bosibl bod y gweithredoedd hyn wedi ymddangos ychydig yn rhyfedd, neu hyd yn oed yn dipyn o niwsans, weithiau, ond i blentyn, mae hwn yn gam angenrheidiol i feithrin ei ddealltwriaeth o'r byd ac ohono ef ei hun. Gall sgemâu helpu plant i fynegi syniadau a meddyliau sy'n datblygu drwy chwarae archwiliadol. Mae gweithredoedd ailadroddus chwarae sgematig yn galluogi plant i greu ystyr yn yr hyn y maent yn ei wneud.

Mae gan rai plant ysfa gref iawn i ailadrodd gweithredoedd fel gosod gwrthrychau mewn rhes, symud pethau o le i le, llenwi a gwagio cynwysyddion, gorchuddio pethau neu eu taflu. Gall sgemâu newid dros amser, er enghraifft gall plentyn arbrofi â sgema penodol megis gorchuddio ei hun â blancedi a sgarffiau cyn symud ymlaen i orchuddio gwrthrychau o feintiau amrywiol â defnydd,

papur neu baent. Wrth i blant integreiddio pethau newydd y byddant yn eu dysgu oddi mewn i sgemâu sy'n bodoli eisoes, byddant yn addasu eu ffyrdd presennol o feddwl er mwyn ymgorffori'r profiadau newydd hyn.

Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosibl y bydd rhai plant yn arddangos mwy nag un sgema ac efallai na fydd plant eraill yn arddangos unrhyw sgemâu o gwbl.

**Pam mae sgemâu yn bwysig i ddatblygiad cynnar?**

Gall sgemâu fod yn allweddol wrth osod y sylfeini ar gyfer dealltwriaeth fathemategol a gwyddonol yn y dyfodol; maent yn cynnig cyfleoedd corfforol i ddeall cysyniadau iaith yn llawn ac yn annog plant i ddatrys problemau a meddwl yn feirniadol. Mae ysfa archwiliadol plant i ddarganfod pam mae pethau'n digwydd yn atgyfnerthu eu llwybrau niwral, gan ei gwneud yn haws i blant wneud cysylltiadau wrth ddysgu, profi eu ffyrdd newydd o feddwl, a gwneud dewisiadau a phenderfyniadau. Gall methu â chynnig cyfleoedd i blant fanteisio ar eu sgemâu a'u harchwilio'n llawn fod yn andwyol i'w hymdeimlad o alluedd.

**Mathau o sgemâu**

Mae llawer o fathau gwahanol o sgemâu, ac mae'r mathau mwyaf cyffredin a welir wrth i blant chwarae ac archwilio wedi'u rhestru isod. Gallwn weld bod llawer o'r patrymau ymddygiad ailadroddus hyn yn profi cysyniadau mathemategol a gwyddonol wrth i blant ddefnyddio gwrthrychau a deunyddiau wrth chwarae. Gall plant ddangos diddordeb mewn un neu rai o'r sgemâu canlynol, neu ym mhob un ohonynt:

- **Taflwybr:** Mae hyn yn golygu archwilio uchder, cyflymder, pellter a'r ffordd y mae pethau'n symud (yn llorweddol, yn fertigol ac yn groeslinol) a'r ffordd y gall plant effeithio ar y symudiad hwnnw.
- **Cylchdro**: Mae hyn yn golygu archwilio siâp, gofod, ymwybyddiaeth ofodol, symudiad a chylchdro, gan gynnwys sut mae plant yn troi eu hunain o gwmpas, a sut mae gwrthrychau'n troelli ac yn adlamu.
- **Amgáu:** Mae hyn yn golygu archwilio priodweddau, maint, siâp, mesuriadau a chyfaint gofodau drwy greu a/neu ddefnyddio gofodau caeedig.
- **Gorchuddio:** Mae hyn yn golygu archwilio gofod, cyfaint, cynhwysedd, pwysau, ymwybyddiaeth ofodol a maint drwy orchuddio neu lapio gwrthrychau, neu nhw eu hunain, yn llwyr. Gall plant hefyd lenwi bagiau, basgedi neu gynwysyddion.
- **Cludo:** Mae hyn yn golygu archwilio meintiau drwy symud gwrthrychau, casgliad o wrthrychau neu nhw eu hunain o un lle i'r llall.
- **Cysylltu a datgysylltu:** Mae hyn yn golygu archwilio maint, siâp ac amcangyfrif drwy uno pethau a'u gwahanu.

- **Gosod:** Mae hyn yn golygu archwilio trefn, dilyniant a dosbarthiad drwy osod a threfnu gwrthrychau mewn patrymau neu resi.
- **Gogwydd:** Mae hyn yn golygu archwilio cydbwysedd, uchder, lled a hyd drwy edrych ar bethau o onglau gwahanol, naill ai eu hunain neu gan ddefnyddio gwrthrychau.
- **Craidd a rheiddiol:** Mae hyn yn cyfuno symudiadau syth sgema taflwybr â symudiadau cylchol sgema cylchdroi. Daw hyn i'r amlwg pan fydd plant yn gwneud marciau ac yn cyfuno sgemâu wrth chwarae.

Gall goruchafiaeth sgemâu newid dros amser, wrth i blant archwilio sgemâu unigol ac yna eu cyfuno i'w defnyddio mewn gweithgareddau chwarae mwy cymhleth. Bydd ein harsylwadau ar chwarae yn aml yn dangos plant yn defnyddio parau a grwpiau o sgemâu sy'n ffurfio rhwydwaith o glystyrau, gan grwpio ac ailgrwpio wrth i ddiddordebau'r plentyn a'r ffordd y mae'n dysgu ddatblygu. Mae rhyngweithio a phrofiadau cadarnhaol a phwrpasol yn effeithio ar ddatblygiad a chyd-drefniant clystyrau o sgemâu; mae hyn yn golygu bod angen inni ystyried a ddylem ymyrryd â gweithgareddau chwarae plant i ymestyn eu ffyrdd presennol o feddwl ac, os felly, sut a phryd. Wrth i blant ddatblygu, bydd eu clystyrau o sgemâu yn dechrau gweithio gyda'i gilydd, gan alluogi'r plentyn i feddwl a gweithredu'n fwy effeithlon, gan ddangos mwy o ddeheurwydd a dealltwriaeth o gysyniadau ac iaith. Ar y pwynt hwn, gall fod yn anos inni adnabod sgemâu unigol, ond dylai arsylwadau rheolaidd lywio ymarfer a darpariaeth.

**Cwestiynau myfyriol**

- Pa mor hyderus ydw i o ran adnabod a deall sgemâu a'u cysylltiad â'r dysgu?
- I ba raddau ydw i'n rhannu fy arsylwadau'n dda â rhieni – ydy'r broses yn un ddwyffordd?
- I ba raddau ydw i'n defnyddio'r hyn rwy'n ei weld wrth arsylwi ar blant yn chwarae yn dda i adnabod dysgu sgematig a chynllunio ar ei gyfer?
- I ba raddau ydw i'n sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau penagored ar gael dan do ac yn yr awyr agored i gefnogi dysgu sgematig?
- I ba raddau ydw i'n sicrhau y caiff plant gyfleoedd i ymgymryd â lefelau dwfn o chwarae sgematig?
- Sut ydw i'n defnyddio fy ngwybodaeth am sgemâu i gefnogi plentyn yn ystod y broses o bontio i leoliad newydd?

## 11.6 Cyfnodau pontio

**Beth yw cyfnodau pontio?**

Cyfnodau o newidiadau sy'n digwydd ym mywyd plentyn ac sy'n golygu bod angen iddo addasu i amgylchiadau newydd yw cyfnodau pontio. Gall pontio gynnwys newidiadau mawr, fel profedigaeth, ysgariad, symud cartref neu'r broses o bontio o'r cartref i'r lleoliad. Y cyfnodau pontio llai, sy'n arwyddocaol o hyd, yw'r rhai sy'n digwydd o fewn ein lleoliad, fel symud o un ystafell i'r llall neu o un gweithgaredd i'r llall. Gall symud o sefyllfaoedd a oedd yn gyfforddus ac yn gyfarwydd o'r blaen fod yn fwy heriol i rai plant, a bydd angen cymorth effeithiol arnynt i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i ymdopi.

**Mathau o gyfnodau pontio**

- **Llorweddol –** y newidiadau lluosog sy'n digwydd drwy gydol y dydd, wrth symud o'r cartref i'r lleoliad, o gyfnodau chwarae i amseroedd bwyd, o'r tu allan i'r tu mewn.
- **Fertigol –** newidiadau mawr sy'n digwydd o fewn teuluoedd a all olygu bod angen iddynt addasu'n gymdeithasol ac yn ddiwylliannol i reolau, arferion a disgwyliadau newydd, er enghraifft wrth symud o'r cartref i'r lleoliad, o'r lleoliad i'r ysgol gynradd.
- **Lluosog** – gall rhai plant fynd drwy gyfnodau pontio fwy na dwy neu dair gwaith mewn diwrnod neu wythnos benodol, er enghraifft wrth symud o'r cartref i'r clwb brecwast, o'r clwb brecwast i'r feithrinfa, o'r feithrinfa i dŷ taid a nain/tad-cu a mam-gu ac o dŷ taid a nain/tad-cu a mam-gu i'r cartref.

**Pam mae cyfnodau pontio llwyddiannus yn bwysig?**

Gall pa mor dda y byddwn yn rheoli cyfnodau pontio bennu a fydd y profiad yn un cadarnhaol neu negyddol i'r plentyn. Gall diffyg cymorth priodol drwy'r broses bontio arwain at effeithiau hirdymor negyddol ar blant, er enghraifft diffyg hunan-barch a hyder, anallu i ffurfio cydberthnasau ystyrlon a llai o allu i ymdopi â newid yn y tymor byr a'r tymor hwy. Mae sicrhau lles plant yn rhan annatod o'r broses bontio. Gall ymdrin â chyfnodau pontio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn wella gallu plant i wneud yr addasiadau angenrheidiol i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi mewn unrhyw sefyllfa newydd.

**Sut y gallwn gefnogi cyfnodau pontio cadarnhaol?**

Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried anghenion unigol y plentyn wrth gynllunio cyfnodau pontio. Mae pob plentyn yn wahanol, a bydd angen mwy o gymorth ar rai nag eraill. Dylem weithio mewn partneriaethau â rhieni a gofalwyr i ddeall anghenion unigol pob plentyn a chydweithio i sicrhau bod cyfnodau pontio mor ddidrafferth â phosibl.

Mae meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth rhwng y cartref a'n lleoliad, lle rydym yn rhannu'r un dyheadau ar gyfer dysgu a datblygu, yn meithrin lles plant a'u hymdeimlad o berthyn. Mae cydnabod mai rhieni a gofalwyr yw addysgwyr cyntaf plentyn a rhoi gwerth ar yr hyn y maent yn ei wybod am eu plentyn yn hollbwysig, nid yn unig er mwyn sicrhau cyfnod pontio didrafferth o'r cartref i'r lleoliad, ond hefyd er mwyn cynnal partneriaethau effeithiol parhaus. Bydd lleoliadau sy'n meithrin deialog agored â rhieni/gofalwyr ac sy'n gwrando ac yn arsylwi ar blant mewn sefyllfa well i gynnig profiad pontio cadarnhaol.

**Cwestiynau myfyriol**

- I ba raddau ydw i'n defnyddio'r wybodaeth a rannwyd â mi gan rieni/gofalwyr i gefnogi cyfnodau pontio effeithiol?
- I ba raddau ydw i'n sicrhau y caiff partneriaethau da eu sefydlu a'u datblygu ag ysgolion a lleoliadau eraill?
- I ba raddau ydw i'n sicrhau y caiff llais y plentyn ei gynrychioli yn y broses bontio?

## Rhestr termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Amgylchedd dysgu a ffefrir | Ardal yn y lleoliad lle bydd plentyn yn dewis treulio'r rhan fwyaf o'i amser. |
| Llawn cyfathrebu | Mae amgylchedd llawn cyfathrebu wedi'i gynllunio mewn ffordd feddylgar i feithrin sgiliau siarad a gwrando plant, eu lles emosiynol, a'u lefelau ymgysylltu corfforol a chyffredinol. |
| Cyd-feddwl parhaus | Dau unigolyn neu fwy (oedolion a phlant) yn cydweithio i ddatrys problem, egluro cysyniad neu werthuso gweithgaredd. Bydd hyn fel arfer ar ffurf sgwrs, gyda'r oedolyn a'r plentyn yn cyfrannu syniadau er mwyn dod i gasgliadau posibl gyda'i gilydd. |
| Damcaniaethau newydd | Y ffordd y mae plant yn defnyddio ac yn cymhwyso syniadau a dealltwriaeth a ddatblygwyd o'u profiadau personol a chymdeithasol, er mwyn gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas. |
| Cyfleoedd dysgu digymell | Digwyddiadau neu brofiadau annisgwyl neu heb eu cynllunio sy'n cynnig cyfle i ddysgu. Maent yn rhoi cyd-destun ystyrlon i oedolion gyflwyno neu ymhelaethu ar rywbeth sy'n ennyn diddordeb neu chwilfrydedd y dysgwr. |
| Cynrychioli drwy symbolau | Y gallu i gyfleu syniadau drwy ddefnyddio geiriau, seiniau a gwrthrychau wrth chwarae. |
| Datblygu cysyniadau | Proses sy'n gysylltiedig â datblygiad iaith, sy'n helpu dysgwyr i ddeall cyfeiriad, lleoliad, safle, nifer, dilyniant, priodoleddau, dimensiwn, maint a phethau sy'n debyg ac yn wahanol. |
| Hunanreoli | Un o sgiliau sylfaenol plentyndod cynnar. Wrth i blant dyfu a chael eu cefnogi gan oedolion, byddant yn dysgu sut i reoli emosiynau ac ymddygiadau. |
| Gweithrediad motor | Y gallu i reoli symudiadau ac ystumiau'r corff. |
| Sgiliau hanfodol | Y sgiliau allweddol y bydd angen i bob plentyn eu meithrin ac sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm. Y saith dimensiwn yw:<br>• creadigrwydd ac arloesedd<br>• meddwl yn feirniadol a datrys problemau<br>• effeithiolrwydd personol |

| | |
|---|---|
| | • cynllunio a threfnu. |
| Cymhwysedd strategol | Gallu cynyddol plentyn i ddefnyddio strategaethau er mwyn ffurfio a datrys problemau mathemategol. |
| Cadwraeth rhif | Y ddealltwriaeth y bydd nifer grŵp penodol o wrthrychau yn aros yr un fath p'un a fyddant yn cael eu gwasgaru, eu gosod yn agos at ei gilydd neu eu had-drefnu. |
| Chwarae gweithredol | Unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys pyliau egnïol, o lefelau cymedrol i lefelau uchel. |
| Rhagfarn ddiarwybod | Rhagfarn anfwriadol neu farn ddi-sail o blaid neu yn erbyn un peth, person neu grŵp o gymharu ag un arall, mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn annheg fel arfer. |
| Llwybrau niwral | Cyfres o niwronau cysylltiedig sy'n anfon signalau o un rhan o'r ymennydd i ran arall. Bydd plant yn datblygu cysylltiadau drwy brofiadau a rhyngweithio beunyddiol. |
| Ffyrdd newydd o feddwl | Y broses lle mae plant yn datblygu damcaniaethau a syniadau drwy archwilio. |
| Galluedd | Y gallu i wneud dewisiadau a phenderfyniadau i ddylanwadu ar ddigwyddiadau ac effeithio ar fyd yr unigolyn ei hun. |

# Atodiad A

## Egwyddorion cynnydd

Mae pum egwyddor cynnydd yn ategu cynnydd ar draws yr holl Feysydd. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn.

**Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol**
Mae angen i ddysgwyr gaffael ehangder a dyfnder gwybodaeth. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddan nhw'n meithrin dealltwriaeth gynyddol soffistigedig o'r cysyniadau sy'n sail i ddatganiadau amrywiol o'r hyn sy'n bwysig. Maen nhw'n gallu gweld y perthnasau rhyngddyn nhw a'u defnyddio i lywio'r wybodaeth hon ymhellach a gwneud synnwyr ohoni, ac i greu cysylltiadau ar draws y cwricwlwm cyfan. Mae hyn yn cyfnerthu eu dealltwriaeth o gysyniadau.

**Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y Meysydd**
Mae dulliau holistaidd yn arbennig o bwysig i ddysgu yn y cyfnodau cynnar wrth i ddysgwyr ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas. Dylai dysgwyr ddod yn gynyddol ymwybodol o ffyrdd o grwpio a threfnu syniadau a dulliau mewn modd cydlynol. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, mae angen iddyn nhw gael profiad o ddysgu disgyblaethol ym mhob un o'r Meysydd a'i deall, a'i weld yng nghyd-destun y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r pedwar diben.

**Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau**
Mae angen i ddysgwyr ddatblygu ystod o sgiliau gan gynnwys sgiliau corfforol, sgiliau cyfathrebu, sgiliau gwybyddol a sgiliau sy'n benodol i Faes arbennig. Yn ystod y cyfnodau cynnar, mae'r ystod hon o sgiliau yn cynnwys ffocws ar ddatblygu sgiliau echddygol bras a manwl, yn ogystal â sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu. Mae'r dysgwyr hefyd yn datblygu sgiliau deallusol wrth gymhwyso'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd maen nhw'n cymhwyso sgiliau presennol mewn ffyrdd mwy caboledig, a byddan nhw'n cael cyfleoedd i feithrin sgiliau newydd, mwy penodol a mwy soffistigedig.

Dros amser, mae dysgwyr yn datblygu'r gallu i drefnu nifer fwy o syniadau cynyddol soffistigedig yn effeithiol, i gymhwyso'r hyn y maen nhw'n ei wybod mewn cyd-destunau amrywiol ac i gyfleu eu syniadau'n effeithiol, gan ddefnyddio ystod o ddulliau, adnoddau neu offer sy'n briodol i'w diben a'u cynulleidfa.

**Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd**
Dylai dysgwyr greu gysylltiadau yn fwy mwy annibynnol; ar draws dysgu mewn Maes, rhwng Maesydd, ac o fewn eu profiadau y tu allan i'r ysgol. Dros amser, bydd y cysylltiadau hyn yn gynyddol soffistigedig ac yn cael eu hesbonio a'u cyfiawnhau gan ddysgwyr. Dylen nhw hefyd allu cymhwyso'u dysgu mewn cyd-destunau mwy anghyfarwydd a heriol.

**Cynyddu effeithiolrwydd**

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, dylen nhw ddod yn gynyddol effeithiol. Mae hyn yn cynnwys dulliau cynyddol lwyddiannus o hunanwerthuso, adnabod eu camau dysgu nesaf, a dulliau mwy effeithiol o hunanreoleiddio. Mae eu gallu i fynd ati i geisio cymorth priodol ac adnabod ffynonellau ar gyfer y cymorth hynny yn cynyddu. Maen nhw'n gofyn cwestiynau cynyddol soffistigedig ac yn dod o hyd i atebion o ystod o ffynonellau a'u gwerthuso. Maen nhw'n dod yn gynyddol effeithiol wrth ddysgu mewn cyd-destun cymdeithasol a chyd-destun sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

# Meysydd dysgu a phrofiad

## Y celfyddydau mynegiannol

- **Cyflwyniad**

Gall natur ddeinamig y *celfyddydau mynegiannol* ysgogi ac ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell i ddatblygu i'r eithaf eu sgiliau creadigol ac artistig ynghyd â'u sgiliau perfformio.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn cwmpasu pum disgyblaeth, sef celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol. Er bod gan bob un o'r disgyblaethau hyn *gorff o wybodaeth* a *corff o sgiliau* sy'n perthyn yn benodol i'r ddisgyblaeth honno, cydnabyddir eu bod, gyda'i gilydd, yn rhannu'r *broses greadigol*.

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi'i fynegi mewn tri datganiad, sy'n cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiadau ar wahân. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.
Mae dysgu a phrofiad yn y Maes hwn yn annog datblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd fydd o gymorth i ddysgwyr ddal ar bob cyfle fydd yn codi yn eu bywydau, gan wynebu'r heriau.

Boed fel rhai sy'n creu neu fel rhan o gynulleidfa, trwy ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol gall dysgwyr ddod i ddeall a gwerthfawrogi diwylliannau a chymdeithasau yng Nghymru a'r byd. Trwy hyn gall dysgwyr feithrin sgiliau i archwilio amrywiaeth ddiwylliannol mewn lleoedd a chyfnodau gwahanol.

Mae'n bwysig fod y Maes yn anelu at sicrhau bod y celfyddydau mynegiannol yn agored i bob dysgwr, a thrwy'r dull cynhwysol hwn, ehangu gorwelion pob un ohonyn nhw.

Gall profi'r celfyddydau mynegiannol gynnau diddordeb dysgwyr yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol. O ganlyniad bydd eu lles, eu hunan-barch a'u gwydnwch yn cael eu meithrin. Bydd hyn o gymorth iddyn nhw ddod **yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

Gall profiadau yn y celfyddydau mynegiannol hefyd annog dysgwyr i ddatblygu eu gallu i werthfawrogi *gwaith creadigol* pobl eraill yn ogystal â'u talentau creadigol a'u sgiliau artistig a pherfformio eu hunain. Y nod yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio, mireinio a chyfathrebu syniadau gan feddwl yn greadigol a defnyddio'r dychymyg a'r synhwyrau.

Mae ymwneud â'r Maes hwn yn gofyn am ymroddiad personol, dyfalbarhad a sylw manwl i fanylion, rhinweddau sy'n cyfrannu at wneud dysgwyr yn ddysgwyr **uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes**.

Gall profiadau yn y Maes hwn ysbrydoli a chymell dysgwyr gan eu bod yn rhoi cyfle iddyn nhw ddod i gyswllt â *phrosesau creadigol*. Golyga hyn gynnig cyfleoedd i ddysgwyr gael profiadau megis ymweld â theatrau ac orielau, ac i ddod ag arbenigedd ymarferwyr allanol i mewn i'r ystafell ddosbarth.

Gall ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol wella cyflogadwyedd dysgwyr gan eu bod yn cael eu hannog i reoli eu hamser a'u hadnoddau i greu gwaith pwrpasol a chwrdd â therfynau amser. Gall hybu ymchwilio beirniadol, sy'n gallu arwain at newidiadau. Gyda'i gilydd, gall y sgiliau hyn gefnogi dysgwyr i ddod yn **gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.**

At hyn, mae'r gwerthuso sy'n rhan o'r broses greadigol yn galluogi'r dysgwyr i archwilio materion cymhleth. Mae'n eu galluogi i herio rhagdybiaethau ac i ddod o hyd i atebion a all arwain at well dealltwriaeth o'u hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain ynghyd â hunaniaeth ddiwylliannol pobl, lleoedd a chyfnodau eraill. Drwy'r profiad hwn, caiff y dysgwyr gefnogaeth i ddod yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd**.

Yn olaf, wrth iddyn nhw gael mwynhad a boddhad personol drwy fynegiant creadigol, gall dysgwyr ddod yn fwy hyderus, a gall hyn gyfrannu'n uniongyrchol at gyfoethogi eu bywydau.

- ## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Wrth archwilio'r Maes hwn trwy eu *gwaith creadigol* eu hunain a gwaith eraill, mae dysgwyr yn mynd i'r afael â *genres*, *technegau*, offer, deunyddiau a dulliau. Mae hyn yn eu galluogi i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Drwy archwilio ffurfiau a disgyblaethau yn y celfyddydau mynegiannol, boed drwy arbrofi, chwarae neu ymchwilio ac ymholi mwy ffurfiol, gall dysgwyr ddod i ddeall y ffordd y mae'r *celfyddydau mynegiannol* yn cyfathrebu drwy ddulliau gweledol, corfforol, geiriol, cerddorol a thechnolegol. Mae'r archwilio hwn hefyd yn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r celfyddydau mynegiannol yn ffurfio syniadau a theimladau. Gall hyn eu hannog i feithrin eu dychymyg a thynnu ar eu profiadau, eu sgiliau a'u doniau er mwyn iddyn nhw ddod yn artistiaid creadigol eu hunain.

Mae'r celfyddydau mynegiannol hefyd yn gyfrwng grymus y gall dysgwyr ei ddefnyddio i archwilio Cymru, ei thraddodiadau unigryw a'i diwylliannau amrywiol. Gallan nhw gynnig cyfle i ddysgwyr archwilio eu hetifeddiaeth ddiwylliannol eu hunain yn ogystal â rhai pobl, llefydd a chyfnodau eraill. Trwy hyn gallan nhw ddarganfod sut y gellir defnyddio'r celfyddydau mynegiannol i ffurfio a mynegi hunaniaeth bersonol, gymdeithasol a diwylliannol. Gall dysgwyr hefyd archwilio sut y gall y celfyddydau mynegiannol gael eu defnyddio i gwestiynu a herio safbwyntiau, a sut y maen nhw'n gallu ysgogi newid personol a chymdeithasol.

<u>Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.</u>

Mae ymateb o fewn y *celfyddydau mynegiannol* yn ysgogi ein hemosiynau a'n deall. Gall yr ymateb fod yn adwaith syml y synhwyrau i ysgogiad artistig, neu'n ddadansoddiad beirniadol o waith creadigol. Bydd y gallu i fyfyrio yn dyfnhau wrth i ddysgwyr gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut a pham y caiff *gwaith creadigol* ei ddatblygu a'i greu.
Gall mabwysiadu'r sgiliau a'r eirfa feirniadol o fewn y Maes hwn alluogi dysgwyr i ystyried gwaith creadigol mewn amrywiaeth o gyfryngau, *ffurfiau*, *genres* ac *arddulliau*.

Gall dysgu sgiliau dadansoddi pwysig o fireinio a dadansoddi gyfrannu at eu datblygiad creadigol.

Yn ogystal, gellir datblygu gwydnwch dysgwyr wrth iddyn nhw gael eu hannog i adnabod sut y gallan nhw wella eu gwaith, ac ymateb i adborth gan eraill.

Mae ymwneud â'r Maes hwn yn annog ymateb, ac mae hyn yn ysgogi dysgwyr i fyfyrio ar effeithiolrwydd eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, gan gynnwys gwaith *artistiaid* o Gymru a thu hwnt.

<u>Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.</u>

Trwy ymwneud â'r Maes hwn, bydd cyfleoedd yn cael eu rhoi i ddysgwyr fod yn arloesol a beiddgar, i greu gwaith unigol ac i ddatblygu eu hunaniaeth eu hunain fel *artistiaid* yng Nghymru. Gall y dysgu a'r profiad hwn feithrin gwydnwch a hyblygrwydd i oresgyn heriau.

Mae creu yn y *celfyddydau mynegiannol* yn cwmpasu ystod o weithgareddau gan gynnwys cynllunio, drafftio, dylunio, gwneud, coreograffu, siapio, cyfansoddi a golygu. Mae creu yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu a dangos rheolaeth ar ystod o sgiliau, a'r gallu i gymhwyso gwybodaeth.

Yn ystod y *broses greadigol* mae dysgwyr yn cyfathrebu drwy amrywiaeth o ffurfiau a disgyblaethau celfyddydol. Mae cyfathrebu yn cynnwys perfformio, cyflwyno, rhannu, arddangos a chynhyrchu, gan ystyried y gynulleidfa.

Yn y Maes hwn, wrth ymwneud â'r broses greadigol, gall dysgwyr adnabod cyfleoedd i drawsnewid eu syniadau, yn ddiogel ac egwyddorol, mewn i waith sydd â gwerth diwylliannol a masnachol, yn ogystal â defnyddio eu sgiliau creadigol i wireddu uchelgais.

- **Egwyddorion cynnydd**

<u>Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol</u>

Mae dysgwyr yn dangos cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol (Maes) drwy archwilio, profi a chreu ystyr cynyddol gymhleth. Mae cysylltu dysgu newydd â gwybodaeth bresennol yn datblygu soffistigeiddrwydd cynyddol o ran dealltwriaeth gysyniadol. At hynny, mae dysgwyr yn dysgu ac yn mireinio gwahanol fathau o wybodaeth a sgiliau, gan gynnwys y technegau, y prosesau a'r sgiliau sydd eu hangen i greu a dehongli ym mhob maes o'r celfyddydau. Yn ogystal, mae'r sgiliau cyfannol o greadigrwydd; synthesis; meddwl beirniadol; a dealltwriaeth o gyd-destunau diwylliannol yn hanfodol i'r Maes hwn.

<u>Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y meysydd dysgu a phrofiad</u>

Caiff cynnydd ei ddangos drwy barhau i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i werthfawrogi, creu, archwilio, ymateb a myfyrio mewn disgyblaethau penodol ac mewn cyfuniadau o ddisgyblaethau. Yn ystod y camau cynnar, caiff dysgu ei nodweddu gan chwilfrydedd cynyddol i fod yn greadigol ac yn arloesol drwy ddefnyddio ystod o adnoddau a deunyddiau i archwilio mewn meysydd amrywiol. Mae cyfuno disgyblaethau'n digwydd yn bwrpasol ond hefyd yn organig. Wrth i'r dysgu fynd rhagddo, mae dysgwyr yn dod yn gynyddol ymwybodol o ddisgyblaethau'r celfyddydau mynegiannol a'u nodweddion allweddol, gan gynnwys

(ond heb eu cyfyngu i’r canlynol) celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol. Mae dysgwyr yn nodi cysylltiadau yn y *broses greadigol* ar draws y disgyblaethau er mwyn archwilio, creu, dehongli ac ymateb.

Mireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso

Bydd lefelau rheolaeth, cywirdeb a rhuglder wrth ddefnyddio ystod o sgiliau’r celfyddydau yn cynyddu wrth i ddysgwyr ddatblygu. Er enghraifft, o ran dysgu yn y cyfnod cynnar, gallai hyn gael ei nodweddu gan ddefnyddio symudiadau corff syml i greu dawns a bod yn ymwybodol o agweddau sylfaenol megis cyflymder, cyfeiriad a lefelau wrth werthuso eich gwaith eich hun a gwaith eraill. Yn ystod cam mwy ymestynnol o gynnydd, gallai dysgwyr greu a gwerthuso llwyddiant rhyngweithio ymysg gwahanol agweddau ar symud mewn dawns cymhleth wedi'i choreograffu. Wrth iddyn nhw wneud cynnydd, mae dysgwyr yn datblygu'n barhaus o ran dyfnder ac yn defnyddio soffistigeiddrwydd cynyddol i fireinio'r sgiliau celfyddydol hyn mewn gwahanol ddisgyblaethau a/neu weithgarwch rhyngddisgyblaethol.

Nodi cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd

Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi fwyfwy y posibilrwydd o gyfuno disgyblaethau yn y Maes er mwyn gwerthfawrogi a chyflawni deilliannau creadigol. Caiff cynnydd ei nodweddu hefyd gan ddefnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol mewn disgyblaethau unigol a'r gallu cynyddol i drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau presennol i gyd-destunau newydd yn y Maes hwn ac ar draws Meysydd eraill.

Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr

Caiff cynnydd ei ddangos drwy symud o gael cymorth yr athro i wneud rhywbeth, tuag at ymreolaeth a soffistigeiddrwydd. Mae cynnydd yn debygol o ddeillio o ddefnyddio ac ailddefnyddio sgiliau hysbys yn raddol, ond gallai, o bryd i'w gilydd, fod yn naid ansoddol fawr.

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, maen nhw’n gwneud mwy a mwy o waith gwerthuso ac yn creu gwaith creadigol mwyfwy soffistigedig yn annibynnol a thrwy gydweithio mwy ag eraill. Maen nhw’n magu mwy o hyder drwy gael cyfleoedd i archwilio, profi a dehongli eu meddyliau, drwy ddisgyblaethau'r celfyddydau mynegiannol mewn amgylchedd diogel yn ogystal â thrwy gael cyfleoedd i ymateb iddyn nhw a’u gwerthuso mewn amgylchedd o’r fath. Mae'r ffordd y maen nhw’n gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill yn adlewyrchu dealltwriaeth gynyddol o broses yn ogystal â chynnyrch, ynghyd â gwydnwch cynyddol wrth gael adborth, a dyfalbarhad cynyddol wrth weithredu arno.

- **Disgrifiadau Dysgu – cam cynnydd 1**

| |
|---|
| **Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.** |
| • Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol.<br>• Rwy'n gallu gofyn cwestiynau i ganfod sut y caiff gwaith creadigol ei wneud.<br>• Rwy'n dechrau archwilio syniadau, teimladau a gwahanol naws mewn amrywiaeth o waith creadigol. |
| **Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.** |
| • Rwy'n gallu gwrando ar eraill yn mynegi barn ar fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill ac ymateb iddyn nhw.<br>• Rwy'n dechrau cymharu fy ngwaith creadigol gyda gwaith creadigol pobl eraill.<br>• Rwy'n dechrau siarad am fy hwyliau a'm hemosiynau, a defnyddio'r rhain i ddylanwadu ar fy ngwaith creadigol. |
| **Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.** |
| • Rwy'n gallu mynegi fy syniadau, teimladau ac atgofion yn fy ngwaith creadigol.<br>• Rwy'n gallu efelychu technegau artistig cydnabyddedig wrth greu fy ngwaith fy hun.<br>• Rwy'n dechrau dylunio fy ngwaith creadigol fy hun.<br>• Rwy'n gallu rhannu fy ngwaith creadigol.<br>• Rwy'n dechrau defnyddio deunyddiau creadigol yn ddiogel gydag arweiniad a chyfarwyddyd. |

# Iechyd a Lles

- **Cyflwyniad**

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (Maes) yn darparu strwythur holistaidd ar gyfer deall iechyd a lles. Mae'n ymwneud â datblygu gallu dysgwyr i wynebu heriau a chyfleoedd bywyd. Elfennau sylfaenol y Maes hwn yw iechyd a datblygiad y corff, iechyd meddwl, a lles emosiynol a chymdeithasol. Bydd yn cefnogi dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi sut mae gwahanol elfennau iechyd a lles yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae hefyd yn cydnabod bod iechyd a lles yn bwysig i alluogi dysgu llwyddiannus.

Bydd ymwneud â'r Maes hwn yn gymorth i feithrin dull gweithredu ysgol gyfan sy'n galluogi i iechyd a lles dreiddio i bob agwedd o fywyd ysgol.

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi cael ei fynegi mewn pum datganiad. Mae'r rhain yn cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried ar wahân. Er mwyn gwireddu'r dull holistaidd hwn, dylai athrawon geisio tynnu ar y pum datganiad wrth gynllunio gweithgareddau. Gyda'i gilydd, maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae gwireddu'n effeithiol y weledigaeth a ddisgrifir yn y Maes hwn yn allweddol i ddatblygu **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

Wrth ddatblygu cymhelliant, *gwydnwch* ac *empathi'r* dysgwyr, ynghyd â'u gallu i wneud penderfyniadau, gellir eu cefnogi i ddod yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes**.

Gellir cefnogi dysgwyr hefyd i ddatblygu'n **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd** drwy feithrin eu gallu i ddangos parch, gwerthfawrogi tegwch, gwrando ar eraill a gwerthuso'r *dylanwadau cymdeithasol* sy'n effeithio arnyn nhw.

Drwy alluogi dysgwyr i reoli risg, mynegi syniadau ac emosiynau, datblygu a chynnal cydberthnasau iach, ac i chwarae gwahanol rolau ac ysgwyddo gwahanol gyfrifoldebau, gall y dysgu a'r profiad yn y Maes hwn gefnogi dysgwyr i ddod yn **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith.**

- ## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

<u>Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.</u>

Gall y Maes hwn fod o gymorth i ddysgwyr ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles y corff. Mae hyn yn cynnwys arferion sy'n hybu iechyd megis gweithgareddau corfforol gan gynnwys chwaraeon a gweithgareddau eraill; deiet cytbwys; gofal a hylendid personol; cwsg; ac amddiffyn rhag haint. Mae hefyd yn cynnwys dealltwriaeth o arferion sy'n niweidio iechyd.
Trwy ddeall hyn, gall dysgwyr ddatblygu arferion gwybodus, cadarnhaol sy'n eu hannog i warchod, yn ogystal â pharchu eu hunain ac eraill. Mae'r arferion hyn yn cefnogi ymdeimlad dysgwyr o hunan-werth, eu hwyliau'n gyffredinol a'u lefelau egni.

Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddatblygu'r  hyder, cymhelliant, gallu corfforol, gwybodaeth a dealltwriaeth a fydd o gymorth iddyn nhw fyw bywyd iach a gweithredol sy'n hyrwyddo iechyd a lles y corff cadarnhaol.

Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.

Gall y Maes hwn helpu dysgwyr i archwilio'r cysylltiadau rhwng eu profiadau, eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol. Wrth gael cyfleoedd i archwilio cymhlethdodau'r cysylltiadau hyn, galluogir dysgwyr i ddeall nad yw teimladau ac emosiynau'n sefydlog nac yn gyson.

Bod yn ymwybodol o'n teimladau a'n hemosiynau ein hunain sy'n rhoi'r sylfaen i ni ddatblygu *empathi*. Gall hyn ein galluogi i ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol eraill. Wrth gefnogi dysgwyr i ddatblygu strategaethau sydd o gymorth iddyn nhw reoli eu hemosiynau, gall hyn yn ei dro gyfrannu tuag at iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol.

Wrth ddysgu sut i fynegi eu teimladau, bydd dysgwyr mewn sefyllfa well i greu diwylliant lle mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn weithred arferol.

Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.

Gall y Maes hwn helpu dysgwyr i ddeall sut mae penderfyniadau a gweithredoedd yn cael effaith ar y dysgwyr eu hunain, ar eraill, ac ar y gymdeithas ehangach, a hynny yn y presennol a'r dyfodol. Gall hefyd fod o gymorth i ddysgwyr ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau, gan eu rhoi mewn gwell safle i wneud penderfyniadau gwybodus ac ystyriol.

Gall dysgu a phrofiad yn y Maes hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau meddwl beirniadol angenrheidiol er mwyn gallu pwyso a mesur goblygiadau posibl eu penderfyniadau, gan gynnwys y risg, iddyn nhw ac i eraill.  Gall hyn gynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn penderfyniadau ar y cyd, a deall pwysigrwydd eu cyfraniad i'r broses hon.

Un penderfyniad allweddol sy'n effeithio ar ddysgwyr am oes yw'r un sy'n ymwneud â'u llwybrau gyrfa.

Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

Gall y Maes hwn fod o gymorth i ddysgwyr ddeall rôl bwysig *dylanwadau cymdeithasol* ar eu bywydau.  Mae'r dylanwadau hyn yn cynnwys rheolau, *normau cymdeithasol*, *agweddau* a *gwerthoedd* sy'n cael eu creu a'u hatgyfnerthu gan wahanol grwpiau

cymdeithasol. Trwy ymwneud â grwpiau cymdeithasol yr ydyn ni'n profi'r dylanwadau hyn.  Maen nhw'n effeithio ar ein hunaniaeth, ein *gwerthoedd*, ein hymddygiad ac ar ein hiechyd a lles, yn aml heb i ni sylweddoli hynny.

Bydd angen i ddysgwyr ymwneud yn feirniadol â'r dylanwadau cymdeithasol hyn o fewn eu diwylliant eu hunain yn ogystal â diwylliannau eraill, a hyn er mwyn deall sut y mae normau a gwerthoedd yn datblygu. Gall hyn eu galluogi i ddeall sut mae eu hymddygiad, eu perthynas ag eraill a'u profiadau yn cael eu llywio.

Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.

Gall y Maes hwn helpu dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi sut mae'r ymdeimlad o berthyn a chyswllt a ddaw o berthnasau iach yn cael effaith bwerus ar iechyd a lles.

Mae angen i ddysgwyr sylweddoli pan nad yw'r cydberthnasau yn iach, a bod yn ymwybodol o sut i fod yn ddiogel, a cheisio cymorth iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddeall y byddan nhw'n cael profiad o amrywiaeth o gydberthnasau drwy gydol eu bywydau. Byddan nhw hefyd yn cael eu hannog i ddatblygu eu gallu i ffurfio, meithrin a chynnal cydberthnasau.

O ganlyniad, byddan nhw'n gweld sut mae cydberthnasau iach yn hanfodol er mwyn cynnal corff a meddwl iach, a fydd yn caniatáu i ni ffynnu.

- **Egwyddorion cynnydd**

Mae cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (Maes) yn aflinol ac yn dilyn gwahanol lwybrau yn ystod y camau cynnydd a rhyngddyn nhw. Gall pryderon, diddordebau ac amgylchiadau personol effeithio ar lwybrau cynnydd dysgwr, yn enwedig yng nghyd-destun teimladau ac emosiynau; gellir dysgu ar wahanol gyflymder ar wahanol adegau.

Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

Mae cynnydd yn y Maes yn gontinwwm o soffistigeiddrwydd cynyddol dros gyfnod o amser lle y caiff gwybodaeth bresennol ei hailystyried, ond ar lefel ddyfnach. Mae gwybodaeth yn symud o'r diriaethol i'r haniaethol ac o ddeall yn unig i ddeall effeithiau. Mae

hyn yn cynnwys newidiadau cysyniadol o ran gwybodaeth a dealltwriaeth yn ogystal ag ymddygiad personol o fewn lles corfforol, emosiynol a meddyliol, ac mewn cydberthnasau a chyd-destunau cymdeithasol.

Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd

Mae cynnydd ym mhob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wrth ddysgu yn gysylltiedig ac yn rhyngddibynnol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n canolbwyntio ar ddatblygu'n raddol werthfawrogiad a dealltwriaeth dysgwyr o arwyddocâd gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu hiechyd a'u lles corfforol, emosiynol a meddyliol. Felly, ceir dealltwriaeth gynyddol o'r ffordd y mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cydblethu i sicrhau llwybr clir ar gyfer ble mae'r dysgwr yn mynd a sut i gyrraedd yno.

Mireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso

Caiff cynnydd ei ddangos yn y Maes drwy feithrin hyder, cymhelliant a chymhwysedd yn ogystal ag ystod ehangach o sgiliau, gyda chywirdeb a hyfedredd cynyddol. Mae'n cydnabod bod sgiliau corfforol, emosiynol, seicolegol a chymdeithasol yn y meysydd a rhyngddyn nhw yn dibynnu i raddau ar gerrig milltir datblygiadol ond heb eu cyfyngu ganddyn nhw. Mae hyn yn arbennig o amlwg wrth i'r cam cynnydd cychwynnol ganolbwyntio ar gydnabod a bod yn ymwybodol o sgiliau corfforol, emosiynol a chymdeithasol corfforol, cyn symud fesul cam tuag at fwy o gywirdeb a meistrolaeth o'r sgiliau hyn.

Nodi cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd

Caiff y broses o drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth yn y Maes ei hystyried yn gynnydd o ran dod yn fwy cyfrifol yn gymdeithasol. Wrth i ddysgwyr ddod yn fwy cyfrifol yn gymdeithasol, maen nhw'n gwneud cynnydd o ystyried eu hunain yn bennaf i ystyried effaith eu gweithredoedd eu hunain ar eraill ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang. Bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd o deimlo'n ofalgar am eraill a'u parchu i allu eirioli ar ran eraill.

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd drwy'r cwricwlwm, bydd eu dealltwriaeth o'r cysylltiadau ym mhob rhan o'r ysgol a'r tu hwnt â phob agwedd ar iechyd a lles yn dod yn fwy soffistigedig, a byddan nhw'n gallu adnabod a chydbwyso rhai o'r tensiynau a all fodoli mewn modd cynyddol effeithiol.

Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr

Caiff cynnydd ei ddangos mewn rhai agweddau ar y Maes fel taith o feithrin sgil neu gysyniad gyda chymorth gan eraill (cyfoedion neu oedolion) i ddod yn fwy cymwys ac annibynnol yn raddol, gan gynnwys ehangu'r gallu i adnabod a cheisio help a chymorth yn ôl yr angen. Mae profiadau sy'n canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ystyriol a gwybodus, a'u cyfiawnhau a'u gwerthuso, yn cefnogi twf *metaymwybyddiaeth* yn ogystal â dangos y modd y mae dysgwyr yn dod yn fwy annibynnol. Dros amser, mae dysgwyr yn gallu hunan-reoleiddio'n fwyfwy, gydag ymdeimlad cynyddol o effaith a chyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles cyffredinol.

- **Disgrifiadau Dysgu – cam cynnydd 1**

| **Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.** |
|---|
| • Mae'n gen i'r hyder a'r ysgogiad i symud mewn gwahanol ffyrdd, ac rwy'n dechrau datblygu rheolaeth ar symudiadau echddygol bras ac echddygol manwl mewn gwahanol sefyllfaoedd, gan symud yn ddiogel mewn ymateb i gyfarwyddiadau.<br>• Rwy'n dechrau gwneud cysylltiadau rhwng fy neiet a'm hiechyd a lles corfforol.<br>• Rwy'n dechrau adnabod y cysylltiad rhwng y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n gallu digwydd mewn gwahanol gyd-destunau.<br>• Rwy'n dechrau adnabod rhai mathau o ymddygiad, cyflyrau a sefyllfaoedd sy'n effeithio ar fy iechyd a lles corfforol, ac rwy'n dechrau gwybod sut i ymateb a chael cymorth. |
| **Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.** |
| • Mae gen i ymwybyddiaeth o'r hyn rwy'n ei ganfod a'i feddwl.<br>• Rwy'n gallu canolbwyntio fy sylw ac yn ymwybodol fy mod yn gallu gwneud hyn.<br>• Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol fod meddyliau a theimladau yn newid, ac rwy'n dechrau sylwi pan mae newid yn digwydd.<br>• Rwy'n gallu sylwi sut rwy'n teimlo, a chyfathrebu hyn.<br>• Rwy'n dechrau magu ymwybyddiaeth o sut mae teimladau'n cael eu mynegi trwy weithredoedd.<br>• Mae gen i ymwybyddiaeth o deimladau pobl eraill.<br>• Rwy'n ymwybodol o adegau pan mae eraill yn garedig wrthyf a phan rwyf i'n garedig wrth eraill. |
| **Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.** |
| • Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar beth rwy'n ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi.<br>• Rwyf wedi datblygu ymwybyddiaeth y gall fy mhenderfyniadau effeithio arnaf i ac ar eraill.<br>• Rwy'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau grŵp.<br>• Mae gen i ddealltwriaeth y gall pethau fod yn ddiogel neu'n beryglus. |
| **Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.** |

| **Currently missing from website – have alerted colleagues** |
|---|
| **Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.** |
| • Rwy'n gallu adnabod pwy sy'n gofalu amdanaf fi a phwy yw fy nheulu a'm ffrindiau.<br>• Rwy'n gallu mynegi fy anghenion a'm teimladau yn fy nghydberthnasau.<br>• Rwy'n gallu cyd-dynnu ag eraill gyda chymorth a heb gymorth.<br>• Rwy'n dechrau adnabod ymddygiad diogel a pheryglus mewn cydberthnasau.<br>• Rwy'n dechrau sylweddoli bod gen i'r hawl i gael fy nhrin mewn ffordd deg a pharchus. |

# Y Dyniaethau

- ## Cyflwyniad

Gall Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Maes) gynnau ymdeimlad o ryfeddod, tanio dychymyg ac ysbrydoli dysgwyr i dyfu mewn gwybodaeth, dealltwriaeth a doethineb. Mae'r Maes hwn yn ysgogi dysgwyr i ymwneud â'r materion pwysicaf sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys cynaladwyedd a newid cymdeithasol, ac yn gymorth i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli a disgrifio'r gorffennol a'r presennol.

Mae'r Maes hwn yn cwmpasu daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, ond hefyd mae ganddyn nhw eu corff penodol eu hunain o wybodaeth a sgiliau. Yn ogystal, gall dysgwyr gael eu cyflwyno i ddisgyblaethau cysylltiedig eraill, megis y clasuron, economeg, y gyfraith, athroniaeth, gwleidyddiaeth, seicoleg a chymdeithaseg, os a lle bydd hynny'n briodol.

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi'i fynegi mewn pum datganiad sy'n cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiadau ar wahân. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae'r Dyniaethau yn ganolog i ddysgwyr ddod yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd**. Mewn cyd-destunau cyfoes a hanesyddol, gall ymchwilio ac archwilio'r profiad dynol yn eu hardal eu hunain a gweddill Cymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach, fod o gymorth i ddysgwyr ddarganfod eu treftadaeth a datblygu ymdeimlad o le a *chynefin*. Gall hyn hefyd hyrwyddo dealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl Cymru, ei chymunedau, ei hanes, ei diwylliant, ei thirwedd, ei hadnoddau a'i diwydiannau yn cydberthyn i weddill y byd. Yn ei dro bydd ystyried safbwyntiau gwahanol o gymorth i hyrwyddo dealltwriaeth o'r

amrywiaeth ethnig a diwylliannol yng Nghymru. Gyda'i gilydd, bydd y profiadau hyn o gymorth i ddysgwyr werthfawrogi cymaint rhan ydyn nhw o gymuned ryngwladol ehangach, gan feithrin ymdeimlad o berthyn a allai eu hysgogi i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau.

Mae'n bwysig fod dysgwyr yn myfyrio ar effaith eu gweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill, a sut y dylanwadir ar y gweithredoedd hyn gan ddehongliadau o hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, athroniaethau, a safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Trwy gael eu hannog i ymwneud ag amrywiaeth o fydolygon, ynghyd â'u parchu a'u herio, hefyd trwy ddeall sut i ymarfer eu hawliau democrataidd, gall dysgwyr ddychmygu dyfodol posib a gweithredu'n gymdeithasol. Bydd y math hwn o ymwneud beirniadol â heriau a chyfleoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang, o'r gorffennol a'r presennol, o gymorth i ddysgwyr ddod yn **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith**.

Wrth iddyn nhw archwilio eu hardal leol a Chymru, yn ogystal â'r byd ehangach, gall dysgwyr ddatblygu sail gadarn o wybodaeth am gysyniadau daearyddol, hanesyddol, crefyddol, anghrefyddol, busnes, ac astudiaethau cymdeithasol, ynghyd â dealltwriaeth ohonyn nhw. Gall yr archwilio hwn ysgogi dysgwyr i gymryd rhan mewn gwahanol ddulliau ymholi, gwerthuso'r dystiolaeth y byddan nhw'n ei chanfod, a chymhwyso a mynegi eu canfyddiadau yn effeithiol. Bydd y profiadau hyn, oddi mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth, o gymorth iddyn nhw ddod yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes**.

Mae'n bwysig fod gan ddysgwyr gyfleoedd i drafod ac archwilio eu safbwyntiau personol ar fydolygon crefyddol ac anghrefyddol, heriau moesol a materion cynhwysiant cymdeithasol. Yn ogystal, gall cyfleoedd i archwilio'r byd naturiol, yn lleol, ledled Cymru a thu hwnt, fod o gymorth iddyn nhw feithrin ymdeimlad o le ac o les. Bydd y profiadau hyn o gymorth i ddatblygu gwydnwch yn y dysgwyr, magu annibyniaeth a chynyddu hunan-hyder a hunan-werth. Gall hyn gefnogi datblygu **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

- ## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

<u>Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.</u>

Bydd taith y dysgwyr trwy'r Maes hwn yn ysgogi ymholi a darganfod, wrth iddyn nhw gael eu herio i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu, i feddwl yn feirniadol a myfyrio ar dystiolaeth. Mae meddwl ymholgar yn ysgogi ffordd greadigol a newydd o feddwl, a thrwy hyn gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd eang. Gall meddylfryd o'r fath fod o gymorth i ddysgwyr ddeall profiadau pobl a'r byd naturiol yn well.

Bydd dulliau gweithredu disgyblaethol addas, gan gynnwys *dyniaethau digidol*, yn gymorth i ddysgwyr gasglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth. Bydd dehongli a chyfuno gwybodaeth o gymorth i ddysgwyr adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes a llywio ymhellach eu dealltwriaeth o'r byd. Trwy feddwl yn feirniadol am eu canfyddiadau, gall dysgwyr wedyn ddod i gasgliadau gwybodus, ond hefyd ddod i ddeall mai dim ond casgliadau rhannol neu amhendant a geir weithiau ac y gellir eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Bydd angen iddyn nhw fyfyrio'n ofalus er mwyn gwella eu methodoleg ac ehangu neu ddyfnhau eu hymholiad.

Mae ymholi yn fwy nag ymarferiad academaidd; mae'n galluogi myfyrio sydd o gymorth i ddysgwyr ddeall y cyflwr dynol. Yn ei dro, gall hyn ychwanegu ystyr at fywydau'r dysgwyr, a chyfrannu at eu hymdeimlad o le a bydolwg.

Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn ysgogi archwilio cysyniadau gan gynnwys cwestiynu, tystiolaeth, gwerthuso, moeseg a barn.

Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

Rydyn ni'n profi a gwneud synnwyr o'r byd trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a phrofiadau. Mae'r dyniaethau yn annog dysgwyr i adolygu'n feirniadol y ffyrdd mae'r digwyddiadau a'r profiadau hyn yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli. Wrth iddyn nhw ddatblygu eu safbwyntiau gwybodus eu hunain, ynghyd â chydnabod barn eraill, gall dysgwyr hefyd ddatblygu hunan-ymwybyddiaeth.

Gall dysgu sut y gall gwahanol fydolygon a ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau a'u dehongliadau eu hunain, yn ogystal â rhai pobl eraill, annog dysgwyr i ddatblygu gwerthfawrogiad o sut mae cyd-destun yn dylanwadu ar greu naratif a ffyrdd o gyfleu. Trwy archwilio sut a pham y gall dehongliadau wahaniaethu, ac wrth ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o ystod o ddehongliadau a ffyrdd o gyfleu, elfennau a gasglwyd o amrywiaeth o dystiolaeth, bydd dysgwyr mewn sefyllfa well i werthuso pa mor ddilys yw'r rhain.

Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn ysgogi archwilio cysyniadau, gan gynnwys archwilio ystyr, dod i farn, cwestiynau athronyddol a *phwysig bywyd*, ffyrdd o gyfleu, safbwyntiau, dehongliadau, arwyddocâd a dilysrwydd.

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Gall profi rhyfeddod y byd naturiol gyfrannu at ddatblygiad ysbrydol a lles y dysgwyr, a bod yn gymorth i ennyn ynddyn nhw ymdeimlad o le ac o berthyn, fel sy'n cael ei ymgorffori yn y gair *cynefin*.

Gall meithrin chwilfrydedd fod o gymorth i ddysgwyr ddeall a gwerthfawrogi sut a pham mae lleoedd, tirwedd ac amgylchedd yn newid, yn lleol, yng Nghymru yn ogystal ag yn fyd-eang. Yn ei dro, gall hyn alluogi dysgwyr i adnabod beth sy'n gwneud lleoedd a gofodau yn wahanol ac i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau sydd rhwng pobl a'u hamgylchedd, a hynny mewn cyd-destun cyfoes a hanesyddol. O ganlyniad, mae dysgwyr mewn sefyllfa well i wneud cyswllt rhwng y gorffennol a'r presennol ac i ddychmygu dyfodol posibl.

Bydd datblygu dealltwriaeth o sut y gall gweithredoedd dynol yn y gorffennol a'r presennol effeithio ar y berthynas rhwng y byd naturiol a phobl yn dwysáu ymwybyddiaeth dysgwyr o'r modd y mae'r gweithredoedd hyn yn dylanwadu ar gynaladwyedd ein byd yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn annog dysgwyr, fel cynhyrchwyr a defnyddwyr, i ddeall eu heffaith hwy eu hunain ar y byd naturiol. Yn ogystal, gall archwilio amrywiaeth o gredoau, athroniaethau a bydolygon am y byd naturiol fod o gymorth i ddysgwyr sylweddoli sut mae'r rhain yn dylanwadu ar y modd y mae pobl yn rhyngweithio â'r byd.

Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn annog dysgwyr i archwilio cysyniadau gan gynnwys y berthynas rhwng pobl a'r byd naturiol, achos ac effaith, newid a pharhad, arwyddocâd, lle, gofod a phrosesau ffisegol.

<u>Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.</u>

Gall gwerthfawrogi hunaniaeth, treftadaeth a *chynefin* ddylanwadu'n emosiynol ac yn ysbrydol ar ddysgwyr, a bod o gymorth i greu ymdeimlad o hunan ac o berthyn. Trwy ddeall eu hunain, mae dysgwyr yn meithrin eu hunaniaeth, ac ymwybyddiaeth o sut y gallan nhw, fel unigolion, siapio'r cymunedau y maen nhw'n byw ynddyn nhw. O ganlyniad, daw dysgwyr i ddeall y gall y dewisiadau y mae pob un ohonon ni'n eu gwneud gael effaith sylweddol ar gymdeithas, boed yn ddewisiadau unigol neu ar y cyd.

Trwy ymwybyddiaeth gyson o'u stori leol a stori Cymru yn ogystal â'r stori fyd-eang, gall dysgwyr ddod i ddeall natur gymhleth, luosog ac amrywiol cymdeithasau, yn y gorffennol a'r presennol.

Dros amser, mae lleoedd, cymunedau a chymdeithasau yn esblygu, gan brofi parhad a newid sydd wedi effeithio ar fywydau'r dysgwyr eu hunain ac ar fywydau pobl eraill, ac mae'r effaith yn parhau. Wrth iddyn nhw archwilio hyn, gall dysgwyr ddod i werthfawrogi sut mae'r esblygiad hwn yn cael ei sbarduno gan y rhyngweithio sydd rhwng ystod o ffactorau, gan gynnwys prosesau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol, ynghyd â gweithredoedd pobl, credoau crefyddol ac anghrefyddol a bydolygon. Gall hefyd fod o gymorth iddyn nhw ddatblygu dealltwriaeth o achosion, canlyniadau ac arwyddocâd y newidiadau a'r rhyng-berthnasau sydd wedi ffurfio cymdeithasau ar wahanol lefelau o ddatblygiad.

Gall profiadau yn y Maes hwn annog dealltwriaeth feirniadol o sut mae cymdeithasau wedi cael eu trefnu, eu strwythuro a'u harwain, yn lleol, yng Nghymru ac yn fyd-eang. Caiff cymdeithasau eu nodweddu gan amrywiaeth o normau a gwerthoedd diwylliannol, ieithyddol, economaidd, cyfreithiol a gwleidyddol. Maen nhw hefyd yn ddeinamig, gan sbarduno ac ymateb i newidiadau, ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang. Gall dysgwyr archwilio'r cysylltiadau a'r rhyng-ddibyniaethau rhwng y cymdeithasau hyn, yn y gorffennol a'r presennol, yng nghyd-destun globaleiddio byd-eang. Gall ymwneud pellach eu hannog hefyd i archwilio a meithrin dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau ac egwyddorion sydd wrth wraidd ac yn llywio cymdeithas ddynol.

Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn annog dysgwyr i archwilio cysyniadau gan gynnwys cronoleg, newid a pharhad, amrywiaeth, achos ac effaith, cydgysylltiad, cymuned, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a *llywodraethiant*.

<u>Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.</u>

Gall profiadau yn y Maes hwn fod o gymorth i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd rhyng-gysylltiedig ehangach, ynghyd â phwysigrwydd creu dyfodol cyfiawn a chynaladwy iddyn nhw eu hunain a'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae archwilio'r dyniaethau'n annog dysgwyr i fod yn ddinasyddion a defnyddwyr gweithredol, gwybodus a chyfrifol sy'n gallu uniaethu â'u cymunedau a chyfrannu atyn nhw, yn ogystal â gallu mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol sy'n wynebu'r dysgwyr, eu cymunedau, Cymru yn ogystal â'r byd ehangach.

Bydd y Maes hwn yn annog dysgwyr i ddeall natur ryng-gysylltiol cynaladwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol; cyfiawnder ac awdurdod; a'r angen i fyw mewn cymdeithas decach a mwy cynhwysol, ynghyd â chyfrannu ati. Bydd profiadau yn y Maes hwn hefyd o gymorth i ddysgwyr feithrin ymwybyddiaeth o'u hawliau, anghenion, pryderon a'u teimladau hwy eu hunain a phobl eraill, a sut mae'r fath ymwybyddiaeth yn cyfrannu at greu byd cynaladwy a rhyng-gysylltiedig.

Gall cwestiynu a gwerthuso ymatebion i heriau a chyfleoedd, ymatebion sydd eisoes yn bodoli, helpu dysgwyr i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus ac egwyddorol sy'n myfyrio'n feirniadol ar eu credoau, gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain ac eraill. Bydd profiadau yn y Maes hwn hefyd o gymorth i ddysgwyr ystyried effaith eu gweithredoedd wrth iddyn nhw wneud dewisiadau ac arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd. Bydd y profiadau hyn hefyd yn tanlinellu'r angen i'r dysgwyr allu cyfiawnhau eu penderfyniadau wrth weithredu mewn ffordd gymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac entrepreneuraidd. Gall hyn alluogi dysgwyr i ymroi i weithredu cymdeithasol fel dinasyddion cyfranogol, gofalgar o'u cymunedau

lleol, cenedlaethol a byd-eang, gan ddangos ymrwymiad i gyfiawnder, amrywiaeth a diogelu'r amgylchedd, ynghyd â dealltwriaeth ohonyn nhw. Trwy ymateb i heriau, a manteisio ar gyfleoedd i weithredu'n gymdeithasol a chynaladwy, gall dysgwyr greu ystyr a diben yn eu bywydau eu hunain.

Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn annog dysgwyr i archwilio cysyniadau gan gynnwys dinasyddiaeth, awdurdod a *llywodraethiant*, rhyng-gysylltu, cyfiawnder a chydraddoldeb, menter, hawliau, a *gweithredu* a chyfrifoldeb *cymdeithasol.*

- **Egwyddorion cynnydd**

Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

Caiff cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Maes) ei ddangos wrth i ddysgwyr ymgysylltu â gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol cynyddol eang a dwfn. Mae dysgwyr yn datblygu'r gallu i drefnu a nodi cysylltiadau rhwng gwybodaeth osodiadol yn gynyddol, er mwyn nodi a datblygu cysyniadau ategol mwy pwerus, a gwneud penderfyniadau wedi'u hategu mewn cyd-destunau mwy cymhleth.

Mae dysgwyr yn cysylltu syniadau a gwybodaeth newydd â gwybodaeth sy'n deillio o ddysgu blaenorol yn yr ysgol a'r tu hwnt iddi, ac yn eu defnyddio i feithrin dealltwriaeth gynyddol glir a chydlynol o'r byd o'u cwmpas.

Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd

Caiff cynnydd yn y Maes hwn ei ddangos yn ystod y cyfnodau cynnar wrth i ddysgwyr brofi dulliau holistaidd o archwilio'r byd o'u cwmpas, a chael eu cefnogi i feithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd. Bydd dysgwyr yn symud ymlaen i ymwybyddiaeth sy'n canolbwyntio'n fwy ar fywydau pobl eraill, yn eu cyd-destun cymdeithasol eu hunain, mewn mannau eraill yn y byd ac mewn gwahanol oesoedd. Wrth iddyn nhw symud drwy'r continwwm dysgu, mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gynyddol o'r nodweddion sy'n diffinio'r disgyblaethau sylfaenol (gan gynnwys hanes; daearyddiaeth; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol) a'r ffordd y gellir dod â'r rhain at ei gilydd i ddarparu ffyrdd gwahanol o ystyried materion a mynd i'r afael â chwestiynau neu broblemau.

Mireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso
Wrth i ddysgwyr brofi, deall a chymhwyso cysyniadau cynyddol gymhleth, maen nhw'n dangos cywirdeb a rhuglder cynyddol wrth ddefnyddio ystod o sgiliau a nodir yn y disgrifiadau dysgu a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Wrth iddyn nhw wneud cynnydd, bydd dysgwyr yn mireinio’r sgiliau disgyblaethol allweddol yn barhaus ac yn datblygu soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a’u cymhwyso, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud ag ymholi, megis llunio cwestiynau a defnyddio tystiolaeth i lunio ac ategu ateb a’r rhai sy’n ymwneud â chynrychioli a dehongli. Caiff cynnydd yn y Maes hwn ei ddangos drwy’r gallu i weithio gyda nifer cynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig, a dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o ymdrin â hanesion anghyson.

<u>Nodi cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd</u>

Caiff cynnydd yn y Maes hwn ei nodweddu hefyd gan ddefnydd mwy soffistigedig o’r sgiliau perthnasol a’r gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau cynyddol anghyfarwydd. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddan nhw’n gallu nodi cysylltiadau mewn cyfnodau a lleoedd a rhyngddyn nhw, gan adnabod yr hyn sy’n debyg a’r hyn sy’n wahanol, newidiadau a pharhad, a defnyddio’r ddealltwriaeth o gysyniadau i nodi cysylltiadau rhwng dysgu newydd a dysgu blaenorol. Gyda dealltwriaeth well o’r byd, o bobl eraill a’u gwerthoedd, mewn gwahanol gyfnodau, lleoedd ac amgylchiadau, ac o’u hamgylchedd a’r ffordd y cafodd ei lunio, bydd dysgwyr yn dangos mwy o allu i ddylanwadu ar ddigwyddiadau drwy fod yn ddinasyddion gwybodus a chyfrifol.

<u>Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr</u>

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd yn y Maes hwn, byddan nhw’n gofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig. Byddan nhw’n dangos mwy o annibyniaeth wrth ddod o hyd i wybodaeth addas, gan wneud rhagfynegiadau a damcaniaethau gwybodus, a gwneud penderfyniadau ynghylch dibynadwyedd a chyfleustod, ymysg pethau eraill.

- **Disgrifiadau Dysgu – cam cynnydd 1**

| **Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a’i ddyfodol.** |
|---|
| • Rwy’n gallu, trwy chwarae, archwilio, darganfod a dechrau gofyn cwestiynau syml a chynnig atebion posibl yn seiliedig ar brofiadau blaenorol.<br>• Rwyf wedi profi ystod o symbyliadau sydd wedi fy nghyffroi a’m hysbrydoli i ddychmygu a bod yn chwilfrydig am fy ardal leol, am Gymru yn ogystal ag am y byd.<br>• Rwy’n dechrau cyfleu fy arsylwadau mewn ffyrdd syml.<br>• Rwy’n dechrau cyfleu fy nghanfyddiadau mewn ffyrdd syml. |

| |
|---|
| **Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.** |
| • Rwy'n gallu ffurfio a mynegi barn syml am yr hyn rwyf yn ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi. |
| **Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.** |
| • Rwy'n dechrau adnabod yr effeithiau rwy'n eu cael ar y byd naturiol.<br>• Rwy'n gallu adnabod pam mae lleoedd yn bwysig i mi.<br>• Mae gen i brofiad uniongyrchol o'r byd naturiol, ac rwy'n dechrau adnabod lleoedd sy'n gyfarwydd i mi. |
| **Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.** |
| • Rwy'n dechrau adnabod digwyddiadau pwysig sydd wedi digwydd i mi yn y gorffennol.<br>• Rwy'n dechrau deall fod rhai pethau wedi digwydd yn y gorffennol, rhai yn digwydd yn y presennol, ac y bydd mwy yn digwydd yn y dyfodol.<br>• Rwy'n dechrau deall bod gan fy ngweithredoedd i, a gweithredoedd pobl eraill, achosion ac effeithiau.<br>• Rwy'n gallu ddangos ymwybyddiaeth o bwy ydwyf a'm bod i'n debyg ac yn wahanol i eraill.<br>• Rwy'n dechrau datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pobl. |
| **Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.** |
| • Rwy'n dechrau deall fod angen i ni barchu pobl eraill.<br>• Rwy'n dechrau deall bod gan fy ngweithredoedd i, a gweithredoedd pobl eraill, ganlyniadau. |

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- ### Cyflwyniad

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn ymwneud ag agweddau hanfodol cyfathrebu rhwng pobl. Ei nod yw cefnogi dysgu ar draws yr holl gwricwlwm a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, Saesneg, ac *ieithoedd rhyngwladol* yn ogystal â *llenyddiaeth*.

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried

dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae dysgu a phrofiad yn y Maes hwn yn anelu at alluogi dysgwyr i gyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Mae'n anelu at annog dysgwyr i drosglwyddo'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu am sut mae ieithoedd yn gweithio mewn un iaith er mwyn dysgu a defnyddio ieithoedd eraill. Bwriedir i'r dull *amlieithog* a *lluosieithog* hwn danio chwilfrydedd a brwdfrydedd y dysgwyr a chynnig sylfaen gadarn iddyn nhw ddatblygu diddordeb gydol oes yn ieithoedd Cymru ac ieithoedd y byd, a thrwy hyn eu gwneud yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes**.
Caiff y parodrwydd hwn i ddysgu ei gefnogi ymhellach gan fod medru trin iaith yn effeithiol o gymorth i ddysgwyr ddeall cysyniadau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft drwy eu galluogi i fynegi eu rhesymu wrth ddatrys problemau a dadansoddi gwybodaeth. Mae sgiliau amlieithog effeithiol yn dyfnhau'r gallu hwn gan eu bod yn galluogi dysgwyr i ymateb mewn llawer mwy o gyd-destunau.
O gofio mai un agwedd allweddol ar ddysgu iaith yn effeithiol yw'r parodrwydd i arbrofi ac i fentro wrth roi cynnig ar strwythurau, seiniau a phatrymau newydd, gall dysgu a phrofiad yn y Maes hwn rymuso'r dysgwyr i fod yn greadigol ac i ddal ati pan fyddan nhw'n wynebu heriau. Gyda'i gilydd, gall y sgiliau hyn feithrin hyder dysgwyr i fanteisio ar gyfleoedd newydd ac i addasu i wahanol rolau, sydd yn ei dro, yn gallu eu datblygu'n **gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.**

Yn y Maes hwn, gwelir ieithoedd fel allwedd i gydlyniant cymdeithasol, ac yn fodd i hyrwyddo gwell cyd-ddealltwriaeth yn lleol, cenedlaethol a byd-eang. Y nod yw annog dysgwyr i ymwneud yn feirniadol ag ieithoedd a llenyddiaeth er mwyn eu helpu i ddatblygu nid yn unig eu hunaniaeth ond hefyd eu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng eu diwylliannau a'u cymunedau nhw a diwylliannau a chymunedau eraill. Gellir dyfnhau'r ddealltwriaeth hon wrth i ddysgwyr gael y cyfle i ddysgu sawl iaith. Mae angen yr wybodaeth ieithyddol hon a'r sgiliau hyn er mwyn cyfrannu at gymdeithas a hynny'n hyderus a chydag empathi, ac mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu dysgwyr sy'n **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.**

Bydd ymwneud â'r Maes hwn hefyd o gymorth i ddysgwyr ddod yn **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas** gan fod y sgiliau a hyrwyddir trwy ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn allweddol i alluogi dysgwyr i fynegi eu hunain yn effeithiol, bod yn agored i safbwyntiau pobl eraill a datblygu perthynas gadarnhaol ag eraill.

- ## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

<u>Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.</u>

Mae ieithoedd yn ein cysylltu â phobl, lleoedd a chymunedau. Mae'r Maes hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod dysgwyr, fel dinasyddion Cymru *ddwyieithog* mewn byd *amlieithog*, yn gallu defnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Mae profiadau dysgu ystyrlon mewn cyd-destun amlieithog yn mynd law yn llaw â dysgu am ein hunaniaeth ddiwylliannol ein hunain yn ogystal â hunaniaeth ddiwylliannol pobl eraill. Gall ymwneud â'r Maes hwn felly feithrin balchder dysgwyr yn eu hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Gymru yn ogystal â'r byd.

Drwy godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth ieithoedd o oedran cynnar, y nod yw galluogi dysgwyr i adnabod tebygrwydd rhwng ieithoedd a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhyngddyn nhw. Gall dysgu a phrofiad yn y Maes hwn gefnogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o darddiad, esblygiad a nodweddion y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol, gan roi cyfres o sgiliau iddyn nhw sy'n cynnwys sgiliau creu, *cyfryngu*, hyblygrwydd ac empathi.

<u>Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.</u>

Mae ieithoedd a *llythrennedd* yn hanfodol i alluogi pobl i gyfathrebu â'i gilydd. Maen nhw'n ein galluogi i ddehongli'r hyn a glywn, a ddarllenwn ac a welwn, a thrwy hyn ddatblygu ein dealltwriaeth, ein hempathi a'n gallu i ymateb a *chyfryngu'n* effeithiol.
Nod y Maes hwn yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr brofi iaith lafar ac ysgrifenedig, yn ogystal â delweddau, mewn ystod o ffurfiau a *genres*. Gall natur cyfoethog ac amrywiol y profiadau hyn ddatblygu gallu dysgwyr i ddod yn greadigol ac yn fentrus wrth ddefnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Gallan nhw hefyd fod o gymorth i ddysgwyr feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ddehongli'n feirniadol a diduedd yr hyn y byddan nhw'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld er mwyn rhyngweithio'n effeithiol fel dinasyddion galluog, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

<u>Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.</u>

Mae cyfathrebu clir ac effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn un o sgiliau pwysig bywyd. Mae'n gofyn am allu defnyddio ac addasu iaith mewn amrywiaeth o rolau, genres, ffurfiau, cyfryngau ac arddulliau, a hynny mewn *cywair* addas. Mewn cyd-destun dwyieithog ac amlieithog, mae hyn hefyd yn gofyn am allu dewis iaith briodol, a *chyfryngu*.

Yn y Maes hwn, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr siarad ac ysgrifennu er mwyn iddyn nhw fod yn effeithiol wrth ryngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth a meithrin perthynas ag eraill. Bydd y dysgu a phrofiad yn eu cefnogi i ddod yn ymwybodol o sut maen nhw'n defnyddio iaith wrth iddyn nhw brofi cyfleoedd i fynegi eu hunain at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ogystal ag mewn ieithoedd rhyngwladol.

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Mae *llenyddiaeth* yn ehangu gorwelion. Yn ei holl ffurfiau, gall ein hysbrydoli a'n cymell, gan ein helpu hefyd i ddysgu mwy am iaith a chyfathrebu.

Bydd y Maes hwn yn cynnig profiadau llenyddol i ddysgwyr fydd yn ennyn eu diddordeb a'u dychymyg fel gwrandawyr, gwylwyr, darllenwyr, storïwyr a llenorion. Bydd y profiadau hyn yn eu cefnogi i werthfawrogi crefft llenorion a chrewyr yn ogystal â meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain. Byddan nhw'n cael eu hannog i brofi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Trwy hyn, wrth i'w dealltwriaeth o'u credoau, diwylliannau a'u profiadau eu hunain a phobl eraill gynyddu, gall dysgwyr ddatblygu eu gallu i ddangos empathi. Yn ei dro, gall hyn gyfrannu at eu lles emosiynol a meddyliol. Gyda'i gilydd, nod y profiadau llenyddol hyn yw tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr a bod o gymorth i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth.

- **Egwyddorion cynnydd**

Bwriedir i ddisgrifiadau dysgu ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Maes) adlewyrchu cyflymder a dyfnder dysgu mewn gwahanol gyd-destunau ac maen nhw wedi cael eu datblygu ar sail continwwm neu fframwaith cynnydd mewn ieithoedd, gan ddechrau heb fawr ddim iaith a gweithio tuag at hyfedredd. Bydd dysgwyr yn meddu ar alluoedd amrywiol yn eu hieithoedd ac, er mwyn rhoi sail gadarn i ail iaith ac ieithoedd dilynol, caiff camau cynnar (megis cyfatebiaeth graffem-ffonem) eu hailystyried ym mhob iaith.

Mae'r disgrifiadau dysgu yn y Maes hwn yn cynnwys lefel uwch o fanylder yn ystod camau cynnar dysgu na'r hyn a geir mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y sgiliau llythrennedd cynnar hyn yn cynnig sylfaen ar gyfer dysgu effeithiol ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Yr un yw'r disgrifiadau dysgu ar gyfer y datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd' i bob dysgwr ym mhob ysgol. Ar gyfer y datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn, mae disgrifiadau dysgu ar gyfer Cymraeg/Saesneg, Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol.

Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

Caiff cynnydd yn y Maes hwn ei gynrychioli fel continwwm cydlynol. Mae'r dysgwr yn datblygu'n holistaidd o ran ei ddealltwriaeth a'i ddefnydd pwrpasol o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu wrth wrando a darllen, siarad ac ysgrifennu, a rhyngweithio a *chyfryngu* mewn ystod eang o gyd-destunau.

Mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gynyddol soffistigedig o gysyniadau ieithyddol sy'n cefnogi'r broses o feithrin sgiliau mewn modd mwy ymwybodol a hunanymwybodol i gyfathrebu'n effeithiol drwy siarad, ysgrifennu, ystumiau, delweddau neu gyfryngau eraill.
Maen nhw hefyd yn gwneud cynnydd o ran ehangder a dyfnder gwybodaeth gysyniadol drwy profi syniadau mewn ieithoedd a llenyddiaeth, i ddechrau mewn cyd-destun mwy personol a lleol gan symud ymlaen i gysylltu â chyfathrebu mwy cymhleth mewn byd amlieithog. Felly, yn raddol, mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth fwy cynnil o wahanol safbwyntiau a meistrolaeth gynyddol o'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli, gwerthuso a mynegi safbwyntiau gwahanol ac ymateb iddyn nhw.

<u>Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y meysydd</u>

Mae cynnydd yn y Maes hwn yn gontinwwm o ymgysylltiad cynyddol gymhleth â syniadau a dibenion cyfathrebu ac o feithrin ymwybyddiaeth ieithyddol. Caiff y rhain eu dangos fel a ganlyn:

- ymateb i ddulliau cyfathrebu wrth wrando, darllen neu dderbyn iaith mewn ffyrdd eraill
- eu cynhyrchu wrth siarad ac ysgrifennu neu drwy ddulliau cyfathrebu eraill.

Mae defnyddio holl allu ieithyddol dysgwr – ni waeth pa mor anwastad y gall fod – yn ei alluogi i wneud cynnydd ym mhob iaith. Gellir cymhwyso dealltwriaeth o gysyniadau ieithyddol yn iaith y dosbarth, er enghraifft, at ddysgu iaith newydd, sy'n hwyluso cynnydd yn yr iaith honno yn ogystal â gwella dealltwriaeth o'r ffordd y mae holl ieithoedd y dysgwr yn gweithio. Er y gall cynnydd dysgwyr fod ar wahanol bwyntiau mewn gwahanol ieithoedd, mae canolbwyntio ar *luosieithrwydd* yn eu galluogi i ddefnyddio eu dealltwriaeth o nifer o ieithoedd i ddeall testun llafar neu ysgrifenedig, ni waeth beth fo'u meistrolaeth o'r iaith honno, a deall yn gynyddol y cydberthnasau rhwng gwahanol ieithoedd a dysgu o'r cydberthnasau hyn.

<u>Mireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso</u>

Mae cynnydd o ran mireinio sgiliau a'u soffistigeiddrwydd yn symud o ddiben cyfathrebu llythrennol a syml i lefelau mwy haniaethol, ymhlyg a chynnil o ystyr â dibenion mwy cymhleth. Mae dysgwyr yn raddol yn meithrin ymwybyddiaeth well o iaith a mwy o soffistigeiddrwydd wrth ddefnyddio'r ymwybyddiaeth hon i gyflawni'r dibenion arfaethedig o ran dehongli a chyfathrebu drwy siarad neu ysgrifennu neu drwy ddulliau eraill.

Wrth i ddysgwyr brofi, ymgyfarwyddo, deall a chymhwyso syniadau ac ymwybyddiaeth ieithyddol gynyddol gymhleth, mae cywirdeb a rhuglder wrth ddefnyddio sgiliau cyfathrebu yn gwella.

Gwelir cynnydd yn y Maes hwn hefyd drwy ddefnyddio iaith. Wrth i ddysgwyr ddod yn fwy medrus, gallan nhw addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag ystod o wahanol gynulleidfaoedd. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin cydberthnasau cryf a'r hyder i ddefnyddio eu llais mewn cymdeithas.

Gall dysgwyr ail iaith ddefnyddio iaith fformiwlaïg gydag ychydig iawn o gamgymeriadau i ddechrau ac, wrth iddyn nhw wneud cynnydd a defnyddio iaith mewn ffordd fwy uchelgeisiol a digymell, gall ymddangos fel eu bod yn gwneud mwy o gamgymeriadau. Mae'r rhan annatod hon o'r broses o ddysgu iaith yn llwyddiannus yn arwain at ddod yn ddefnyddwyr mwy rhugl a chywir.

<u>Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd</u>

Mae cydberthynas sylweddol rhwng y Maes hwn a'r dysgu ym mhob maes arall. Mae'r dysgwr yn symud ar hyd y continwwm cynnydd yn rhannol drwy wynebu heriau cyfoethog ac adnoddau yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill. Mae cysylltiad agos rhwng y meddwl sydd ei angen i ddeall a chyfathrebu'r holl ddysgu a'r hyn sy'n galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau derbyn, dehongli a mynegi iaith. Maen nhw'n gwneud cynnydd ar y cyd mewn ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn y Maes hwn ac mewn llythrennedd disgyblaethol yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill.

Mae'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau i gyd-destunau newydd yn rhan annatod o gynnydd yn y Maes hwn. Wrth i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o ieithoedd ychwanegol, caiff patrymau o ran defnydd iaith eu hadnabod, eu haddasu a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd. Caiff dulliau cyfathrebu eu haddasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, a gwahanol gyd-destunau disgyblaethol. Mae sgiliau mewn iaith gyntaf ac ail iaith dysgwyr yn eu helpu i ddysgu mewn ieithoedd dilynol. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddan nhw'n gallu adnabod cysylltiadau rhwng ffyrdd o gyfathrebu, gan wneud dewisiadau da ynghylch dulliau cyfathrebu effeithiol.

<u>Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr</u>

Wrth iddyn nhw symud ar hyd y continwwm dysgu, bydd dysgwyr yn adeiladu ar sgiliau ieithyddol sylfaenol i feithrin medr sy'n eu galluogi i oresgyn ystod o heriau cyfathrebu yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- gofyn cwestiynau cynyddol soffistigedig

- dod o hyd i wybodaeth yn annibynnol
- gwneud penderfyniadau trwy werthuso a beirniadu'r syniadau a'r safbwyntiau a'r dulliau cyfathrebu yn yr hyn y maen nhw'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld
- defnyddio iaith yn effeithiol i gyfleu eu syniadau a'u safbwyntiau eu hunain ar bynciau amrywiol.

Byddan nhw'n meithrin y sgiliau ieithyddol angenrheidiol i drafod a gwerthuso eu dysgu mewn ieithoedd.

## • Disgrifiadau Dysgu – cam cynnydd 1

| |
|---|
| **Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.** |
| • Rwy'n dechrau bod yn ymwybodol o gysylltiad rhwng iaith(ieithoedd) a diwylliant, ac rwy'n datblygu ymdeimlad o berthyn.<br>• Rwy'n dechrau deall bod gwahanol ieithoedd yn fy amgylchedd.<br>• Rwy'n dechrau siarad â'm cyfoedion yn iaith y lleoliad/ysgol. |
| **Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.** |
| Cymraeg/Saesneg<br><br>• Rwy'n gallu *gwahaniaethu seiniau*, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd yn ogystal ag o fewn geiriau.<br>• Rwy'n dechrau *gwahaniaethu ffonemau* yn glywedol mewn gwahanol safleoedd.<br>• Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth ddarluniadol a/neu gwybodaeth lafar, a chyfarwyddiadau aml-gam am bynciau cyfarwydd ac arferion.<br>• Rwy'n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol.<br>• Rwy'n gallu mwynhau rhannu llyfrau a deunyddiau darllen a'u trin fel darllenydd.<br>• Rwy'n gallu defnyddio unedau sain o amrywiol feintiau er mwyn dysgu darllen.<br>• Rwy'n gallu *segmentu* a *chyfuno*.<br>• Rwy'n gallu deall fod perthynas un-i-un rhwng y gair ysgrifenedig a'r gair llafar.<br>• Rwy'n dechrau datblygu fy ngwybodaeth o *gyfatebiaeth graffem-ffonem*.<br>• Rwy'n dechrau adnabod a darllen *geiriau aml eu defnydd*.<br>• Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall yr hyn rwyf yn ei ddarllen.<br>• Rwy'n dechrau darllen yn ôl yr hyn yr rwyf yn ei ysgrifennu.<br>• Rwy'n gallu deall a defnyddio *cysyniadau sylfaenol mewn iaith*. |

- Rwy’n ymwybodol o sut mae geiriau’n cael eu gwahanu gan fylchau.
- Rwy’n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau.
- Rwy’n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well.
- Rwy’n gallu ymateb i’r hyn rwy’n ei glywed, ei ddarllen a’i weld.
- Rwy’n gallu siarad am yr hyn rwy’n ei glywed, ei ddarllen neu’i weld, a mynegi barn syml.
- Rwy’n gallu arbrofi gyda geirfa rwyf newydd ei dysgu.

Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg

- Rwy’n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth a chyfarwyddiadau syml am bynciau cyfarwydd ac arferion.
- Rwy’n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol.
- Rwy’n dechrau adnabod a darllen *geiriau aml eu defnydd* rwy’n dod ar eu traws.
- Rwy’n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i’m helpu i ddeall geiriau.
- Rwy’n gallu arbrofi gyda geirfa rwyf newydd ei dysgu.

**Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.**

Cymraeg/Saesneg

- Rwy’n gallu cynhyrchu nifer o seiniau llafar yn gywir.
- Rwy’n gallu cyfathrebu ystyr gan ddefnyddio iaith lafar estynedig  a/neu ystum.
- Rwy’n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a’r dyfodol.
- Rwy’n dechrau cymryd fy nhro mewn sgyrsiau, gan ddilyn y pwnc dan sylw.
- Rwy’n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well.
- Rwy’n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.
- Rwy’n dechrau ffurfio llythrennau’n gywir gan afael yn briodol yn yr offer ysgrifennu.
- Rwy’n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd.
- Rwy’n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio gwybodaeth am lythrennau a’r seiniau maen nhw’n eu cynrychioli.
- Rwy’n ymwybodol o sut mae geiriau’n cael eu gwahanu gan fylchau.
- Rwy’n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau.

- Rwy’n gallu rhannu syniadau a theimladau a mynegi’r hyn yr wyf yn ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi.
- Rwy’n gallu disgrifio gwrthrychau a digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa.
- Rwy’n dechrau deall y gellir ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.
- Rwy’n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion.
- Rwy’n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo.
- Rwy’n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa  rwyf newydd ei dysgu.

Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg

- Rwy’n gallu cynhyrchu nifer o seiniau llafar yn gywir.
- Rwy’n gallu dewis siarad gyda fy nghyfoedion yn Gymraeg.
- Rwy’n gallu cyfathrebu ystyr trwy iaith lafar ac ystum.
- Rwy’n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau.
- Rwy’n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion.
- Rwy’n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo.
- Rwy’n dechrau mynegi fy nheimladau.
- Rwy’n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.

**Mae llenyddiaeth yn tanio’r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.**

Cymraeg/Saesneg

- Rwy’n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd.
- Rwy’n gallu ailadrodd straeon.
- Rwy’n gallu ymateb yn greadigol i’r ystod o *lenyddiaeth* rwy’n ei chlywed, ei ddarllen neu’n ei weld.
- Rwy’n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.
- Rwy’n gallu ymateb i’r hyn rwy’n ei glywed, ei ddarllen a’i weld, ac rwy’n gallu mynegi barn syml ar hyn.
- Rwy’n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau i wella fy nealltwriaeth.

Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg

- Rwyf wedi profi *llenyddiaeth*.
- Rwy’n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd.

- Rwy’n dechrau ymateb i lenyddiaeth rwy’n ei chlywed a’i gweld.
- Rwy’n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu. Rwy’n dechrau ymateb i’r hyn rwy’n ei glywed a’i weld.

## Mathemateg a Rhifedd

- **Cyflwyniad**

Mae datblygiad mathemateg wedi mynd law yn llaw â datblygiad gwareiddiad ers y cychwyn cyntaf. Mae’n ddisgyblaeth wirioneddol ryngwladol, ac mae o’n cwmpas ni i gyd ac yn sail i gynifer o agweddau ar ein bywydau bob dydd, megis pensaernïaeth, celfyddyd, cerddoriaeth, arian a pheirianneg. Er bod mathemateg ynddi hi ei hun, ac wrth gael ei chymhwyso, yn greadigol ac yn hardd, mae hefyd yn hanfodol ar gyfer cynnydd mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill.

Yn ychwanegol at hyn, mae rhifedd, sef defnyddio mathemateg i ddatrys problemau yn y byd go iawn, yn chwarae rhan allweddol yn ein bywydau bob-dydd, ac yng nghyflwr economaidd y genedl. Mae’n hanfodol felly fod profiadau mathemateg a rhifedd mor gyffrous, diddorol a hygyrch â phosibl i ddysgwyr, a bod y profiadau hyn yn fodd i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu gwydnwch mathemategol.

Yn ystod y blynyddoedd cynnar, mae chwarae yn rhan bwysig yn y broses o ddatblygu mathemateg a rhifedd, gan alluogi dysgwyr i ddatrys problemau, archwilio syniadau, creu cysylltiadau a chydweithio ag eraill. Yn ystod y blynyddoedd diweddarach, mae angen cynnig cyfleoedd i ddysgwyr weithio’n annibynnol ac ar y cyd er mwyn adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Mae cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd (Maes) yn cynnwys datblygu pum hyfedredd cysylltiedig a rhyngddibynnol. Dydyn nhw ddim yn nhrefn pwysigrwydd, ac mae ystyried yr hyfedreddau hyn yn hollbwysig wrth i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr.

- Dealltwriaeth gysyniadol
- Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau
- Cymhwysedd strategol
- Rhesymu rhesymegol

- Rhuglder

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi'i fynegi mewn pedwar datganiad sy'n cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiadau ar wahân. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae mathemateg ffurfiol wedi datblygu drwy resymu rhesymegol trylwyr. Mae'n cynnwys dyfeisio neu ddarganfod gwrthrychau *haniaethol*, ynghyd â sefydlu'r berthynas rhyngddyn nhw. Mae hefyd yn dysgu'r gwahaniaeth rhwng *dyfaliad*, tebygrwydd a *phrawf*.

Mae meddwl mathemategol yn cynnwys rhoi ar waith yr un math o resymu rhesymegol, y tro hwn wrth archwilio'r berthynas sydd o fewn cysyniadau a rhyngddyn nhw, ynghyd â chyfiawnhau a phrofi canfyddiadau. Yn wir, mae deall cysyniadau mathemategol a gallu cymhwyso cynrychioliadau haniaethol y cysyniadau hynny, a gallu rhesymu â nhw, yn greiddiol i ddysgu mathemateg. A hanfodol i hyn yw deall y symbolau a'r systemau symbolau a ddefnyddir mewn mathemateg, a'r gallu i'w defnyddio.

Er mwyn cymhwyso mathemateg mae angen gallu strategol o ran defnyddio syniadau haniaethol a modelu. Mae dysgwyr yn datblygu gwydnwch, yn ogystal â phrofi ymdeimlad o lwyddiant a mwynhad, wrth iddyn nhw oresgyn yr heriau sy'n codi. O ganlyniad, mae gweithgareddau mathemategol yn dysgu'r dysgwyr i beidio â bod ag ofn problemau anghyfarwydd neu gymhleth. Mae hyn oherwydd y gellir eu crynhoi i gyfres o broblemau symlach ac, yn y pen draw, i *gyfrifiannau* sylfaenol. Wrth iddyn nhw fyfyrio ar y dulliau a ddefnyddiwyd, ac ar yr hyn a ddysgwyd ganddyn nhw am fathemateg a rhifedd, gall dysgwyr ddatblygu'r sgiliau metawybyddol sydd o gymorth iddyn nhw wybod pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn gwella eu perfformiad. Trwy hyn gallan nhw ddod yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes**.

Mae dysgu a phrofiad yn y Maes hwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygu **cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith**. Gall hyn annog dysgwyr i fod yn greadigol, gan fod gofyn iddyn nhw chwarae, arbrofi, cymryd risg a bod yn hyblyg wrth fynd i'r afael â phroblemau mathemategol.

Gan fod mathemateg yn haniaethol yn ei hanfod, mae'n galluogi dysgwyr i ymwneud â gwrthrychau nad ydyn nhw'n bodoli'n ffisegol, ac i ddefnyddio a datblygu eu creadigrwydd er mwyn dychmygu a darganfod realiti newydd. Mae hefyd yn ategu gwaith modelu a rhagfynegi rhifyddol sy'n gallu, yn ei dro, annog ffordd o feddwl entrepreneuraidd.

Mae mathemateg a rhifedd hefyd yn gallu helpu dysgwyr i ddod yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd** drwy eu harfogi i ddadansoddi data yn feirniadol, gan eu galluogi i ddatblygu safbwyntiau gwybodus ar faterion cymdeithasol,

gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'n annog meddwl clir, gan alluogi dysgwyr i ddeall a gwneud penderfyniadau sy'n dangos rhesymeg.

Yn y Maes hwn, gall dysgwyr ddod ar draws sefyllfaoedd sy'n ymwneud ag iechyd a chyllid personol, lle gallan nhw ddatblygu'r sgiliau i reoli eu cyllid eu hunain, gwneud penderfyniadau gwybodus a dod yn ddefnyddwyr beirniadol. Bydd profiadau yn y Maes hwn o gymorth iddyn nhw ddysgu dehongli gwybodaeth a data er mwyn asesu risg, a defnyddio eu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm er mwyn gwneud dewisiadau effeithiol. Gall hyn oll fod o gymorth iddyn nhw ddod yn **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

- ## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

<u>Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.</u>

Rhifau yw'r system symbolau ar gyfer disgrifio a chymharu meintiau. Dyma'r cysyniad *haniaethol* cyntaf y bydd dysgwyr yn dod ar ei draws ym mathemateg, ac mae'n gymorth i sefydlu egwyddorion rhesymu sy'n rhesymegol. Ym mathemateg, mae'r system rifo'n sail i resymu o ran *algebra*, ystadegau, tebygolrwydd a geometreg, yn ogystal ag o ran cyfrifo ariannol a gwneud penderfyniadau. Mae gwybodaeth a gallu ym maes rhifau a meintiau yn hanfodol ar gyfer cyfrannu'n hyderus mewn bywyd, ac yn cynnig sylfaen ar gyfer astudio pellach a chyflogaeth. Mae rhuglder o ran *cyfrifiannu* yn allweddol i ddatrys problemau a gwneud cynnydd ym mhob maes dysgu a phrofiad. Datblygir rhuglder drwy ddefnyddio'r pedair gweithred rhifyddeg sylfaenol a datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhyngddyn nhw. Mae hyn yn arwain at baratoi'r ffordd ar gyfer defnyddio symbolau algebra yn llwyddiannus.

<u>Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.</u>

Mae algebra yn astudio'r strwythurau sydd ymhlyg mewn cyfrifiannau a chydberthnasau, ac yn cynnig ffordd o gyffredinoli. Mae meddwl algebraidd yn symud o'r cyd-destun i'r strwythur a'r perthnasoedd. Mae'r dull gweithredu pwerus hwn yn cynnig ffordd o gyrraedd at nodweddion haniaethol pwysig, a ffordd o ganfod a mynegi strwythurau mathemategol gwahanol sefyllfaoedd, gyda'r nod o ddatrys problemau. Mae algebra yn rhedeg fel llinyn cyswllt drwy frethyn mathemateg i gyd.

Mae meddwl algebraidd yn hanfodol er mwyn rhesymu, modelu a datrys problemau ym mathemateg ac mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau go iawn, gan gynnwys technoleg a chyllid. Mae gwneud cysylltiadau rhwng rhifyddeg ac algebra yn meithrin sgiliau ar gyfer rhesymu haniaethol o oedran cynnar.

Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

Mae geometreg yn ymwneud â chwarae gyda siapiau a strwythurau, eu trin, eu cymharu, eu henwi a'u dosbarthu. Mae astudio geometreg yn annog dysgwyr i ddatblygu a defnyddio dulliau *dyfalu*, rhesymu diddwythol a *phrawf*. Mae mesur yn golygu y gellir meintioli nodweddion gofodol a haniaethol, gan ddefnyddio amrywiaeth o unedau safonol ac *ansafonol*, a gall mesur hefyd ategu'r broses o ddatblygu dulliau rhesymu rhifyddol.

Mae rhesymu ynghylch meintiau a phriodweddau siapiau a'r gofod o'u hamgylch yn cynnig modd i ddysgwyr wneud synnwyr o'r byd ffisegol a byd siapiau mathemategol. Gellir cymhwyso geometreg a mesur mewn sawl maes, gan gynnwys celf, adeiladu, gwyddoniaeth a thechnoleg, peirianneg, a seryddiaeth.

Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Ystadegaeth yw'r arfer o gasglu, trin a dadansoddi data er mwyn gallu cynrychioli a chyffredinoli gwybodaeth. Tebygolrwydd yw'r broses fathemategol o astudio siawns, er mwyn gallu rhagfynegi'r tebygrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd. Mae ystadegaeth a thebygolrwydd yn dibynnu ar gymhwyso a thrin rhifau ac algebra.

Mae rheoli data a chynrychioli gwybodaeth yn effeithiol yn cynnig ffordd o brofi rhagdybiaethau, dod i gasgliadau a gwneud rhagfynegiadau. Mae rhesymu gan ddefnyddio ystadegau a thebygolrwydd, a gwerthuso pa mor ddibynadwy ydyn nhw, yn meithrin y sgiliau dadansoddi a meddwl beirniadol sy'n hollbwysig wrth wneud penderfyniadau egwyddorol a gwybodus.

- **Egwyddorion cynnydd**

Ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd (Maes), mae'r model cynnydd yn seiliedig ar ddatblygu'r pum hyfedredd rhyngddibynnol, a amlinellir isod. Gellir ystyried bod y model cynnydd hwn yn hydredol ac yn drawstoriadol. Er mwyn sicrhau cynnydd unrhyw ddysgu mewn mathemateg, dylid datblygu a chysylltu hyfedreddau ar yr un adeg, a dylid eu datblygu dros amser hefyd.

Gall pob hyfedredd ymwneud â nifer o egwyddorion, ac mae'r egwyddorion wedi'u nodi isod.

**Hyfedreddau**

Defnyddiwyd y hyfedreddau rhyngddibynnol canlynol wrth ddatblygu'r disgrifiadau dysgu ac maen nhw’n ganolog i gynnydd ar bob cam o ddysgu mathemateg. Mae rhifedd yn ymwneud â chymhwyso a chysylltu'r hyfedreddau hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn, ar draws y cwricwlwm.

- Dealltwriaeth gysyniadol

Dylid adeiladu ar gysyniadau a syniadau mathemategol, a'u dyfnhau a'u cysylltu wrth i ddysgwyr gael profiad o syniadau mathemategol cynyddol gymhleth. Mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth gysyniadol drwy allu esbonio a mynegi cysyniadau, dod o hyd i enghreifftiau (neu *anenghreifftiau*) a thrwy allu cynrychioli cysyniad mewn gwahanol ffyrdd, gan lifo rhwng gwahanol gynrychioliadau, gan gynnwys rhai *diriaethol*, gweledol, digidol a *haniaethol*.

Mae ehangder gwybodaeth yn cynyddu drwy gyflwyno'r dysgwyr i gysyniadau mathemategol newydd, a cheir dyfnder gwybodaeth drwy sicrhau bod dysgwyr yn gallu cynrychioli a chymhwyso cysyniad, a chysylltu ag ef, mewn ffyrdd gwahanol ac mewn sefyllfaoedd gwahanol. Caiff dysgwyr eu cyflwyno i gysyniadau cynyddol gymhleth, a bydd deall y ffordd y mae cysyniadau yn cysylltu yn cyfrannu at ddealltwriaeth gynyddol o'r syniadau yn y Maes hwn. Mae deall sut y mae cysyniadau mathemategol yn ategu'r dysgu yn helpu dysgwyr i greu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd.

- Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau

Dylai dysgwyr ddeall bod y symbolau y maen nhw’n eu defnyddio yn gynrychioliadau haniaethol a dylen nhw ddatblygu mwy o hyblygrwydd wrth gymhwyso a thrin amrywiaeth gynyddol o symbolau, gan ddeall confensiynau'r symbolau y maen nhw’n eu defnyddio.

Bydd cyflwyno a chymhwyso cysyniad newydd yn ymwneud â meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae symbolau neu fynegiannau yn gynrychioliadau haniaethol sy'n disgrifio amrywiaeth o sefyllfaoedd yn gynnil, a thrwy hynny'n cyfrannu at ddealltwriaeth gynyddol o natur mathemateg. Bydd cyflwyno symbolau newydd yn ychwanegu at ehanger gwybodaeth a bydd cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau yn cyfrannu at fireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso.

- Cymhwysedd strategol

Dylai dysgwyr ddod yn gynyddol annibynnol wrth gydnabod a chymhwyso'r strwythurau a'r syniadau mathemategol sylfaenol mewn problem, er mwyn datblygu strategaethau i allu eu datrys.

Mae adnabod strwythur mathemategol mewn problem a ffurfio problemau yn fathemategol er mwyn gallu eu datrys yn dibynnu ar ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y meysydd dysgu a phrofiad, ochr yn ochr â dyfnder gwybodaeth. Mae hefyd yn cefnogi'r broses o greu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd a datblygu effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr.

Dylai cydnabod pŵer mathemateg wrth alluogi sefyllfaoedd i gael eu cynrychioli arwain at werthfawrogiad cynyddol o ddefnyddioldeb mathemateg.

- Rhesymu rhesymegol

Wrth i ddysgwyr gael profiad o gysyniadau cynyddol gymhleth, dylen nhw hefyd feithrin dealltwriaeth o'r perthnasoedd rhwng y cysyniadau hyn ac oddi mewn iddyn nhw. Dylen nhw gymhwyso rhesymu rhesymegol ynghylch y perthnasoedd hyn a gallu eu cyfiawnhau a'u profi. Dylai'r cyfiawnhad a'r *prawf* ddod yn gynyddol, gan symud o esboniadau llafar a chynrychioliadau gweledol neu ddiriaethol i gynrychioliadau haniaethol sy'n ymwneud â symbolau a chonfensiynau.

Caiff y broses o fireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso eu dangos drwy gymhwyso rhesymu rhesymegol cynyddol soffistigedig. Mae meithrin dealltwriaeth o'r perthnasoedd rhwng cysyniadau mathemategol a'r broses o ddatblygu cyfiawnhad a phrawf yn arwain at ddealltwriaeth gynyddol o natur mathemateg ac yn helpu dysgwyr i greu cysylltiadau a throsglwyddo’r dysgu i gyd-destunau newydd. Mae'r broses o ddatblygu cyfiawnhad a phrawf yn helpu i gefnogi dysgwyr i fod yn gynyddol effeithiol.

- Rhuglder

Wrth i ddysgwyr gael profiad o gysyniadau a pherthnasoedd cynyddol cymhelth, eu deall a’u cymhwyso’n effeithiol, a'u cymhwyso'n effeithiol, dylai rhuglder wrth gofio ffeithiau, perthnasoedd a thechnegau dyfu, gan olygu y dylai ffeithiau, perthnasoedd a thechnegau a ddysgwyd o'r blaen gael eu sefydlu'n gadarn, a bod yn gofiadwy ac yn ddefnyddiadwy.

Mae datblygu rhuglder a chywirdeb yn adlewyrchu'r broses o fireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso.

- **Disgrifiadau Dysgu – cam cynnydd 1**

| **Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.** |
|---|
| • Rwyf wedi cael profiad o rifau a'u harchwilio mewn amgylcheddau sy'n llawn rhifau, dan do ac yn yr awyr agored, gan gael profi o rai *prifol*, *trefnol* ac *enwol*.<br>• Rwy'n gallu sylwi ar rifau, eu hadnabod a'u hysgrifennu mewn amrywiaeth o gyfryngau, trwy ddull aml-synhwyrol, o 0 i 10 a heibio i hynny.<br>• Rwy'n gallu defnyddio iaith fathemategol i ddisgrifio meintiau, i wneud amcangyfrifon a chymariaethau megis 'yn fwy na', 'yn llai na', 'yn hafal i'.<br>• Rwyf wedi cael profiad o gyfrif dilyniant o rifau, a hynny mewn gwahanol ffyrdd, gan gyfrif ymlaen ac yn ôl, a chan ddechrau ar wahanol rifau.<br>• Rwy'n gallu defnyddio fy mhrofiad o gyfrif dilyniant o rifau a *chyfatebiaeth un-i-un* er mwyn cyfrif cyfresi'n ddibynadwy. Rwy'n gallu cyfrif gwrthrychau y gallaf eu cyffwrdd, a'r rhai na allaf.<br>• Rwyf wedi archwilio ffurfio maint mewn gwahanol ffyrdd, gan ddefnyddio cyfuniadau o wrthrychau neu feintiau.<br>• Rwy'n gallu mynegi sut mae setiau yn newid pan gaiff gwrthrychau eu hychwanegu atynt a'u tynnu oddi wrthynt.<br>• Rwyf wedi cael profiad o grwpio a rhannu gyda gwrthrychau a meintiau, ac rwy'n gallu grwpio neu rannu meintiau bychain i grwpiau hafal eu maint.<br>• Rwyf wedi defnyddio arian, ac iaith arian, mewn sefyllfaoedd chwarae a bywyd go iawn, ac rwy'n gallu deall bod angen i mi gyfnewid arian am eitemau. |
| **Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.** |
| • Rwy'n dechrau adnabod, copïo, ymestyn a chyffredinoli patrymau a dilyniannau o'm cwmpas.<br>• Rwy'n dechrau dangos dealltwriaeth o gysyniadau 'hafal' a 'ddim yn hafal' gan ddefnyddio gwrthrychau. |
| **Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.** |
| • Rwy'n gallu deall a chymhwyso iaith amser mewn perthynas â'm bywyd bob-dydd.<br>• Rwyf wedi defnyddio amrywiaeth o wrthrychau i fesur. Wrth fesur, rwy'n dechrau deall yr angen i ailadrodd yr un uned ffisegol heb unrhyw fylchau.<br>• Rwy'n gallu amcangyfrif a chymharu gyda mesurau megis 'byrrach na...', 'trymach na...'. |

| |
|---|
| • Rwyf wedi archwilio, cymharu, a defnyddio iaith gyffredinol siapiau trwy chwarae ymchwiliol.<br>• Rwyf wedi archwilio symudiadau a chyfeiriadau ac rwy'n dechrau defnyddio iaith fathemategol i ddisgrifio safle. |
| **Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.** |
| • Rwy'n gallu ymchwilio, casglu a chofnodi data sydd yn fy amgylchedd.<br>• Rwy'n gallu grwpio setiau mewn i gategorïau a rwy'n dechrau cyfleu'r rheol neu'r rheolau rwyf wedi'u defnyddio.<br>• Rwy'n dechrau cyflwyno a dehongli data, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. |

# Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- **Cyflwyniad**

Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn ein byd modern. Mae datblygiadau yn y meysydd hyn wedi bod yn gyfrifol am arwain newid yn ein cymdeithas erioed. Mae'r rhain yn sail i arloesi ac yn effeithio ar fywyd pob un, yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn amgylcheddol. Felly bydd Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thecnoleg (Maes) yn gynyddol berthnasol yn y cyfleoedd y bydd ein hieuenctid ni yn eu profi, a'r dewisiadau y byddan nhw'n eu gwneud mewn bywyd.

Mae mynediad parod i gasgliad enfawr o ddata yn gofyn bod dysgwyr yn gallu asesu mewnbynau'n feirniadol, deall sail gwybodaeth sy'n cael ei chyflwyno fel ffaith, a gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n effeithio ar eu hymddygiad a'u gwerthoedd eu hunain. Mae angen iddyn nhw feithrin y gallu i ofyn, yn ystyrlon, y cwestiwn: 'Ydy'r ffaith ein bod ni'n gallu yn golygu y dylen ni?'

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi'i fynegi mewn chwe datganiad sy'n cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiadau ar wahân. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu **pedwar diben** y cwricwlwm.

Drwy werthuso tystiolaeth wyddonol a thechnolegol mewn ffordd gadarn a chyson, gall dysgwyr ddod yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd**, a fydd yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gweithredoedd yn y dyfodol. Daw **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas** yn wybodus drwy wybod am eu cyrff a'r ecosystemau o'u hamgylch, a thrwy wybod sut y gall datblygiadau technolegol arloesol gefnogi gwelliannau mewn perthynas ag iechyd a ffordd o fyw.

Dylai **dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes** ymwneud â newidiadau gwyddonol a thechnolegol. Gall yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddofn a geir wrth brofi'r hyn sy'n bwysig mewn gwyddoniaeth a thechnoleg fod o gymorth i ddysgwyr fyw bywydau annibynnol a chyflawn, a'u hannog i gyfrannu tuag at gymdeithas a diwylliant mewn amryfal ffyrdd. Mae dysgwyr sy'n **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith** yn croesawu heriau o'r fath, oherwydd byddan nhw'n cael eu hannog i gymryd risg, i arloesi a gwerthuso, a dysgu sut i ddarganfod atebion. Felly, gallan nhw ddod yn ddysgwyr mwy gwydn a phwrpasol ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r Maes hwn yn tynnu ar ddisgyblaethau bioleg, cemeg, gwyddoniaeth gyfrifiadurol, dylunio a thechnoleg, a ffiseg er mwyn dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r byd.

- ## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.

Mae chwilfrydedd am wyddoniaeth a thechnoleg yn ein hannog i ofyn cwestiynau am y byd o'n cwmpas. Wrth gael eu hannog i ddefnyddio rhesymeg, tystiolaeth a chreadigrwydd, caiff dysgwyr eu cefnogi i ymchwilio i wybodaeth wyddonol, a'i chymhwyso, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio. Bydd datblygu a phrofi *modelau* defnyddiol hefyd o gymorth iddyn nhw wneud synnwyr o gymhlethdod y byd. Gyda thystiolaeth sy'n deillio o arsylwadau, gellir datblygu damcaniaethau newydd a gellir mireinio neu herio syniadau sy'n bodoli eisoes.

Bydd angen i ddysgwyr allu gwerthuso honiadau gwyddonol i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n effeithio ar ein hamgylchedd ac ar ein lles. Mae'r dewisiadau a wnawn yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys safbwyntiau moesol a chredoau personol. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil trylwyr a chadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer penderfyniadau. Fel dinasyddion egwyddorol wybodus, bydd angen i ddysgwyr ystyried effaith eu gweithredoedd a datblygiadau gwyddonol a thechnolegol yn lleol, yng Nghymru a'r byd ehangach, gan ofyn 'Ydy'r ffaith ein bod ni'n gallu yn golygu y dylen ni?'

Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

Trwy gymhwyso eu profiadau, eu sgiliau a'u gwybodaeth, gall dysgwyr ddylunio a siapio datrysiadau peirianyddol arloesol. Bydd bod yn rhan o broses ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn annog dysgwyr i fod yn greadigol er mwyn datblygu syniadau, rheoli a lliniaru risg, a lleihau cymhlethdodau. Wrth greu cynnyrch, gwasanaethau a systemau, bydd angen i ddysgwyr ddeall a

rheoli’r rhyngweithio rhwng defnyddiau, strwythurau, cydrannau a defnyddwyr. Trwy gymhwyso prosesau peirianyddol, galluogir dysgwyr i ddatblygu cywirdeb, manylder, deheurwydd a chrefftwaith. Trwy ddylunio a dyfeisio canlyniadau mewn ymateb i anghenion a dymuniadau, gall dysgwyr ddod yn ddatryswyr problem blaengar.

Mae’r byd o’n cwmpas yn llawn pethau byw sy’n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Trwy sylwi ar amrywiaeth pethau byw, a sut maen nhw’n ymwneud â’u hamgylchedd, gall dysgwyr ddod i ddeall sut mae’r rhain wedi esblygu dros gyfnodau sylweddol o amser. Mae angen amodau ac adnoddau penodol ar bob peth byw er mwyn goroesi, a gall fod yn rhaid iddyn nhw gystadlu ag organebau eraill er mwyn gwneud hynny. Mae pobl yn rhan o’r byd hwn o bethau byw, a gall ein penderfyniadau a’n gweithredoedd, ynghyd â’r broses ddetholiad naturiol, gael effaith sylweddol ar amrywiaeth bywyd. Mae gwybod am strwythurau a swyddogaethau pethau byw yn galluogi dysgwyr i ddeall sut mae’r rhain yn tyfu, datblygu ac atgenhedlu’n llwyddiannus. Mae datblygu dealltwriaeth o’r ffactorau sy’n effeithio ar iechyd a llwyddiant organebau yn caniatáu i ni wneud penderfyniadau gwybodus, gan gynnwys chwilio am ffyrdd o atal a thrin clefydau.

Mae mater, a’r ffordd y mae’n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.

Mae’r bydysawd a phob peth byw wedi cael eu gwneud o fater. Mae sut mae *mater* yn ymddwyn yn pennu priodweddau defnyddiau ac yn ein galluogi i ddefnyddio adnoddau naturiol, yn ogystal â chreu sylweddau newydd. Gall deall natur mater fod o gymorth i ddysgwyr werthfawrogi’r dylanwad y mae cemeg yn ei gael ar y byd o’u hamgylch, yn ogystal â’r ffordd y mae’n cyfrannu at ddatblygiadau mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae adweithiau cemegol yn digwydd yn gyson yn ein hamgylchedd yn ogystal ag oddi mewn i bethau byw. Mae dysgu sut i reoli a chymhwyso’r adweithiau hyn o fudd i unigolion a diwydiant.

Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.

Gellir defnyddio *grymoedd* ac egni er mwyn disgrifio ymddygiad popeth, o flociau adeiladu lleiaf mater i symudiad y sêr a’r planedau. Gall deall grymoedd ac egni ein helpu i ragfynegi a rheoli ymddygiad ein hamgylchedd. Gellir modelu’r syniadau hyn a’u mynegi’n ffurfiol, gan ddarparu fframwaith mathemategol cyson ar gyfer disgrifio systemau ffisegol. Mae hyn wedi arwain at rai o ddarganfyddiadau gwyddonol a chyflawniadau peirianyddol mwyaf cymdeithas. Gall deall grymoedd ac egni fod o gymorth i ddysgwyr ddod i ben â heriau yn y dyfodol ac i ddefnyddio adnoddau ein planed yn effeithlon a chynaliadwy, gan eu helpu i ddod yn ddinasyddion cyfrifol.

Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i’n byd digidol.

Mae cyfrifiaduraeth yn ymwneud ag *algorithmau* yn prosesu data er mwyn datrys amrywiaeth eang o broblemau bywyd go iawn. Mae prosesau cyfrifiadurol wedi newid y ffordd rydyn ni'n byw, gweithio, astudio a rhyngweithio â'n gilydd a'n hamgylchedd. Dyma fan cychwyn pob system caledwedd a meddalwedd, ond mae angen i ddysgwyr hefyd fod yn ymwybodol o gyfyngiadau'r hyn y gall cyfrifiaduron eu cyflawni. Er mwyn creu a defnyddio'r technolegau hyn i'w llawn botensial, bydd angen i ddysgwyr wybod sut maen nhw'n gweithio. Bydd angen iddyn nhw hefyd ddeall fod yna ganlyniadau eang, yn gyfreithiol, cymdeithasol a moesol, i'r defnydd o dechnoleg. Gall hyn fod o gymorth i ddysgwyr wneud penderfyniadau gwybodus am ddatblygiad a'r defnydd o dechnoleg yn y dyfodol.

- **Egwyddorion cynnydd**

Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

Caiff cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Maes) ei ddangos wrth i ddysgwyr archwilio a phrofi syniadau a chysyniadau cynyddol gymhleth sy'n rhan o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae *gwybodaeth* yn symud, drwy archwilio, o ddealltwriaeth bersonol o'r byd i safbwynt haniaethol sy'n galluogi'r dysgwr i gysyniadu a chyfiawnhau ei ddealltwriaeth. Yn hytrach na bod yn llinol, mae cynnydd dysgu yn gylchol, gyda dysgwyr yn ailystyried eu gwybodaeth bresennol, yn ei chysylltu â'r hyn y maen nhw newydd ei ddysgu, ac yn addasu sgemâu yn sgil darganfyddiadau newydd.

Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y meysydd dysgu a phrofiad (Maes/Meysydd)

Mae cynnydd o fewn y Maes hwn yn cynnwys meithrin dealltwriaeth ddofn o'r dysgu sy'n cael ei fynegi ym mhob datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes a'r cydberthnasau a'r cysylltiadau cymhleth sy'n bodoli rhyngddyn nhw. Gellir cymhwyso *sgiliau* ymchwilio sy'n cael eu meithrin yng nghyd-destun un datganiad o'r hyn sy'n bwysig mewn rhai eraill. Gall dulliau iteraidd o ddatrys problemau mewn cyfrifiadureg a dylunio a thechnoleg hefyd fod o fudd i bob gwyddoniaeth. Caiff dysgu yn y cyfnod cynnar ei nodweddu gan ddull holistaidd o ofyn cwestiynau ac archwilio'r byd o gwmpas y dysgwr, gan arbenigo'n gynyddol yn ystod cyfnodau diweddarach.

Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau

Mae ymchwilio, archwilio, dadansoddi, datrys problemau, a dylunio yn sgiliau allweddol sydd eu hangen wrth i ddysgwyr weithio ar hyd continwwm dysgu y Maes hwn. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, mae'n archwilio ac yn ymchwilio i broblemau ac yn ffurfio

atebion creadigol canlyniadol mewn ffordd gynyddol soffistigedig. Mae coethder a chywirdeb cynyddol yn yr hyn y mae dysgwyr yn gallu ei wneud a'i gynhyrchu yn yr amgylcheddau ffisegol a digidol.

<u>Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd</u>

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd ar hyd y continwwm, byddan nhw'n gallu nodi cysylltiadau cynyddol rhwng dysgu presennol a phrofiadau eraill a gwybodaeth arall a gafwyd yn y Maes hwn a'r tu hwnt. Bydd hyn yn cynnwys creu cysylltiadau â gwybodaeth a *phrofiadau* o'r tu hwnt i amgylchedd yr ysgol. Mae problemau ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg yn ymwneud â phenblethau moesegol neu foesol a bydd dealltwriaeth gynyddol o'r ffordd yr ymdrinnir neu y dylid ymdrin â'r penblethau hyn yn dangos cynnydd. Bydd dysgwyr yn datblygu'r gallu i gymhwyso eu dysgu ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg er mwyn llywio'r ffordd y maen nhw'n meddwl ac yn gweithredu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

<u>Cynyddu effeithiolrwydd</u>

Mae datrys problemau a dylunio yn tueddu i fod yn iteraidd; daw meithrin hunaneffeithiolrwydd a gwydnwch sy'n gysylltiedig â sgiliau yn bwysig er mwyn galluogi dull 'treialu a gwella'. Dros amser, ceir annibyniaeth gynyddol wrth ddysgu, gan gynnwys rhyngddibyniaeth mewn dysgu drwy grŵp cyfoedion. Dylai dysgwyr feithrin ymwybyddiaeth o'u dealltwriaeth gynyddol soffistigedig a'r gallu i reoleiddio eu meddwl eu hunain.

- ## Disgrifiadau Dysgu – cam cynnydd 1

| |
|---|
| **Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.** |
| • Rwy'n gallu dangos chwilfrydedd a chwestiynu sut mae pethau'n gweithio.<br>• Rwy'n gallu archwilio'r amgylchedd, gwneud arsylwadau a mynegi fy syniadau. |
| **Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.** |
| • Rwy'n gallu dylunio wrth wneud, a chyfathrebu am yr hyn rwyf yn ei wneud.<br>• Rwy'n gallu defnyddio offer syml, defnyddiau a chyfarpar yn ddiogel er mwyn adeiladu a dadadeiladu.<br>• Rwy'n gallu archwilio priodweddau defnyddiau, a dewis gwahanol ddefnyddiau at ddefnydd penodol.<br>• Rwy'n gallu nodi, dilyn a dechrau creu dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob-dydd. |
| **Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.** |

| |
|---|
| • Rwy’n gallu adnabod bod planhigion ac anifeiliaid yn bethau byw sy’n tyfu.<br>• Rwy’n gallu nodi, dilyn a dechrau creu dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob-dydd. |
| **Mae mater, a’r ffordd y mae’n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.** |
| • Rwy’n gallu archwilio priodweddau defnyddiau, a dewis gwahanol ddefnyddiau at ddefnydd penodol.<br>• Rwy’n gallu nodi, dilyn a dechrau creu dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob-dydd. |
| **Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.** |
| • Rwy’n gallu nodi, dilyn a dechrau creu dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob-dydd. |
| **Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i’n byd digidol.** |
| • Rwy’n gallu nodi, dilyn a dechrau creu dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob-dydd.<br>• Rwy’n dechrau dilyn *cyfres o gyfarwyddiadau*.<br>• Rwy’n gallu arbrofi ag ystod o dechnolegau cyfrifiadurol yn y byd o’m cwmpas, a nodi pa ddefnydd a wneir ohonyn nhw. |